# Dal y fantol

Cofrestrfa Tir
Adroddiad Blynyddol
a Chyfrifon 2007/8

# Darllenwyr yr adroddiad hwn

Mae Cofrestrfa Tir Ei Mawrhydi (Cofrestrfa Tir), a sefydlwyd yn 1862, yn adran o'r llywodraeth yn ei rhinwedd ei hun, yn asiantaeth weithredol ac yn gronfa fasnachu ac nid yw'n defnyddio unrhyw arian a ddyfarnwyd gan y Senedd. Yn ôl statud, mae'n ofynnol iddi sicrhau bod ei hincwm o ffioedd yn cwmpasu ei holl wariant o dan amodau gweithredu arferol.

Mae'r Gofrestrfa Tir yn cynnwys yr Adran Cofrestru Teitl, sy'n delio â'i phrif fusnes, a'r adrannau Pridiannau Tir a Chredydau Amaethyddol sy'n llawer llai. Mae'r adroddiad hwn yn delio â'r adrannau ar wahân ond mae'r cyfrifon yn cael eu rhoi ar gyfer y Gofrestrfa Tir yn ei chyfanrwydd.

Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder a'r Arglwydd Ganghellor yw'r gweinidog sy'n gyfrifol am y Gofrestrfa Tir. Hwn yw adroddiad ffurfiol y Prif Gofrestrydd Tir i'r gweinidog ar berfformiad y Gofrestrfa Tir yn erbyn pob un o'r amcanion a'r targedau perfformiad allweddol a bennwyd gan y gweinidog ar gyfer 2007/8.

Mae copïau o'r adroddiad ar gael i:
- staff y Gofrestrfa Tir
- siopau llyfrau'r Llyfrfa i'w gwerthu i'r cyhoedd
- cyrff sy'n cynrychioli'r rhai sy'n defnyddio ein gwasanaethau yn gyson
- y sefydliadau hynny sydd â diddordeb proffesiynol neu ymarferol arbennig mewn trawsgludo neu agweddau eraill ar waith y Gofrestrfa Tir
- academyddion yn y maes
- y wasg genedlaethol a phroffesiynol
- adrannau ac asiantaethau eraill y llywodraeth, gan gynnwys Trysorlys EM a Swyddfa'r Cabinet
- cofrestrfeydd tir dramor
- y Cenhedloedd Unedig, yr Undeb Ewropeaidd a Banc y Byd
- yr unigolion hynny mewn sefydliadau sydd â diddordeb proffesiynol mewn rheolaeth y sector cyhoeddus.

I ddarllenwyr yr adroddiad hwn nad ydynt yn gyfarwydd â thermau'r Gofrestrfa Tir, mae rhestr termau wedi cael ei darparu yn Atodiad 7. Gallwch weld yr adroddiad hwn ar-lein ar ein gwefan yn www.cofrestrfatir.gov.uk.

Os hoffech gael yr adroddiad blynyddol a chyfrifon hwn mewn fformat gwahanol, gan gynnwys tâp sain, Braille neu brint bras, cysylltwch ag Ian MacEachern drwy ffôn: 020 7166 4496 neu e-bost: ian.maceachern@landregistry.gsi.gov.uk

# Cofrestrfa Tir
## Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2007/8

Adroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder a'r Arglwydd Ganghellor gan y Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr ar waith y Gofrestrfa Tir am y flwyddyn 2007/8.

Adroddiad wedi'i baratoi yn unol ag adran 101 Deddf Cofrestru Tir 2002, a chyfrifon wedi'u paratoi yn unol ag Adran 4(6) Deddf Cronfeydd Masnachu'r Llywodraeth 1973, Cronfa Fasnachu Cofrestrfa Tir EM fel ar 31 Mawrth 2008, ynghyd ag Adroddiad y Rheolwr ac Archwiliwr Cyffredinol.

Gorchmynnwyd gan Dŷ'r Cyffredin i'w argraffu ar 2 Gorffennaf 2008.

HC767 Llundain: Y Llyfrfa £18.55

BUDDSODDWR MEWN POBL

YN GADARN O BLAID · POBL ANABL

©Hawlfraint y Goron 2008

Gellir atgynhyrchu'r testun yn y ddogfen hon (ac eithrio unrhyw Arfau Brenhinol a logos adrannau ac asiantaethau eraill) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod ei fod yn cael ei atgynhyrchu'n gywir ac nid yw'n cael ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a nodi teitl y ddogfen.

Os ydym wedi nodi unrhyw ddeunydd hawlfraint trydydd parti bydd rhaid i chi geisio caniatâd gan y deiliaid hawlfraint dan sylw.

Ar gyfer unrhyw ddefnydd arall o'r deunydd hwn ysgrifennwch at Swyddfa Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus, Tîm Polisi Gwybodaeth, Kew, Richmond, Surrey TW9 4DU neu e-bost: licensing@opsi.gov.uk

ISBN:978 0102956504

# Cynnwys


**Pigion 2007/8** 4

**Rhagair gan y Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr** 8

**Cyfarwyddwyr y Gofrestrfa Tir** 10

**Ein busnes** 12
Amdanom ni 13
Ein cenhadaeth, gweledigaeth ac amcanion strategol 14
Ein dangosyddion perfformiad allweddol 15
Targedau perfformiad allweddol 2007/8 16
Perfformiad busnes ehangach ar gyfer 2007/8 17
Gwaith a dderbyniwyd ac a gwblhawyd 18
Bodlonrwydd cwsmeriaid cyffredinol 19
Effeithlonrwydd 19
Cyflymder 21
Cywirdeb 21
Safonau gwasanaeth 22

**Ein sefydliad** 26

**Ein cwsmeriaid** 39

**Ein dyfodol** 48

**Cyfrifon 2007/8** 51

**Atodiadau**
1 Crynodeb o'r gwaith a dderbyniwyd 2006/7 a 2007/8 88
2 Datganiad o safonau gwasanaeth 89
3 Dangosyddion perfformiad allweddol a thargedau ar gyfer 2008/9 93
4 Dangosyddion perfformiad allweddol a thargedau perfformiad busnes ehangach wedi'u hesbonio 94
5 Datganiad recriwtio 99
6 Manylion cyswllt ar gyfer swyddfeydd y Gofrestrfa Tir 101
7 Rhestr termau 103
8 Strwythur llywodraethu corfforaethol y Gofrestrfa Tir 2007/8 106

# Pigion 2007/8

## Sêl bendith brenhinol

Symudodd staff Swyddfa Croydon i'w swyddfa newydd yn Trafalgar House ym mis Gorffennaf ac fe agorwyd yr adeilad yn swyddogol gan Ei Huchelder Brenhinol y Dywysoges Frenhinol ym mis Ionawr. Mae Trafalgar House wedi'i gynllunio i fod yn eithriadol o ecogyfeillgar, gan ennill gradd 'rhagorol' o dan Dull Asesu Amgylcheddol Sefydliad Ymchwil Prydain. "Mae'n bleser gweld y Gofrestrfa Tir yn cadw i fyny ag anghenion y dyfodol," dywedodd Ei Huchelder Brenhinol.

Y Dywysoges Frenhinol yn sgwrsio â'r uwch reolwyr Andy Howarth ac Alasdair Lewis



## Graddio gydag anrhydedd

Anrhydeddwyd cannoedd o fyfyrwyr oedd wedi cwblhau'r Cymwysterau Cofrestru Tir mewn dwy seremoni a gynhaliwyd yng Nghymdeithas y Gyfraith, Llundain. Daeth yr ymgeiswyr o swyddfeydd y Gofrestrfa Tir a chwmnïau'r gyfraith, banciau, cymdeithasau adeiladu a swyddfeydd awdurdod lleol ar draws Cymru a Lloegr.

Myfyrwyr Diploma yn dathlu eu llwyddiant gyda'r bargyfreithiwr Charles Harpum a'r Prif Gofrestrydd Tir Peter Collis



## Yng nghefn gwlad

Bob blwyddyn bydd aelodau staff yn cerdded, yn rhedeg neu'n beicio rhan o lwybr pellter hir yng nghefn gwlad Cymru a Lloegr. Mae Ras Gyfnewid y Gofrestrfa Tir yn gweld cydweithwyr o swyddfeydd amrywiol y sefydliad yn dod at ei gilydd i godi arian i elusennau. Eleni fe'i cynhaliwyd ar hyd y Cotswold Way yn Swydd Gaerloyw.



## Ceffylau blaen

Mae fforymau arweinyddiaeth rheolaidd yn rhoi cyfle i staff ar y Rhaglen Datblygu Arweinwyr y Dyfodol drafod materion polisi gydag uwch reolwyr. Thema mis Hydref oedd effaith mentrau'r llywodraeth ganol ar y Gofrestrfa Tir.



## Ffocws ar gydraddoldeb

Cryfhawyd ymrwymiad y Gofrestrfa Tir at amrywiaeth drwy greu Grŵp Ffocws Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig i'r staff. Mae'n ymuno â'r Grŵp Ffocws ar gyfer Pobl Lesbaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol sydd wedi helpu'r Gofrestrfa Tir i ddringo i safle 51 ym Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall.

## Cadw'n ddiogel

Mae diogelwch yn nifer o swyddfeydd y Gofrestrfa Tir "yn cyfateb ag arferion gorau byd-eang" yn ôl aseswr allanol oedd wedi achredu'r sefydliad gyda'r safon diogelwch gwybodaeth newydd IS027001. Mae'r dyfarniad yn cydnabod bod y Gofrestrfa Tir yn ymwybodol o'r amgylchedd diogelwch sy'n newid yn gyson ac yn diogelu ei gwybodaeth a'i systemau.

## Dathliadau staff

Dathlwyd dau ben-blwydd mawr yn ystod y flwyddyn. Roedd Systemau Gwybodaeth yn Plymouth wedi dathlu ei ben-blwydd yn 40 oed, gan olrhain ei hanes yn ôl i'r hysbyseb gyntaf am staff prosesu data awtomatig yn 1967. Mae swyddfeydd Lytham a Swydd Gaerhirfryn wedi bodoli am gyfnod hwy, gan ddathlu 50 mlynedd ers i'r saith recriwt cyntaf ddod at ei gilydd yn Lytham St.Anne's.

Y Prif Gofrestrydd Tir Peter Collis yn paratoi i 'roi cynnig' ar greu hen gynllun teitl papur yn nathliad pen-blwydd Swyddfa Swydd Gaerhirfryn



## Carreg filltir ym myd cofrestru

Cyrhaeddwyd carreg filltir yn ymgyrch cofrestru gwirfoddol y Gofrestrfa Tir yn gynnar yn y flwyddyn pan oedd ceisiadau newydd yn golygu bod 64 y cant o Gymru a Lloegr bellach wedi'i gofrestru. Roedd Ystad Longleat a rhannau o Eryri a Salisbury Plain ymhlith y cofrestriadau a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn.

Tŷ Longleat



## Amser arbrofol

Roedd trawsgludwyr, gwerthwyr tai, prynwyr a gwerthwyr tai yn Portsmouth, Eastleigh a Bryste wedi cymryd rhan mewn treialu prototeip o Gadwyn Matrics e-drawsgludo'r Gofrestrfa Tir. Bydd y gwersi a ddysgwyd yn llywio sut y bydd y sefydliad yn datblygu e-drawsgludo yn 2008 a 2009.

## Yn y lle iawn

Mae'r rhaglen Gwella Cywirdeb Lleoliadol yn golygu bod data'r Gofrestrfa Tir yn cyfateb â mapiau gwledig newydd a gwell yr Arolwg Ordnans. Trafodwyd cyfanswm o 7.25 miliwn o fynegeion, sy'n cynrychioli ardal o 160,000 km$^2$ mewn prosiect a gwblhawyd mwy na chwe mis cyn pryd.

## Busnes fel arfer

Roedd cynllunio brys wedi profi ei werth pan oedd rhaid i Swyddfa Caerloyw gau yn dilyn llifogydd mis Gorffennaf. Heb unrhyw drydan na chyflenwad dŵr, roedd tîm bach wedi parhau i weithio yn yr adeilad tra bo swyddfeydd eraill yn ysgwyddo baich gwaith Caerloyw. Roedd blaengynllunio a gwaith tîm gwych wedi sicrhau na chafodd gwasanaeth cwsmeriaid ei effeithio.

## Newidiadau pwysig

Roedd y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol hir ei gwasanaeth, Linda Daniels (yn y llun) wedi ymddeol o'r Gofrestrfa Tir ar ôl gweithio i'r sefydliad am 41 o flynyddoedd. Cafodd Linda ei holynu gan Malcolm Dawson, a oedd yn Gyfarwyddwr Tâl a Graddio cyn hynny yn y Weinidogaeth Cyfiawnder. Ymunodd Annette Davies-Govett â Bwrdd y Gofrestrfa Tir ar ddiwedd y flwyddyn yn y swydd newydd Cyfarwyddwr Masnachol.



## Cronfeydd i'r dyfodol

Mae'r incwm gros o werthiannau gwasanaeth cynnyrch gwerth ychwanegol wedi cynyddu o £1.8 miliwn yn y 12 mis i Fawrth 2007 i £3.2 miliwn yn yr un cyfnod i Fawrth 2008. Gall y cronfeydd hyn gael eu hailfuddsoddi mewn buddsoddiadau'r dyfodol neu wella ansawdd ar draws pob un o'n gwasanaethau.

## Chwaraeon i bawb

Diwrnod chwaraeon yw'r ail o ddau brif ddigwyddiad chwaraeon a chymdeithasol y Gofrestrfa Tir yn ystod y flwyddyn. Swyddfa Portsmouth oedd wedi croesawu digwyddiad 2007 yn HMS Temeraire ar lannau'r ddinas, gyda pharti ym Mhrifysgol Portsmouth i gloi gweithgareddau'r diwrnod.



# Rhagair

**Gan y Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr**
Prif stori newyddion misoedd olaf 2007/8 heb os oedd y dyfalu mawr ynghylch a fyddai prisiau eiddo yn gostwng. Roedd Mynegai Prisiau Tai misol y Gofrestrfa Tir wedi cael llawer o sylw yn y cyfryngau fel y canllaw mwyaf awdurdodol ar y tuedd mewn prisiau a nifer y trafodion.

Mae unrhyw awgrym o gwymp yn y farchnad eiddo o bryder i'r Gofrestrfa Tir. Os yw llai o gartrefi yn cael eu prynu a'u gwerthu, mae'n anochel y bydd llai o waith i'n timau cofrestru ei wneud. Wrth gwrs, mae cynlluniau gennym ar gyfer y fath sefyllfa ac mae'r rhain yn cael eu gweithredu fel a phryd y bo angen. Ar yr un pryd mae'r sefyllfa yn rhoi cyfle i ni dynnu sylw at ba mor eang y mae gwasanaethau'r Gofrestrfa Tir wedi ymestyn y tu hwnt i gofrestru syml.

Does dim enghraifft well o hyn na'r amrywiaeth o ddeunyddiau ar-lein ac argraffedig a gynhyrchwn ar gyfer cwsmeriaid. Mae taflenni a ffolderi gennym sy'n hybu ein hymgyrch cofrestru gwirfoddol, ein gwasanaethau masnachol a'n rhaglenni addysg a hyfforddiant. Cyhoeddwn fwletinau rheolaidd ar gynnydd e-drawsgludo a newidiadau i'n polisi a'n harferion. Yn 2007/8 cynhaliwyd cyfres o ymgynghoriadau canolog ar amrywiaeth o bynciau allweddol a chrëwyd porth newydd i'n tri phrif wefan.

Mae hyn i gyd yn dangos sut mae ein gwaith yn ehangu y tu hwnt i'n busnes craidd a faint rydym yn gwerthfawrogi ac yn dibynnu ar ein rhyngweithio â'n cwsmeriaid proffesiynol a'r cyhoedd. Rydym yn cysylltu â'n cwsmeriaid trwy wahanol gyfryngau a dyn ni byth yn hunanfodlon ynghylch pa mor dda rydym yn cyfathrebu â nhw. Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi treialu dulliau newydd o fesur bodlonrwydd cwsmeriaid, megis pôl piniwn dros y ffôn, ac wedi comisiynu ymchwil ar effeithiolrwydd ein cylchgrawn Landnet. Mae canlyniadau ein harolwg bodlonrwydd cwsmeriaid ar ei newydd wedd yn dangos ymateb cadarnhaol iawn i'r Gofrestrfa Tir gyda 97.2 y cant yn barnu bod ein gwasanaeth cyffredinol yn ardderchog, da iawn neu dda yn erbyn ein targed dangosydd perfformiad allweddol o fod yn well na 95 y cant.

Does dim dwywaith bod ein cwsmeriaid yn awyddus i gael gwybod am y cynnydd rydym yn ei wneud o ran darparu gwasanaethau ar-lein. Yn 2007/8 gwnaethpwyd cynnydd sylweddol trwy weithredu system ar gyfer atodi llofnodion electronig i ddogfennau, a fydd yn cynnig modd cyflwyno ceisiadau gyda gweithredoedd wedi'u hatodi drwy ddull electronig.

Hefyd, mae prototeip o'r gwasanaeth Cadwyn Matrics wedi cael ei dreialu, a fyddai'n cynnig modd i bawb sy'n rhan o gadwyn prynu tŷ fonitro ei gynnydd ar-lein. Fe ddysgom ni wersi pwysig drwy dreialu ac mae angen gwneud gwaith ymchwil pellach i benderfynu ar y ffordd orau i ddatblygu Cadwyn Matrics tra rydym yn canolbwyntio ar wneud ein gwasanaethau cofrestru presennol yn electronig.

Mae trawsgludo electronig yn her ac yn gyfle i'n cwsmeriaid ac i ni. Wrth i ni ehangu ein gwasanaethau electronig, bydd y gwaith a wnawn

yn ein swyddfeydd lleol yn datblygu ac yn ehangu.  Ond ni fydd unrhyw beth yn cymryd lle'r arbenigedd sydd gan ein staff ymroddedig a ffyddlon.

Roedd eu sgiliau a'u hymroddiad i'w gweld yn amlwg pan fu rhaid i Swyddfa Caerloyw gau am bron i bythefnos oherwydd llifogydd mis Gorffennaf.  Dyma'r tro cyntaf yn ein hanes i ni orfod cau swyddfa ar gyfer busnes arferol am gyfnod mor hir.  Roedd ein staff wedi wynebu'r her yn wych, gan ailgyfeirio a chwblhau gwaith mewn swyddfeydd eraill er mwyn lleihau'r effaith ar gwsmeriaid.

Gwelwyd tystiolaeth bellach o lwyddiant parhaus ein hymgyrch cofrestru gwirfoddol.  Drwy annog tirfeddianwyr i gofrestru cyn eu bod yn cychwyn ar drafodion, rydym wedi cynyddu cwmpas y Gofrestr Tir o 48 y cant o Gymru a Lloegr dair blynedd yn ôl i 64 y cant heddiw.

Aeth trelar y Gofrestrfa Tir oedd wedi'i gynllunio'n arbennig ar y ffordd am y tro cyntaf y flwyddyn ddiwethaf, gan ymweld â sioeau a digwyddiadau gwledig i gyfleu'r neges cofrestru.  Unwaith eto mae'n dangos ein bod bob amser yn chwilio am ffyrdd newydd o gyfathrebu â'n gwsmeriaid.

Mae hyn i gyd yn dangos bod pobl y Gofrestrfa Tir yn llawer mwy na chofrestryddion tir.  Maent yn dîm hyblyg a modern gyda sgiliau cyfunol ym maes gwerthu, marchnata, cyfathrebu, hyfforddi, atal twyll, caffael a llawer mwy.  Drwyddynt rwy'n ffyddiog y bydd y Gofrestrfa Tir yn ymdopi ag unrhyw sefyllfa, boed y nifer mwyaf o waith a dderbyniwyd yn ystod chwe mis cyntaf y flwyddyn neu'r rhagolygon ar gyfer arafu yn nifer y trafodion wrth i'r flwyddyn ddod i ben.

Beth bynnag fo'r her, byddwn yn parhau i wireddu ein hymrwymiad i wneud trafodion eiddo yn haws i bawb.

**Peter Collis CB HonRICS CCMI**
Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr
Mehefin 2008

# Cyfarwyddwyr



**Peter Collis CB HonRICS CCMI**
Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr



**Ted Beardsall CBE**
Dirprwy Brif Weithredwr



**Joe Timothy**
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Dirprwy Brif Gofrestrydd Tir



**Andy Howarth**
Cyfarwyddwr Gweithrediadau



**Heather Foster**
Cyfarwyddwr Cyllid



**John Wright**
Cyfarwyddwr Systemau Gwybodaeth




**Mike Cutt**
Cyfarwyddwr Anweithredol



**Malcolm Dawson**
Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol



**Annette Davies-Govett**
Cyfarwyddwr Masnachol



**David Rigney**
Cyfarwyddwr Anweithredol

# Ein busnes

Cenhadaeth y Gofrestrfa Tir yw darparu'r gwasanaeth gorau yn y byd ar gyfer gwarantu perchnogaeth tir a hwyluso trafodion eiddo.

Wrth geisio cyflawni'r genhadaeth hon, prif amcanion y Gofrestrfa Tir yw:

- cynnal a datblygu system cofrestru tir sefydlog ac effeithiol yng Nghymru a Lloegr fel y conglfaen ar gyfer creu buddion mewn tir a symudiad rhydd y buddion hynny
- ar ran y Goron, gwarantu teitl i ystadau cofrestredig a buddion mewn tir yng Nghymru a Lloegr
- darparu mynediad rhwydd i'r wybodaeth ddiweddaraf a gwarantedig am dir, gan alluogi deliadau hyderus mewn eiddo a gwarant teitl
- darparu gwasanaeth Pridiannau Tir a Chredydau Amaethyddol.

Ein busnes craidd yw cofrestru teitlau i dir yng Nghymru a Lloegr a chofnodi deliadau (er enghraifft, gwerthiannau a morgeisi) gyda thir cofrestredig.

Gan adeiladu ar fwy na 140 o flynyddoedd o brofiad, mae'r Gofrestrfa Tir wedi datblygu systemau TG o'r radd flaenaf a thrwyddynt mae ein holl waith cofrestru yn cael ei brosesu. Gwasanaethwn boblogaeth o 54 miliwn a hwyluswn un o'r marchnadoedd eiddo a morgais mwyaf gweithredol yn y byd. Mae ein cofrestr gyfrifiadurol, sydd wedi'i gwarantu ac y gall unrhyw un ei chyrchu ar-lein, yn ymdrin â thua 4.5 miliwn o drafodion ac 11 miliwn o ymholiadau bob blwyddyn; ein cofrestr yw'r gronfa ddata trafodion ar-lein mwyaf yn y byd ac mae diogelwch y data hwnnw yn bodloni safonau IS027001 yn llawn.

Mae'r Gofrestr Tir, sy'n cynnwys mwy na 21.6 miliwn o deitlau, wedi bod ar gael i'r cyhoedd ei gweld ers Rhagfyr 1990

# Ein cenhadaeth, gweledigaeth ac amcanion strategol

## Ein cenhadaeth
Darparu'r gwasanaeth gorau yn y byd ar gyfer gwarantu perchnogaeth tir a hwyluso trafodion eiddo.

## Ein gweledigaeth
Gwneud trafodion eiddo yn haws i bawb.

## Ein hamcanion strategol
Mae ein strategaeth yn ceisio datblygu neu wella gwasanaethau sy'n bod yn ogystal â chyflwyno gwasanaethau newydd, gyda'r nod cyffredinol o wneud trafodion eiddo yn haws i bawb.

Rydym wedi nodi pedwar maes allweddol i'w datblygu: gwasanaeth cwsmeriaid, cofrestru tir, darparu gwasanaeth electronig a busnes arall. Er mwyn sicrhau ein bod yn cynnig gwelliannau o fewn pob un o'r meysydd hyn, rydym ni a'r gweinidogion wedi cytuno ar nifer o amcanion strategol tymor hir, sy'n cael eu cadarnhau bob blwyddyn.

**Gwasanaeth cwsmeriaid**

1 Parhau i wneud gwelliannau i ddarparu gwasanaethau i bob rhanddeiliad.

**Cofrestru tir**

2 Cyflwyno deddfwriaeth eilaidd amserol ac effeithiol ar gyfer cofrestru tir.

3 Creu Cofrestr Tir gynhwysfawr ar gyfer Cymru a Lloegr.

**Darparu gwasanaeth electronig**

4 Cyflwyno system trawsgludo electronig ar gyfer cyflawni'r rhan fwyaf o drafodion eiddo.

**Busnes arall**

5 Datblygu amrywiaeth ehangach o wasanaethau i weithwyr proffesiynol eiddo, y cyhoedd ac eraill.

Bob blwyddyn, byddwn yn cyflawni amcanion 1 a 2 drwy wella ein gwasanaethau yn barhaus a sicrhau bod ein deddfwriaeth yn gyfoes ac yn bodloni anghenion ein rhanddeiliaid.  Ein bwriad yw cyflawni amcan strategol 3 o fewn y degawd nesaf drwy ymroi bob blwyddyn i gofrestru targed heriol o hectarau ychwanegol o dir am y tro cyntaf.  Cyflawnir amcanion strategol 4 a 5 yn raddol drwy gyflwyno gwasanaethau a systemau cyflwyno gwasanaeth newydd flwyddyn ar ôl blwyddyn.

Er mwyn sicrhau ein bod yn llwyddo bob blwyddyn yn erbyn yr amcanion hyn, mae targed perfformiad allweddol yn cael ei osod i'r Gofrestrfa Tir ar gyfer pob un o'n meysydd datblygu.  Mae'r targedau ar gyfer 2007/8 a'n perfformiad yn eu herbyn i'w gweld yn y tabl ar dudalen 16 o dan yr adran *Meysydd datblygu strategol*.

# Ein dangosyddion perfformiad allweddol

Yn ogystal â gosod y targedau perfformiad allweddol ar gyfer ein meysydd datblygu, bob blwyddyn bydd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder a'r Arglwydd Ganghellor yn gosod targedau i'r Gofrestrfa Tir ar gyfer ein dangosyddion perfformiad allweddol (DPA) er mwyn sicrhau bod ein cwsmeriaid yn parhau i gael gwasanaeth cofrestru tir rhagorol.

Mae cynnydd tuag at gyflawni'r DPA hyn yn cael ei fonitro drwy'r flwyddyn gan system rheoli gwybodaeth gadarn, a chyhoeddir gwybodaeth am berfformiad mewn gwahanol fformatau yn rheolaidd.

Mae ein perfformiad yn erbyn y targedau DPA a'r mesurau perfformiad busnes ehangach ar gyfer 2007/8 i'w gweld yn y tabl canlynol.  Fe welwch ein targedau DPA ar gyfer 2008/2009 yn Atodiad 3. Mae'r DPA a ddangosir ar y dudalen gyferbyn yn cael eu hesbonio yn Atodiad 4.

# Ein perfformiad yn erbyn ein targedau dangosydd perfformiad allweddol 2007/8

| | Targed 2007/8 | Cyflawnwyd 2007/8 |
|---|---|---|
| **Gwasanaeth cwsmeriaid** | | |
| ***Cyflymder*** | | |
| Canran y ceisiadau copi swyddogol a chwiliad swyddogol a broseswyd cyn pen dau ddiwrnod gwaith | 98 | 98 |
| Canran yr holl gofrestriadau a broseswyd cyn pen 18 diwrnod gwaith | 80 | 88.1 |
| ***Cywirdeb*** | | |
| Canran y cofrestriadau a broseswyd heb unrhyw gamgymeriadau | 98.5 | 98.9 |
| ***Bodlonrwydd cyffredinol***[1] | | |
| Canran y cwsmeriaid sy'n graddio'r gwasanaeth cyffredinol a gafwyd gan y Gofrestrfa Tir yn ardderchog, da iawn neu dda | Yn well na 95 | 97.2 |
| **Ariannol** | | |
| Canran enillion ar gyfalaf cyfartalog a ddefnyddiwyd | 3.5 | 16.3 |
| **Effeithlonrwydd** | | |
| Cost yr uned mewn termau arian parod[2] *(termau real[3])* | £30.21 *(£20.61)* | £24.11 *(£16.45)* |
| **Meysydd datblygu strategol** | | |
| ***Gwasanaeth cwsmeriaid*** | | |
| Darparu ateb isadeiledd e-ddiogelwch cynaliadwy a graddiadwy sy'n darparu mynediad seiliedig ar rôl, swyddogaeth rheoli hunaniaeth ac e-lofnod yn y dyfodol, ar gyfer sylfaen cwsmeriaid allanol a busnes y Gofrestrfa Tir | | Cyflawnwyd |
| ***Cofrestru tir*** | | |
| Ychwanegu 550,000 hectar arall o dir i gyfanswm arwynebedd tir rhydd-ddaliad cofrestredig yng Nghymru a Lloegr | | Cyflawnwyd 701,245 ar ddiwedd y flwyddyn |
| ***Darparu gwasanaeth electronig*** | | |
| Cwblhau adolygiad o'r ymatebion i'r papur ymgynghori ar y Rheolau Cofrestru Tir (Mynediad Rhwydwaith) a'r Gorchymyn Cofrestru Tir (Cyfathrebu Electronig) ac adrodd i weinidogion | | Cyflawnwyd |
| ***Datblygiad busnes arall*** | | |
| Symud gwefan gorfforedig y Gofrestrfa Tir i'r porthol newydd a sefydlu'r porthol ar gyfer defnyddio un neu ragor o'r segmentau cwsmeriaid canlynol: dinasyddion, trawsgludwyr, rhoddwyr benthyg, gwerthwyr tai | | Cyflawnwyd |

[1] Mae ffigur 2007/8 yn deillio o gyfartaledd y data a gasglwyd o ddau arolwg bodlonrwydd cwsmeriaid seiliedig ar gyfweliad ffôn yn ystod y flwyddyn.
[2] Yn seiliedig ar y datchwyddwr Cynnyrch Domestig Gros (CDG) a gyhoeddwyd gan y Trysorlys ar 28 Mawrth 2008 (blwyddyn sylfaen 1992/3).
[3] Cost yr uned mewn termau real yn y flwyddyn sylfaen 1992/3 oedd £30.65.
[4] Yn seiliedig ar stentiau teitl (gweler hefyd nodyn 4 ar dudalen 17).

# Ein perfformiad busnes ehangach ar gyfer 2007/8

| | Cyflawnwyd 2006/7 | Cyflawnwyd 2007/8 |
|---|---|---|
| **Gwasanaeth cwsmeriaid** | | |
| ***Cyflymder*** | | |
| Canran y cwsmeriaid sy'n graddio cyflymder gwasanaeth ceisiadau copi swyddogol a chwiliad swyddogol yn ardderchog, da iawn neu dda[1] | 99.2[2] | 99.0 |
| Canran y cwsmeriaid sy'n graddio cyflymder gwasanaeth cofrestriadau yn ardderchog, da iawn neu dda[1] | 98.3[2] | 91.6 |
| Nifer y diwrnodau a gymerwyd i brosesu fel ar 31 Mawrth: | | |
| cofrestriadau cyntaf | 13 | 12 |
| prydlesi gwaredol | 20 | 12 |
| trosglwyddiadau o ran | 19 | 12 |
| deliadau â'r cyfan | 6 | 5 |
| copïau swyddogol | 3 | 2 |
| chwiliadau swyddogol | 1 | 1 |
| Canran yr ohebiaeth gyffredinol (llythyrau, ffacsys ac e-byst) sy'n cael ymateb cyn pen pum niwrnod gwaith | 97 | 96 |
| ***Cywirdeb***[1] | | |
| Canran y cwsmeriaid sy'n graddio cywirdeb ac ansawdd cofrestriadau yn ardderchog, da iawn neu dda | 98.2[2] | 94.2 |
| ***Bodlonrwydd cyffredinol***[1] | | |
| Canran y cwsmeriaid sy'n graddio gwasanaeth cyffredinol y Gofrestrfa Tir yn ardderchog neu dda iawn | 49.8[3] | 84.4<br>39.7 ardderchog<br>44.7 da iawn |
| **Pobl** | | |
| Nifer cyfartalog o ddiwrnodau hyfforddi y pen | 6 | 8.59 |
| **Strategol** | | |
| Nifer y teitlau cofrestredig (miliynau) | 21.079 | 21.626 |
| Canran arwynebedd tir rhydd-ddaliad a gofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr[4] | 59.46 | 63.99 |
| Nifer y cofrestriadau: | | |
| cofrestriadau cyntaf | 304,391 | 246,742 |
| rhyddhadau | 2,605,620 | 2,541,679 |
| morgeisi | 2,723,530 | 2,592,905 |
| trosglwyddiadau am werth | 1,480,819 | 1,401,520 |
| prydlesi | 197,546 | 228,988 |

1 Mae ffigur 2007/8 yn deillio o gyfartaledd y data a gasglwyd o ddau arolwg bodlonrwydd cwsmeriaid seiliedig ar gyfweliad ffôn yn ystod y flwyddyn.
2 Mae ffigurau 2006/7 yn deillio o fethodoleg arolwg bodlonrwydd cwsmeriaid gwahanol sy'n pennu canran y cwsmeriaid oedd yn fodlon iawn neu fodlon.
3 Mae ffigur 2006/7 yn deillio o fethodoleg arolwg bodlonrwydd cwsmeriaid gwahanol sy'n pennu canran y cwsmeriaid oedd yn fodlon iawn neu fodlon â'r amrywiaeth lawn o wasanaethau a ddarparwyd gan y Gofrestrfa Tir.
4 Yn seiliedig ar fynegeion (gweler hefyd nodyn 4 ar dudalen 16)

**Gwaith a dderbyniwyd ac a gwblhawyd**
Yn gyffredinol, cynyddodd y gwaith a dderbyniwyd gan 5 y cant o'i gymharu â'r gwaith a dderbyniwyd yn 2006/7.


Derbyniwyd 36,285,336 o geisiadau yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn cyfateb i dderbyn 16.110 miliwn o unedau ar gyfer 2007/8, o'i gymharu â'r hyn a ragwelwyd yn y gyllideb sef 13.805 miliwn.

Mae nifer y ceisiadau am wasanaethau rhagarweiniol a dderbyniwyd, sef 14,718,097, wedi cynyddu gan 0.4 y cant o'i gymharu â cheisiadau'r flwyddyn flaenorol sef 14,660,341.


Cwblhawyd 36,322,484 o geisiadau yn ystod y flwyddyn, sy'n 5.4 y cant yn fwy na'r hyn a gyflawnwyd yn 2006/7.

Mae manylion llawn ein llwyth gwaith yn ystod y flwyddyn i'w gweld yn Atodiad 1.

## Gwaith a dderbyniwyd bob dydd yn 1997/8 a 2007/8




## Ceisiadau a dderbyniwyd (mewn unedau)



**Bodlonrwydd cwsmeriaid cyffredinol**

Ym mis Ebrill 2007, adolygodd y Gofrestrfa Tir sut yr oeddwn yn cynnal ein harolwg bodlonrwydd cwsmeriaid. Yn dilyn yr adolygiad, cymeradwyodd y Bwrdd Cofrestru Tir y syniad o dreialu methodoleg newydd yn seiliedig ar gyfweliadau ffôn bob chwe mis. Er bod y bwrdd wedi cydnabod y byddai rhai anfanteision, megis colli data tuedd a cholli data ar swyddfeydd unigol, teimlid y byddai'r rhain yn llai arwyddocaol yn y tymor hir a byddai'r manteision yn fwy na'r anfanteision.

Byddai'r dull newydd yn:
— rhoi gwell ddealltwriaeth o'r ffactorau sy'n effeithio ar brofiad a bodlonrwydd cwsmeriaid
— darparu gwell ddealltwriaeth o brif sbardunau bodlonrwydd a'r meysydd allweddol sy'n bwysig i gwsmeriaid
— adnabod yn well meysydd allweddol i'w gwella.

Yn dilyn llwyddiant y treialu roedd Archwiliad Mewnol wedi cymeradwyo'r fethodoleg newydd fel mesur addas o berfformiad. Cytunodd y bwrdd y dylai'r canlyniadau gael eu defnyddio fel y mesur swyddogol ar gyfer ein targed DPA bodlonrwydd cwsmeriaid 2007/8 a byddai'r fethodoleg newydd yn cael ei mabwysiadu ar gyfer y blynyddoedd dilynol.

Mae canlyniadau ein methodoleg arolwg bodlonrwydd cwsmeriaid newydd yn dangos ymateb cadarnhaol iawn ar gyfer y Gofrestrfa Tir gyda 97.2 y cant yn graddio ein gwasanaeth cyffredinol yn ardderchog, da iawn neu dda yn erbyn ein targed DPA sef yn well na 95 y cant. Mae hyn yr un fath â'r radd bodlonrwydd a welwyd yn 2006 ar gyfer bodlon iawn a/neu fodlon. Hefyd roedd 91.4 y cant wedi graddio'r Gofrestrfa Tir ar werth am arian cyffredinol yn ardderchog, da iawn neu dda, ac roedd 81.5 y cant wedi cytuno'n gryf â'r datganiad bod y Gofrestrfa Tir yn wasanaeth cyhoeddus proffesiynol, effeithlon a chwrtais.

Yn ogystal, dangosodd ein harolwg bod staff y Gofrestrfa Tir wedi derbyn graddau uwch na'r cyfartaledd (ardderchog neu dda iawn) ar draws pob gwasanaeth o ran darparu gwybodaeth ac arweiniad, yn enwedig ar gyfer cymwynasgarwch a chwrteisi (77.6 y cant) ac ar gyfer gwybodaeth a chymhwysedd (68.8 y cant).


**Effeithlonrwydd**

Roeddem wedi cyrraedd ein targed cost yr uned arian parod, a'r ffigur ar ddiwedd y flwyddyn oedd £24.11 yn erbyn targed o £30.21.


Yr incwm ffioedd ar gyfer y flwyddyn ariannol oedd £482.9 miliwn yn erbyn ffigur o £474.5 miliwn yn 2006/7. Y cyfanswm gwariant oedd £400.1 miliwn yn erbyn £382.1 miliwn ar gyfer 2006/7.

Roeddem wedi cyrraedd ein targed ar gyfer Enillion ar Gyfalaf Cyfartalog a Ddefnyddiwyd, sef 3.5 y cant gydag alldro o 16.3 y cant. Mae difidend o £19.71 miliwn am y flwyddyn ariannol yn daladwy i'r Gronfa Gyfunol (£16.55 miliwn yn 2006/7).


## Cost yr Uned




## Difidend i'r Gronfa Gyfunol




## Enillion ar gyfalaf cyfartalog a ddefnyddiwyd




**Cywirdeb**
Cyflawnwyd ein DPA ar gyfer cywirdeb gwaith achos. Proseswyd 98.9 y cant o'r holl achosion heb unrhyw gamgymeriadau yn erbyn y targed o 98.5 y cant.

Roedd canlyniadau ein harolwg bodlonrwydd cwsmeriaid newydd yn dangos bod 94.2 y cant o gwsmeriaid yn graddio cywirdeb ac ansawdd gwaith achos yn 2007/8 yn ardderchog, da iawn neu dda o'i gymharu â 98.2 y cant o gwsmeriaid oedd yn fodlon iawn neu fodlon â chywirdeb cofrestriadau yn ystod y flwyddyn flaenorol.

Canran y cwsmeriaid oedd wedi graddio cywirdeb ac ansawdd cofrestriadau wedi'u cwblhau yn ardderchog (26 y cant) neu'n dda iawn (39.4 y cant) oedd 65.4 y cant. Y flwyddyn ddiwethaf, roedd 45.3 y cant o gwsmeriaid yn fodlon iawn â chywirdeb cofrestriadau wedi'u cwblhau.

Cywirdeb




**Cyflymder**
Hefyd cyflawnwyd ein DPA o brosesu 80 y cant o'r holl gofrestriadau cyn pen 18 diwrnod gwaith, gydag 88.1 y cant wedi'u cwblhau o fewn y targed ac 84.4 y cant wedi'u cwblhau cyn pen 15 diwrnod. Yn ystod 2006/7 (pan dderbyniwyd llai o waith), y canlyniadau oedd 88.6 y cant cyn pen 18 diwrnod ac 85.3 y cant cyn pen 15 diwrnod.

Rydym yn ceisio prosesu deliadau â'r cyfan (lle nad oes angen diwygio'r cynllun teitl) ar sail 'yr un diwrnod'. Y flwyddyn hon, yn ddyddiol, cwblhawyd mwy na 61 y cant o geisiadau o'r fath ar y diwrnod y cawsant eu derbyn (o'i gymharu â ffigur y flwyddyn ddiwethaf o 60 y cant). Fel arfer roedd y rhai na fu modd i ni eu cwblhau yn aros am gadarnhad gan roddwyr benthyg bod morgais wedi cael ei ryddhau.

Dangosodd ganlyniadau ein harolwg bodlonrwydd cwsmeriaid newydd fod 91.6 y cant o gwsmeriaid yn graddio ein cyflymder gwasanaeth ar waith achos safonol ar gyfer 2007/8 yn ardderchog, da iawn neu dda, ac roedd 99 y cant yn graddio cyflymder gwasanaethau rhagarweiniol yn ardderchog, da iawn neu dda.

**Safonau gwasanaeth**
Cyhoeddir ein targedau safonau gwasanaeth, a'n llwyddiant yn erbyn y safonau bob blwyddyn yn ein hadroddiad blynyddol a chyfrifon yn ogystal â chael eu harddangos yn ein canolfannau gwybodaeth cwsmeriaid yng Nghymru a Lloegr.

Rhoddir gwybodaeth reolaidd i bwyllgorau ymgynghorol ymarferyddion hefyd. Mae gwybodaeth am ein perfformiad yn erbyn y targedau hyn yn cael ei chyhoeddi ar ein gwefan www.cofrestrfatir.gov.uk ac yn ein cylchgrawn cwsmeriaid *Landnet*.

Mae ein cynllun busnes blynyddol yn cynnwys manylion llawn am ein targedau dangosydd perfformiad allweddol ac fe'u cyhoeddir ar ein gwefan.

Mae datganiad safonau gwasanaeth y Gofrestrfa Tir i'w weld yn Atodiad 2.

**Pridiannau Tir a Chredydau Amaethyddol**
Mae'r Adran Pridiannau Tir yn gweithredu o dan awdurdod Deddf Pridiannau Tir 1972. Mae'r adran yn cadw cofrestri o Bridiannau Tir, gweithrediadau sy'n aros, gwritiau a gorchmynion sy'n effeithio ar dir a llyffetheiriau eraill sydd wedi'u cofrestru yn erbyn enwau perchnogion eiddo sydd heb eu cofrestru o dan y Deddfau Cofrestru Tir.

Mae'r Adran Credydau Amaethyddol yn gyfrifol am gadw cofrestr o fenthyciadau tymor byr gan fanciau o dan Ran II o Ddeddf Credydau Amaethyddol 1928. Gwarentir y pridiannau hyn ar stoc ffermio ac asedau amaethyddol eraill y ffermwr.

Cyfanswm cyfunedig y ceisiadau a gafodd eu trin gan yr Adrannau Pridiannau Tir a Chredydau Amaethyddol y flwyddyn hon oedd 4,841,043, sy'n cynrychioli gostyngiad o 7.3 y cant o'i gymharu â'r cyfansymiau ar gyfer 2006/7.

Cyfanswm y chwiliadau a broseswyd oedd 4,562,579, sy'n ostyngiad o 7.3 y cant.

Cynyddodd gyfran y ceisiadau am chwiliad swyddogol a chopi swyddogol a dderbyniwyd dros y ffôn, mynediad uniongyrchol a'r ffacs i 87 y cant o gyfanswm y ceisiadau a dderbyniwyd y flwyddyn hon, o'i gymharu ag 83 y cant yn 2006/7, gydag 89 y cant o geisiadau am gopi swyddogol yn cael eu cyflwyno fel hyn. Erbyn hyn mae saith deg pedwar y cant o chwiliadau Pridiannau Tir yn cael eu prosesu trwy'r Gofrestrfa Tir Uniongyrchol a'r Gwasanaeth Gwybodaeth Tir Cenedlaethol. Gostyngodd ganran y chwiliadau ffôn a gwblhawyd fel cyfran o gyfanswm y ceisiadau am chwiliadau i 13 y cant o'i gymharu ag 20 y cant y flwyddyn flaenorol.

## Yr Adran Credydau Amaethyddol

| Blwyddyn | Cofrestriadau newydd | Dileadau a chywiriadau | Chwiliadau |
|---|---|---|---|
| 2005/6 | 1,021 | 928 | 3,769 |
| 2006/7 | 1,250 | 860 | 4,356 |
| 2007/8 | 1,267 | 808 | 4,269 |

## Yr Adran Pridiannau Tir

| Math o gais | Nifer y ceisiadau neu enwau yn 2007/8 | Canran yr amrywiad o'i gymharu â 2006/7 |
|---|---|---|
| Cofrestriadau newydd, cywiriadau ac adnewyddiadau | 171,518 | -2.4 |
| Dileadau | 24,769 | -17.8 |
| Chwiliadau swyddogol: – Chwiliadau llawn | 642,559 | -9.0 |
| – Chwiliadau wedi'u cyfyngu i fethdaliad | 3,920,020 | -7.0 |
| Copïau swyddogol | 75,833 | -14.5 |
| **Cyfanswm** | **4,834,699** | **-7.3** |

**Datblygu'r gofrestr**
Mae creu cofrestr gynhwysfawr o'r tir yng Nghymru a Lloegr yn hollbwysig i'r Gofrestrfa Tir. Bydd yn golygu bod y diogelwch cyfreithiol gorau posibl gan bob tirfeddiannwr a bydd mynediad gan brynwyr i wybodaeth teitl dda, gan wneud prynu a gwerthu'n haws i bawb dan sylw. Yn 2007/8 ychwanegwyd 4.5 y cant pellach o dir rhydd-ddaliad yng Nghymru a Lloegr i'r gofrestr, sy'n golygu bod 64 y cant wedi'i gofrestru ar hyn o bryd.

Rhagorwyd ar ein targed ar gyfer cynyddu cyfanswm arwynebedd y tir rhydd-ddaliad cofrestredig yng Nghymru a Lloegr gyda chymorth rhai cofrestriadau nodedig. Mae Marble Arch, Horse Guards Parade ac Ysgol Harrow wedi cael eu cofrestru, a hefyd rhannau o Barc Cenedlaethol Eryri, Windsor Great Park a Salisbury Plain. Mae cofrestru Ystad Longleat hefyd wedi'i gwblhau. Yn ogystal, gweithredwyd rhaglen digwyddiadau llwyddiannus, gan ymweld â phrif sioeau amaethyddol ledled y wlad.

Ar ôl adolygu ein strwythur tîm datblygu'r gofrestr, mae gwaith yn mynd rhagddo o wyth lleoliad rhanbarthol: Durham, Caerefrog, Peterborough, Weymouth, Plymouth, Cymru, Telford a Swydd Gaerhirfryn. Dewiswyd y lleoliadau hyn nid yn unig oherwydd eu bod yn agos at ardaloedd mawr o dir anghofrestredig ond hefyd er mwyn sicrhau bod Cymru a Lloegr wedi'u cwmpasu.

Mae rheolwr datblygu'r gofrestr yn gweithio ym mhob lleoliad, gyda thîm bach.  Maen nhw'n gyfrifol am ardaloedd daearyddol penodol, a rhyngddynt maent yn gwasanaethu Cymru a Lloegr cyfan.  Mae'r rheolwyr datblygu'r gofrestr a'u timau yn gyfrifol am gynhyrchu cofrestriadau gwirfoddol er mwyn cynyddu canran y tir cofrestredig.



Tŷ Longleat



Horse Guards Parade

## Ysgogiadau cofrestriad cyntaf newydd

Er mwyn helpu i gynnal creu cofrestr tir gynhwysfawr ar gyfer Cymru a Lloegr, cyhoeddwyd papur ymgynghori a chynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus o 19 Tachwedd 2007 tan 29 Chwefror 2008. Cynigiodd y papur fod dau ddigwyddiad newydd (penodi ymddiriedolwyr tir newydd a rhannu tir ymhlith buddiolwyr ymddiriedolaeth) yn ysgogiadau sy'n gofyn am gofrestriadau cyntaf o dir a effeithir gan y digwyddiadau hyn, drwy wneud gorchymyn o dan aran 5(1) o Ddeddf Cofrestru Tir 2002. Mae'r ymatebion yn cael eu gwerthuso ar hyn o bryd.

## Adolygu rheolau

Cwblhawyd adolygiad mewnol o'r Rheolau Cofrestru Tir 2003 yn 2007/8 ynghyd ag ymgynghoriad cyhoeddus ar ddiwygiadau arfaethedig i'r Rheolau, a gychwynnodd ar 8 Hydref 2007 ac a gwblhawyd ar 14 Ionawr 2008. Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu dadansoddi a bydd yr adroddiad terfynol ar yr ymgynghoriad yn cael ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2008.

**Deddfwriaeth**

Roedd y Gofrestrfa Tir wedi gweithredu'n llwyddiannus Ddeddf Cofrestru Tir 2002 a Rheolau Cofrestru Tir 2003 ar 13 Hydref 2003. Mae'r ddeddfwriaeth newydd, sy'n disodli Deddf Cofrestru Tir 1925, yn darparu ar gyfer systemau cenedlaethol gwell ar gyfer cofrestru tir, perchnogaeth wedi'i gwarantu, trosglwyddiadau, prydlesi a morgeisi. Mae'r ddeddfwriaeth newydd hefyd yn darparu ar gyfer defnyddio e-dechnolegau, yn barod ar gyfer trawsgludo electronig.

Felly, roedd dwy set o reolau drafft ar fynediad i'r rhwydwaith e-drawsgludo ac ar drafodion electronig penodol yn destun ymgynghoriadau yn 2007 a bydd ymgynghoriadau pellach yn dilyn.

Yn ogystal, mae'r Gofrestrfa Tir yn ceisio barn trwy ymgynghoriad cyhoeddus ar gynigion i ddiwygio neu gyflwyno rheolau newydd i wella a symleiddio arferion er budd cwsmeriaid a lleihau'r baich gweinyddol sydd arnynt.

# Ein sefydliad

**Ein sefydliad**
Crëwyd y Gofrestrfa Tir fel adran ar wahân o'r llywodraeth yn 1862 ac fe'i gwnaethpwyd yn asiantaeth weithredol ar 2 Gorffennaf 1990 ac yn gronfa fasnachu ar 1 Ebrill 1993. Y Prif Gofrestrydd Tir yw Pennaeth yr Adran, Swyddog Cyfrifyddu llawn a Phrif Weithredwr yr asiantaeth weithredol. Mae'n ddeiliad swydd statudol ac yn gyfrifol am weinyddu'r holl fusnes o gofrestru tir yng Nghymru a Lloegr. Mae'n adrodd i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder a'r Arglwydd Ganghellor.

Yn ystod 2007/8, roedd y Gofrestrfa Tir wedi gweithredu trwy 24 swyddfa briodol (pob un yn delio â thir mewn ardaloedd gweinyddol arbennig) wedi'u lleoli ar hyd a lled Cymru a Lloegr, Prif Swyddfa yn Llundain, a swyddfeydd yn Plymouth sy'n gartref i'r adrannau Pridiannau Tir a Chredydau Amaethyddol a'n Cyfarwyddiaeth Systemau Gwybodaeth.

Fodd bynnag, fel rhan o gynlluniau'r Gofrestrfa Tir i resymoli ei hadeiladau swyddfa bwriadwn gau swyddfeydd Caerefrog a Harrow yn 2010, a lle mae dwy swyddfa gennym ym Mhenbedw, Durham, Lytham, Nottingham ac Abertawe, cânt eu huno maes o law a'u disodli gan un swyddfa.

Cyn pob uniad, bydd y ddwy swyddfa yn gweithredu fel un. Er mwyn sicrhau nad yw ceisiadau'n cael eu hanfon i'r ddwy swyddfa sydd i'w cau (ac a fydd yn is-swyddfeydd yn y cyfamser), ac er mwyn gwireddu uno dwy swyddfa Durham, y cyntaf i uno ar 1 Ebrill 2008, gwnaethpwyd Gorchymyn Swyddfa Briodol newydd a'i roi gerbron y Senedd ar 14 Rhagfyr 2007.

O ganlyniad i'r Gorchymyn hwn, ar ac ar ôl 1 Ebrill 2008, bydd y Gofrestrfa Tir yn gweithredu trwy 21 swyddfa a dwy is-swyddfa. Mae manylion cyswllt ar gyfer swyddfeydd y Gofrestrfa Tir i'w gweld yn Atodiad 6.

**Llywodraethu corfforaethol**
O fis Ebrill 2006 mae'r Gofrestrfa Tir wedi gweithredu gyda dau fwrdd - Bwrdd y Gofrestrfa Tir, gan gynnwys dau gyfarwyddwr anweithredol, a'r Bwrdd Gweithredol, gyda'r un aelodaeth ond heb gynnwys y cyfarwyddwyr anweithredol.

Mae Bwrdd y Gofrestrfa Tir yn cynorthwyo'r Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr yn ei gyfrifoldeb a'i atebolrwydd i sicrhau llywodraethu a pherfformiad da y Gofrestrfa Tir. Mae'n pennu gweledigaeth a chenhadaeth ar gyfer y Gofrestrfa Tir a gweithredu yn ôl y gwerthoedd sy'n llywio'r sefydliad yn y dyfodol. Mae'n pennu strategaethau'r Gofrestrfa Tir yn y dyfodol a'r strwythur sefydliadol a fydd yn cynnig modd gwireddu'r strategaethau hynny. Dyma'r fforwm lle mae strategaethau a phrif faterion polisi yn cael eu trafod a'u penderfynu.

Mae'r Bwrdd Gweithredol yn cyflwyno'r cynllun busnes blynyddol ac yn gyfrifol am reoli'r Gofrestrfa Tir o ddydd i ddydd.

Mae'r byrddau hyn yn cael eu cynorthwyo gan nifer o is-fyrddau, sydd naill ai'n arolygu agweddau penodol ar weithrediadau'r Gofrestrfa Tir neu sy'n darparu sicrwydd.

## Gwiriadau adnabod newydd

I'r rhan fwyaf o bobl, tir yw ei hased pwysicaf neu fwyaf gwerthfawr. Mae tai ym mherchnogaeth breifat yng Nghymru a Lloegr yn unig yn werth £3.6 triliwn. Felly gall eiddo fod yn darged deniadol i dwyllwyr. Mae twyll yn broblem gynyddol i gymdeithas, ac yn rhywbeth all effeithio ar y Gofrestrfa Tir. Buom yn ystyried pa fesurau diogelwch ychwanegol y gellir eu cyflwyno i atal a rhwystro twyll. Gan fod mwy o risg o dwyll pan nad yw'r ceisydd yn cael ei gynrychioli'n gyfreithiol rydym wedi ehangu'r mathau o geisiadau lle mae angen dangos prawf adnabod.

Cyn hyn, roeddwn yn gofyn i gwsmeriaid warantu hunaniaeth dim ond mewn achosion o golli gweithredoedd ond ers 3 Mawrth 2008 gofynnir am dystiolaeth adnabod ar gyfer ceiswyr sydd heb eu cynrychioli'n gyfreithiol ar gyfer y mathau canlynol o geisiadau.

— Trosglwyddiadau (boed am werth neu beidio).
— Prydlesi (boed am werth neu beidio).
— Arwystlon.
— Rhyddhadau ar bapur.
— Cofrestriadau cyntaf os yw'r gweithredoedd teitl wedi cael eu colli neu eu dinistrio.

Ein nod fu lleihau'r achosion o geisiadau twyllodrus yn cael eu cyflwyno i'w gofrestru heb roi baich rheoleiddio gormodol ar ein cwsmeriaid. Mae gweithdrefnau tebyg yn cael eu defnyddio gan nifer o sefydliadau eraill.

Rydym wedi cyhoeddi Cyfarwyddyd Cyhoeddus *20 - Gwiriadau adnabod* sy'n esbonio ein gofynion. Mae'r canllaw a'r ffurflenni adnabod ar gael ar www.cofrestrfatir.gov.uk neu unrhyw un o'n swyddfeydd lleol.

Rhan annatod o ddarparu gwasanaeth gwell yw sicrhau bod y Gofrestrfa Tir yn parhau i weithredu mecanweithiau cadarn ar gyfer rheolaeth fewnol. Ym mis Ebrill 2007, roedd Bwrdd y Gofrestrfa Tir wedi ystyried y trefniadau llywodraethu ar gyfer pob un o'i mentrau newid yn y dyfodol a daeth i'r casgliad y dylai'r Gofrestrfa Tir gyfuno ei strwythurau rhaglen amrywiol. O ganlyniad, mae pob prosiect yn cael ei rhesymoli erbyn hyn o dan ddwy raglen newydd; y Rhaglen Trawsffurfio Busnes, sy'n arolygu ac yn gwthio gwireddu'r model busnes newydd a ddisgrifir yn ein Glasbrint ar gyfer y dyfodol, a'r Rhaglen Effeithiolrwydd Busnes sy'n gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ein model busnes cyfredol.

Yn fwy perthnasol, mae strwythur llywodraethu newydd wedi cael ei gyflwyno, ac mae'r cyn Fwrdd Rheoli Rhaglenni, Bwrdd Rhaglen Newid Busnes, Bwrdd Rhaglen E-drawsgludo a Bwrdd Newid Cofrestru wedi cael eu disodli gan strwythur symlach i arolygu'r rhaglenni newydd. Mae siart sefydliadol sy'n dangos strwythur llywodraethu corfforaethol diwygiedig y Gofrestrfa Tir ynghyd â'i phwyllgorau a'u pwrpas i'w gweld yn Atodiad 8.

**Rheoli risg**

Mae rheoli risg effeithiol yn hanfodol i gyflawni amcanion strategol y Gofrestrfa Tir. Mae Bwrdd y Gofrestrfa Tir yn adnabod ac yn rheoli'n weithredol ei phrif risgiau corfforaethol a strategol ac mae prosesau rheoli risg effeithlon mewn lle ar draws y sefydliad. Yn arbennig mae'r Gofrestrfa Tir yn adolygu'n barhaus ei gweithdrefnau i fynd i'r afael â thwyll. Yn ystod 2007 cyflwynwyd strategaeth wrth-dwyll gynhwysfawr. Mae rheoli diogelwch a chyfyngiadau ar fynediad yn weithredol er mwyn atal trosglwyddo teitlau tir yn dwyllodrus ac atal ein cofrestr ar-lein rhag cael ei chamddefnyddio a'i chyrchu'n anghyfreithlon.

Ym mis Chwefror 2008, dilynodd y Gofrestrfa Tir ganllawiau Swyddfa'r Cabinet ar weithdrefnau trin data yn y llywodraeth a chynhaliwyd adolygiad trylwyr o'i rheolaethau mewnol ar gyfer rheoli risg i wybodaeth. Cymerwyd camau i sicrhau ein bod yn cydymffurfio'n llawn â'r mesurau lleiaf penodol i ddiogelu gwybodaeth bersonol.

Mewn ymateb i'r pryderon ehangach hyn sydd gan y Llywodraeth am ddiogelwch data, ym mis Ionawr 2008 roeddwn wedi gwahardd dros dro y defnydd o bob gliniadur a chyfrifiadur personol poced tra ein bod yn datblygu ateb amgryptio. Cyflwynwyd yr ateb i bob defnyddiwr gliniadur hanfodol cyn pen 10 diwrnod ac i'n poblogaeth gyfan o 550 o ddefnyddwyr o fewn cyfnod o chwe wythnos.

Mae'r Gofrestrfa Tir yn cadarnhau yn 2007/8, fel yn y blynyddoedd ariannol blaenorol, nad yw unrhyw ddigwyddiadau cysylltiedig â data personol wedi'u diogelu wedi cael eu hadrodd yn ffurfiol i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, neu unrhyw ddigwyddiadau cysylltiedig â data personol wedi'u diogelu a'u cofnodi'n ganolog sydd heb eu hadrodd yn ffurfiol i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Bydd y Gofrestrfa Tir yn parhau i fonitro ac asesu ei risgiau i wybodaeth er mwyn adnabod a mynd i'r afael ag unrhyw wendidau a sicrhau gwelliant parhaus ei systemau.

Fel sefydliad dan arweiniad ei gwsmeriaid, mae'n rhaid i ni ymateb i'r gwaith y mae'r marchnadoedd eiddo a morgais yn ei gynhyrchu i ni mor gyflym, mor gywir ac mor effeithlon ag y gallwn. Ni allwn ragweld yn fanwl gywir beth fydd yn digwydd yn y marchnadoedd hyn yn y flwyddyn i ddod a'r effaith y gallai hyn ei chael ar incwm a pherfformiad. At hynny, mae'n rhaid i ni fod yn barod ar gyfer effaith deddfwriaeth newydd ar ein gweithrediadau a'n dulliau newydd ein hunain, megis e-drawsgludo a datblygu gwasanaethau masnachol newydd. Felly, mae'n rhaid i ni gael cynlluniau lliniaru risg cadarn mewn lle er mwyn sicrhau bod digon o allu gweithredol gennym i ateb gofynion cwsmeriaid a chynnal ein safonau uchel o wasanaeth cwsmeriaid yr un pryd.

Mae'r Gofrestrfa Tir yn gweithredu un o'r systemau cronfa ddata mwyaf yn y byd, o ran maint y gronfa ddata a chymhlethdod trafodion. Mae systemau gwybodaeth wrth wraidd prosesau gweithredol y Gofrestrfa Tir a byddant yn fwyfwy allweddol i fusnes wrth i nifer cynyddol o drafodion gael eu trin yn electronig a'u cyflawni'n uniongyrchol gan gymwysiadau meddalwedd.

Mae systemau TG yn bwysig i'n darpariaeth gwasanaeth cwsmeriaid. Mae argaeledd a dibynadwyedd systemau o'r fath a chywirdeb y data sydd ganddynt yn allweddol i'n perfformiad gweithredol ac yn hanfodol i'n busnes. Mae'n rhaid i ni gael cynlluniau parhad busnes cynhwysfawr a chadarn i liniaru'r effaith y byddai eu colli yn ei chael ar ein gweithrediadau. Mae hyn yn cynnwys rhaglen flynyddol o ymarferion sy'n bwriadu profi trefniadau ym mhob swyddfa'r Gofrestrfa Tir.

**Archwilio**
Mae'r cyfrifon wedi cael eu harchwilio gan y Rheolwr ac Archwiliwr Cyffredinol (RhAC). Cost y gwaith archwilio ar gyfer 2007/8 oedd

£70,000 (2006/7: £69,000). Mae'r gost ar gyfer gwasanaethau archwilio sy'n gysylltiedig â'r archwiliad statudol. Ni chafodd unrhyw wasanaethau eraill eu darparu ac ni wnaed unrhyw waith sicrwydd arall gan y RhAC yn ystod y flwyddyn.

Cyn belled ag y gŵyr y Swyddog Cyfrifyddu, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr y Gofrestrfa Tir yn ymwybodol ohoni. Mae'r Swyddog Cyfrifyddu wedi cymryd yr holl gamau y dylai fod wedi'u cymryd i sicrhau ei fod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol a sefydlu bod archwilwyr y Gofrestrfa Tir yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

**Gwaith y Pwyllgor Archwilio**
Roedd gweithgareddau'r pwyllgor yn 2007/8 yn cynnwys:

- goruchwylio datblygu rheoli risg yn y Gofrestrfa Tir, trwy'r Bwrdd Risg Busnes, gan gynnwys derbyn adroddiadau rheolaidd gan Gadeirydd y Bwrdd Risg Busnes ar weithgareddau risg i'r gofrestr strategol a thynnu sylw at unrhyw risgiau sy'n dod i'r amlwg
- derbyn adroddiadau rheolaidd gan Archwilio Mewnol a meysydd eraill y busnes, megis adroddiadau stiwardiaeth ac adolygiadau porth, er mwyn cael sicrwydd bod prosesau priodol mewn lle ac yn cael eu dilyn
- cytuno a monitro cynlluniau ac adroddiadau Archwilio Mewnol a sicrhau bod camau wedi cael eu cymryd i weithredu ar argymhellion Archwilio Mewnol
- cytuno a monitro strategaeth, canfyddiadau a llythyr rheoli Archwilio Allanol
- cymeradwyo'r cyfrifon blynyddol a datganiad ar reolaeth fewnol ar gyfer yr adroddiad blynyddol
- derbyn diweddariadau ar unrhyw ddigwyddiadau chwythu'r chwiban a thwyll.

Yn ystod y cyfnod dan sylw, ni newidiodd aelodaeth y pwyllgor sef David Rigney (Cyfarwyddwr Anweithredol, Cadeirydd), Mike Cutt (Cyfarwyddwr Anweithredol), Vaughan Williams (annibynnol), John Wright (Cyfarwyddwr Systemau Gwybodaeth) a David Cleasby (Rheolwr Ardal Swyddfa Portsmouth). Mae'r Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Cyllid, Pennaeth Archwilio Mewnol a'n harchwilwyr allanol yn mynychu cyfarfodydd y pwyllgor yn rheolaidd.

**Y Pwyllgor Rheolau**
Ailgyfansoddwyd y Pwyllgor Rheolau o dan Ddeddf Cofrestru Tir 2002 i ddarparu cyngor a chymorth i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder a'r Arglwydd Ganghellor ar lunio rheolau newydd neu ddiwygiedig o dan y Ddeddf. Mae barnwr o'r Uchel Lys yn cadeirio'r pwyllgor ac mae ei aelodau yn cynnwys y Prif Gofrestrydd Tir, cynrychiolwyr o'r proffesiwn cyfreithiol, rhoddwyr benthyg morgeisi ac arolygwyr tir ynghyd ag unigolyn wedi'i benodi ar sail ei brofiad ym maes materion defnyddwyr. Nid yw'r cadeirydd na'r aelodau yn cael eu talu am eu gwaith ar y pwyllgor. Mae'r pwyllgor yn cwrdd fel y bo angen i ystyried rheolau newydd neu ddiwygiedig.

Yn ystod y flwyddyn roedd Cyngor Cymdeithas y Gyfraith wedi enwebu aelod newydd.



Defnyddio technegau traddodiadol yn yr Adran Tir ac Arolygu yn Freetown, Sierra Leone, lle yr oedd y Gofrestrfa Tir wedi ymchwilio'n ddiweddar i gyflwr presennol cofrestru tir a chynghori ar wella arferion

Roedd y Pwyllgor Rheolau wedi cwrdd ym mis Mawrth 2008 i ystyried y Rheolau Cofrestru Tir (Trawsgludo Electronig) drafft 2008. Mae'r rhain yn gwneud darpariaeth ar gyfer creu arwystlon cyfreithiol ar ffurf electronig.

**Yr Uned Ryngwladol**

Mae'r Uned Ryngwladol yn sicrhau ein bod yn cyfathrebu ac yn rhyngweithio'n effeithiol â'n rhwydwaith rhanddeiliaid dramor, ein bod wedi ein cynrychioli ar fforymau rhyngwladol perthnasol a'n bod yn cyfrannu lle bo'n briodol at nodau strategol ehangach y Llywodraeth, gan gynnwys darparu arbenigedd y DU i wledydd sy'n datblygu.

Y flwyddyn hon gwelwyd lansio'r Rhwydwaith Cymorth Cyfiawnder gan y Twrnai Gwladol. Mae'r rhwydwaith, rydym yn gyfranogwyr gweithredol ohono, yn ceisio hwyluso a datblygu rhannu a chydlynu gwybodaeth ar fentrau meithrin gallu sector cyfiawnder y DU mewn gwledydd sy'n datblygu a gwledydd trosiannol.

Yn ystod 2007/8, roeddem wedi parhau i roi cymorth i raglen Diogelwch, Cyfiawnder a Thwf Cyngor Prydain yn Nigeria, a noddwyd gan yr Adran Datblygiad Rhyngwladol (ADRh). Yn Slofacia, mewn partneriaeth â Chofrestri'r Alban, roeddem wedi cwblhau'r prosiect Twinning Light a noddwyd gan yr Undeb Ewropeaidd ac a ddechreuodd y flwyddyn ddiwethaf i wella effeithlonrwydd ei gwasanaethau cofrestru tir. Hefyd cwblhawyd prosiect ar gyfer llywodraeth Bermuda i ddarparu brîff ar gyfer Siambrau'r Twrnai Gwladol yn Bermuda i baratoi Mesur Cofrestru Tir drafft.

Rydym wedi cynnal ein cysylltiadau cryf â'n cymheiriaid dramor ac yn ystod y flwyddyn ddiwethaf:

- buom yn gyfranogwyr gweithredol yng Ngweithgor ar Weinyddu Tir Comisiwn Economaidd y Cenhedloedd Unedig. Roedd ein Dirprwy Brif Weithredwr wedi ein cynrychioli ar fiwrô'r Gweithgor tan ddiwedd ei sesiwn olaf ac rydym yn falch i gyhoeddi bod Pennaeth yr Uned Ryngwladol wedi cael ei ethol fel aelod o'r biwrô
- parhau i fod yn aelodau gweithgar o Gymdeithas Cofrestrfa Tir Ewrop, gan ystyried materion o bryder rhyngwladol megis Papur Gwyn y Comisiwn Ewropeaidd ar Integreiddio Marchnadoedd Credyd Morgais yr UE
- cymryd rhan mewn gweithdai Ewrogeograffeg ar stentiau a'r gofrestrfa tir yn Sofia a Nicosia
- cynorthwyo'r Arolwg Ordnans i drefnu'r Gynhadledd Caergrawnt genedlaethol i benaethiaid sefydliadau mapio byd-eang, gan gyflenwi siaradwr ac adroddwr.

Yn ystod y flwyddyn rydym wedi parhau i groesawu nifer fawr o ymwelwyr o dramor, gan gynnig rhaglenni astudio pwrpasol i ateb eu meysydd diddordeb arbennig, megis gwasanaeth cwsmeriaid neu e-drawsgludo. Mae ymweliadau o'r fath yn rhoi cyfle i ni rannu profiad ac arbenigedd, a meithrin perthynas â chydweithwyr dramor sy'n gweithio yn yr un maes. Y flwyddyn hon rydym wedi croesawu ymweliadau astudio gan ein cymheiriaid a sefydliadau eraill yn Bermuda, yr Aifft, Hong Kong, Japan, Latvia, Seland Newydd, Nigeria, Ffederasiwn Rwsia, Singapore, De Korea, Sri Lanka, Sbaen a'r Unol Daleithiau.

## Prosiect Druidstone

Roedd Emma Phillips o Swyddfa Croydon y Gofrestrfa Tir wedi cymryd rhan yn ddiweddar ym mhrosiect Druidstone Ymddiriedolaeth y Tywysog.

Mae prosiect Druidstone yn gwrs preswyl sy'n para pythefnos gyda phob oedolyn sy'n gwirfoddoli yn mentora plentyn ar sail un i un. Mae'r plant yn cael eu dewis gan athrawon i fynychu am resymau penodol. Gall un fod yn ofalwr ar gyfer rhiant, gall plentyn arall ddod o gefndir difreintiedig lle nad yw unrhyw oedolyn yn gweithio. Mae'r plentyn yn cael ei noddi gan gyflogwr y gwirfoddolwr.

"Cefais fy annog i fynd amdani gan gydweithiwr yn y Gofrestrfa Tir oedd wedi gwirfoddoli y flwyddyn cyn hynny a siaradodd yn frwdfrydig am y sgiliau yr oedd wedi'u dysgu a'r teimlad o foddhad a gafodd o'r profiad.

"Wedi'i leoli ym Mannau Brycheiniog, cefais gyfle i gwrdd â'r mentoriaid eraill yn ystod yr wythnos gyntaf a gweithio'n effeithiol â nhw ar ystod eang o weithgareddau tîm, megis ogofa a cherdded ceunentydd. Defnyddion ni'r amser i gynllunio gweithgareddau a'r gyllideb ar gyfer yr ail wythnos. Mae'r prosiect yn rhedeg ar gyllideb dynn ac mae'n rhaid i'r gweithgareddau fod yn llawn hwyl, yn ogystal â bod yn addysgol a dilyn gofynion iechyd a diogelwch.

"Roedd bob diwrnod yn hir ond roedd y cynllunio wedi profi'n werth chweil yn bendant. Hefyd cefais gyfle i gwrdd â'r plentyn y byddwn i'n gyfrifol amdano yn ystod yr ail wythnos. Y syniad oedd tawelu meddwl y plant, er yn bersonol rwy'n meddwl bod yr oedolion yn fwy nerfus!

"Yn ystod yr ail wythnos gwelwyd y cynlluniau da yn gweithio i'r dim, wel, dyna oedd y nod beth bynnag. Roedd rhaid i mi addasu i amgylchiadau oedd yn newid: tywydd gwael, datrys problemau'r plant, cefnogi fy nghyd fentoriaid, gweithio fel rhan o dîm ac arwain sesiynau yn ôl yr angen. Heb anghofio gwneud yn siŵr bod pawb yn mwynhau eu hunain...

"Rwy'n ei chael hi'n anodd i roi mewn geiriau a meintioli'r datblygiad a gefais yn Druidstone - yn sicr dyma'r cwrs mwyaf dwys dwi erioed wedi'i fynychu. Mae wedi gwella fy sgiliau cyfathrebu a chynllunio yn fawr a dwi wedi dysgu i beidio ag osgoi ateb ond yn hytrach pwyso a mesur y sefyllfa yn gyflym er mwyn gwneud penderfyniad gwybodus. Roeddwn i'n fwy hyderus wrth fynegi fy marn ac wedi gwella'r sgìl o wrando ar eraill a gwerthuso eu hawgrymiadau. Roedd yn brofiad hynod gwerth chweil a byddwn i'n ei argymell yn fawr."

Prince's Trust

**Cyfrifoldeb corfforaethol**
Mae'r Gofrestrfa Tir yn ymrwymedig i arfer da o ran cyfrifoldeb corfforaethol: gwneud popeth posibl i hybu diwylliant o amrywiaeth a datblygu staff, gwarchod yr amgylchedd a chefnogi rhyngweithio cadarnhaol â'r gymuned.

Mae ein haelodaeth barhaus o Fusnes yn y Gymuned wedi cyfrannu at ddiweddaru ein cynllun gweithredu cyfrifoldeb corfforaethol. Bydd y grŵp llywio a ffurfiwyd yn ddiweddar yn hybu ymhellach ein gweledigaeth i hybu ymddygiad busnes sy'n gymdeithasol gyfrifol, gan ganolbwyntio ar gyflawni ein cyfrifoldeb corfforaethol a rhwymedigaethau datblygiad cynaliadwy yn llwyddiannus.

Mae systemau rheoli amgylcheddol a chaffael cynaliadwy yn parhau i fod yn brif eitemau ar agenda cyfrifoldeb corfforaethol y Gofrestrfa Tir. Rydym wedi parhau ag archwiliadau allanol o'n hachrediad i'r Safon Amgylcheddol ISO14001, gan ddangos effeithiolrwydd ein System Rheoli Amgylcheddol a pharhau i gael ardystiad.

Rydym yn gweithio tuag at gyrraedd y targedau a osodwyd yn y Fframwaith ar gyfer Gweithredu Cynaliadwy ar Ystad y Llywodraeth a disgwyliwn gyflawni pob un o'r targedau cyfredol, ac eithrio allyriadau $CO_2$ o gludiant ffordd, sy'n parhau i fod yn darged heriol i ni. Byddwn yn ceisio gwella, a bydd y flwyddyn i ddod yn gweld camau cadarnhaol yn cael eu cymryd ar bolisi teithio i fynd i'r afael â hyn.

Mae ein tîm caffael yn gweithio i sicrhau ein bod yn adran arweiniol o'r llywodraeth ym maes caffael cynaliadwy, gan weithredu ar ofynion a osodwyd o fewn Cynllun Gweithredu Tasglu Caffael Cynaliadwy y Llywodraeth.

Rydym yn cydymffurfio â Deddf Hwyr-dalu Dyledion Masnachol (Llog) 1998 a'r Cod Ymarfer Taliadau Gwell. Yn ystod y flwyddyn talwyd 97.1 y cant o'r anfonebau a dderbyniwyd gan gyflenwyr cyn pen 30 diwrnod (neu'r telerau cytundebol a gytunwyd os nodwyd fel arall). Nid yw'r canran hwn yn cynnwys anfonebau y mae anghydfod yn eu cylch.

**Ein pobl**
Fel cyflogwr, ceisiwn fod yn sefydliad enghreifftiol ac rydym yn falch o'r cyfraniad y mae ein pobl yn ei wneud at lwyddiant y Gofrestrfa Tir. Mae ein diwylliant yn un o gydraddoldeb a bod yn agored. Mae'r Gofrestrfa Tir yn hollol ymrwymedig i drin pobl fel unigolion, gan ddarparu cyfle cyfartal i bob un o'n gweithwyr a thrin ein cwsmeriaid yn gyfartal. Buddsoddwn yn ein pobl er mwyn datblygu'r sgiliau, gallu, cymhelliad ac amgylchedd gwaith cadarnhaol a fydd yn cynnig modd i ni lunio ein dyfodol yn llwyddiannus. Mae achrediad Buddsoddwyr mewn Pobl llawn gan y Gofrestrfa Tir.

Bydd y newidiadau a ddaw o'n Glasbrint sefydliadol i strwythur, swyddi, sgiliau ac ystad y Gofrestrfa Tir yn cael effaith sylweddol ar ein pobl a rhaid gwerthuso a chynllunio hyn yn llawn a rheoli'r newid yn ofalus.

Un newid arbennig fydd trawsffurfio Adnoddau Dynol (AD) i ddarparu un Ganolfan Gwasanaeth AD ganolog i'r Gofrestrfa Tir yn Nottingham lle y bydd rheolwyr achos AD yn darparu cymorth i reolwyr llinell ar faterion cymhleth neu heriol.  Yn ogystal â rheolwyr achos mae dwy rôl newydd yn cael eu cyflwyno, sef partner busnes ac uwch bartner busnes.  Byddant yn gweithio gydag aelodau bwrdd ac uwch reolwyr i helpu cynllunio ar gyfer gofynion pobl yn y dyfodol.


Bydd y gwasanaeth newydd wedi'i symleiddio yn adlewyrchu'r newidiadau rydym yn eu gwneud ar draws ein busnes ac yn darparu cymorth arbenigol proffesiynol i'n rheolwyr, a fydd yn ysgwyddo mwy o gyfrifoldebau rheoli pobl.

**Recriwtio a chadw**
Ar 1 Ebrill 2008, roedd y Gofrestrfa Tir yn cyflogi 8,341 o bobl, neu 7,512 o staff cyfwerth ag amser llawn (gan gynnwys staff cyfnod penodol a dros dro).

**Ffeithiau a ffigurau**
— Mae gweithwyr rhan-amser yn ffurfio 32.3 y cant o'r staff.
— Mae chwe deg tri y cant o'n staff yn fenywod, gan gynnwys dau o'r saith cyfarwyddwr sy'n atebol i'r Prif Gofrestrydd Tir.
— Mae chwech y cant yn nodi bod anabledd ganddynt ac mae pump y cant yn nodi eu bod yn dod o leiafrif ethnig.
— Y flwyddyn ddiwethaf, dechreuodd 289 o bobl swyddi parhaol newydd gyda'r Gofrestrfa Tir - roedd 234 o'r rhain yn staff presennol a gafodd eu dyrchafu i swyddi newydd ac roedd 55 wedi ymuno â'r Gofrestrfa Tir am y tro cyntaf.
— Y trosiant ar gyfer staff parhaol am y flwyddyn ddiwethaf oedd 3.5 y cant o'i gymharu â 3.7 y cant y flwyddyn flaenorol.

Mae ein datganiad recriwtio i'w weld yn Atodiad 5.

## Niferoedd staff ers 1998 (cyfwerth ag amser llawn)



**Amrywiaeth a chyfle cyfartal**
Ym mis Ebrill 2007 cyhoeddwyd ein Cynllun Cydraddoldeb Sengl (CCS), yn cwmpasu pob llinyn amrywiaeth. Roedd ein CCS yn cynnwys ein cynlluniau cydraddoldeb hiliol a chydraddoldeb anabledd blaenorol, ac wedi cyflwyno ein Cynllun Cydraddoldeb Rhyw. Bydd y cynllun yn integreiddio gwaith sy'n ofynnol o dan Gynllun 10 Pwynt y Gwasanaeth Sifil.

Roedd ein CCS wedi ffurfioli ein prosesau ar gyfer sicrhau asesiadau effaith cydraddoldeb (AEC) ar draws y sefydliad cyfan. Yn ystod blwyddyn gyntaf ein cynllun rydym wedi hyfforddi'r mwyafrif o'n rheolwyr yn y broses AEC. Dros y ddwy flynedd nesaf bwriadwn adnabod polisïau sy'n berthnasol i amrywiaeth a byddwn yn ymgymryd â sgrinio asesu effaith.

Mae grwpiau ffocws staff wedi cael eu ffurfio a chânt eu hymgynghori a'u cynnwys yn llawn yn yr asesiadau effaith ac mewn mentrau eraill. Yn ogystal, bydd pob polisi AD yn cael ei sgrinio cyn gweithredu ein rhaglen Drawsffurfio AD.

Mae gwaith ar y gweill ar draws pob adran i weithredu ein hamcanion CCS. Mae'r meysydd sydd eisoes wedi cael sylw yn cynnwys:
— cwestiynau monitro amrywiaeth wedi'u cynnwys yn ein harolwg cwsmeriaid blynyddol
— holiaduron amrywiaeth wedi'u corffori yn ein prosesau caffael
— adolygu proffil ein paneli defnyddwyr
— sicrhau bod cyhoeddiadau a deunyddiau swyddogol yn cael eu cynhyrchu mewn fformatau addas
— adolygu casglu data cyflogaeth er mwyn monitro amrywiaeth ein gweithlu.

Mae Cynllun 10 Pwynt y Gofrestrfa Tir wedi cael ei archwilio'n allanol. Rydym wrthi'n adolygu ein targedau amrywiaeth gyda'r nod o weithredu targedau newydd erbyn diwedd yr haf 2008.

Mae'r argymhellion o adolygiad gofal plant 2006/7 wedi cael eu gweithredu yn ôl yr amserlen yn ystod 2007/8 a disgwylir i'r camau sy'n weddill gael eu cwblhau yn 2008/9. Erbyn hyn gall pob aelod staff gael mynediad i ddarpariaeth gofal plant.

Cawsom ein lleoli'n uchel yn Rhestr 100 Cyflogwr Gorau Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewell ar gyfer 2008. Mae hyn yn cydnabod y 100 cyflogwr gorau o bersbectif lesbaidd, hoyw a deurywiol. Cawsom ein graddio ar safle 51, gan sgorio 79 y cant a chael ein dosbarthu fel un o'r cwmnïau sydd wedi gwella fwyaf y flwyddyn hon, ar ôl cyrraedd safle 107 yn y fynegai yn 2007.

Yn erbyn Safon Anabledd 2007 roeddem wedi sgorio 52 y cant yn gyffredinol. Yn arbennig fe sgorion ni yn uchel ar ein cynnydd hyd yma o ran gweithredu polisïau a gweithdrefnau a fydd yn arwain at gydraddoldeb anabledd i'n gweithwyr. Er mwyn adeiladu ar hyn a'n helpu i wella ein sgôr cyffredinol ar gyfer 2008, rydym yn cysylltu meysydd i'w gwella â'n hamcanion o dan ein CCS.

Mae pob rheolwr llinell wedi cael ei hyfforddi mewn ymwybyddiaeth anabledd, gan sicrhau eu bod yn ymwybodol o'u rhwymedigaethau o dan y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995. Bwriadwn adolygu ein pecynnau hyfforddi amrywiaeth yn 2008. Mae ein hymgynghorwyr aflonyddu ar y safle wedi ymgymryd â hyfforddiant gloywi hefyd.

Ym mis Mehefin 2007 cafodd y tudalennu rhyngrwyd lesbaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol eu lansio'n swyddogol gan ein Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr; gobeithio y bydd y tudalennau'n codi ymwybyddiaeth o'r materion hyn yn y sefydliad.

Ym mis Gorffennaf 2007 roedd ein Grŵp Ffocws Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig wedi cwrdd am y tro cyntaf gyda'r nod o adolygu a chynorthwyo dilyniant staff duon a lleiafrifoedd ethnig ar draws y sefydliad.

**Datblygu staff**
Mae buddsoddi yn ein pobl yn hanfodol i'n gallu i gyflawni ein hamcanion.

**Cymwysterau mewn Cyfraith ac Arferion Cofrestru Tir**
Mae'r Cymwysterau mewn Cyfraith ac Arferion Cofrestru Tir yn cael eu cynnig mewn partneriaeth â Choleg y Gyfraith ac erbyn hyn maent yn gyrsiau datblygu gyrfa sefydledig i staff y Gofrestrfa Tir a myfyrwyr allanol.

Mae dau gymhwyster: y dystysgrif, sy'n gwrs sylfaen un flwyddyn ar lefel Safon Uwch, a'r diploma lefel gradd, sy'n gwrs dwy flynedd ac yn cynnig ystyriaeth gynhwysfawr a manwl o'r gyfraith eiddo, gan gynnwys y gyfraith ac arferion cofrestru tir.

Mae'r cymwysterau wedi bod ar gael i ymgeiswyr allanol ers 2003, ac wedi cael eu hybu'n allanol ers 2005.

Yn ystod 2007, roedd 215 o fyfyrwyr (153 mewnol, 62 allanol) wedi cwblhau'r dystysgrif, ac roedd 92 o fyfyrwyr (75 mewnol, 17 allanol) wedi graddio gyda'r diploma. Hyd yma, mae 1,652 o dystysgrifau (1,542 mewnol, 110 allanol) a 513 o ddiplomâu (486 mewnol, 27 allanol) wedi cael eu dyfarnu.

**Aelodau technegol o Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (TechRICS)**
Ym mis Mehefin 2007 roeddem wedi dathlu llwyddiant saith cydweithiwr a oedd y cyntaf i gael eu croesawu fel aelodau technegol o Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (TechRICS). Erbyn diwedd y flwyddyn roedd wyth cydweithiwr arall wedi ymuno â nhw. Ar hyn o bryd, mae 34 aelod staff arall yn dilyn rhaglen y Gofrestrfa Tir i ennill TechRICS.

**Datblygu ein harweinwyr a'n rheolwyr**
Wedi'i gyflwyno ym mis Medi 2005, mae Arweinwyr y Dyfodol yn rhaglen fewnol y Gofrestrfa Tir ar gyfer meithrin potensial staff drwy

gymysgedd o aseiniadau, secondiadau a hyfforddiant. Mae dau brif linyn – y Modiwl Carlam Lleol seiliedig mewn swyddfa leol sy'n para flwyddyn (MCLl) a'r Modiwl Carlam Canolog a drefnir yn ganolog sy'n para tair blynedd (MCC), sy'n cael ei gynnig mewn partneriaeth â'r Ysgol Lywodraethu Genedlaethol a Choleg Rheoli Henley. Mae nifer o gyfranogwyr wedi cael llwyddiant personol a phroffesiynol drwy gymryd rhan.

Mae'r MCLl yn profi'n boblogaidd iawn mewn swyddfeydd lleol. Mae pob unigolyn yn ymgymryd ag ymarfer adborth 360 gradd i lywio ei anghenion datblygu am y flwyddyn i ddod. Yn ystod 2007, roedd rhai o'r cyfranogwyr wedi dilyn rhaglen datblygiad personol gydag Ymddiriedolaeth y Tywysog, ac roedd eraill wedi defnyddio hyblygrwydd y rhaglen i gymryd rhan mewn prosiectau lleol. Mae yn ei thrydedd flwyddyn erbyn hyn, ac ar hyn o bryd mae 56 o gyfranogwyr yn dilyn y rhaglen.

Mae nifer o gydrannau gorfodol i'r MCC, gan gynnwys astudio ar gyfer cymhwyster proffesiynol, gwneud aseiniadau dysgu gweithredol a chael cyfnod o secondiad neu ddyletswydd ddatgysylltiedig. Her allweddol ar gyfer cyfranogwyr MCC yw'r fforymau dylunio a darparu arweinyddiaeth a gynhelir ddwywaith y flwyddyn, sy'n archwilio materion busnes 'bywyd go iawn' i'r Gofrestrfa Tir yn ogystal ag ystyried damcaniaeth ac arferion arweinyddiaeth. Ar hyn o bryd, mae 20 aelod staff o fewn y tair carfan ar y MCC

**Datblygu gallu rheolwyr**
Dros y blynyddoedd diwethaf, mae ein hyfforddwyr rheolaeth leol wedi gweithredu Dyfarniad Lefel 5 y Sefydliad Arweinyddiaeth a Rheolaeth (ILM) ar gyfer staff perthnasol megis arweinwyr tîm dosbarthol; yn 2007/8, cofrestrwyd 193 o ymgeiswyr. Hefyd, hyd yma, mae 33 aelod staff wedi ennill Diploma mewn Arweinyddiaeth Gwasanaeth (Warwig) ac mae 25 aelod arall wrthi'n astudio tuag at ennill y Diploma.

Yn ystod 2007 roedd y Gofrestrfa Tir wedi treialu gweithdai, yn swyddfeydd Tunbridge Wells a Durham, o'r rhaglen o'r enw *Datblygu gallu rheolwyr*, sydd wedi cael ei chymeradwyo gan ILM, ac a gaiff ei chyflwyno gan dîm canolog o hyfforddwyr sydd â phrofiad perthnasol. Mae'r rhaglen yn cyflwyno'r cysyniad o sylfaen 'llwybr hyfforddi' i reolwyr sy'n cynnwys cymhwyster rheoli perthnasol (megis Dyfarniad neu Ddiploma Lefel 5 ILM mewn Arweinyddiaeth Gwasanaeth) a fydd fel arfer yn cael ei ddilyn ar ddiwedd y rhaglen.

Er mwyn creu safon sylfaenol o arferion a phrofiad rheoli, a datblygu ymagwedd gyson ar draws y Gofrestrfa Tir, bydd pob rheolwr, beth bynnag fo'i brofiad yn dilyn dau fodiwl craidd y rhaglen. Mae un yn astudio sgiliau pobl ac mae'r llall yn astudio rheoli perfformiad a gweithredu polisïau AD. Bydd y modiwlau'n cael eu cwblhau trwy fynychu gweithdai ymarferol dros ddau ddiwrnod, a fydd yn delio â materion bywyd go iawn i reolwyr, sy'n ceisio tynnu sylw at arferion gorau a rhannu gwybodaeth a phrofiad. Caiff y ddau fodiwl craidd eu cyflwyno ar draws y Gofrestrfa Tir yn 2008/9.

| Agwedd | Diwrnodau hyfforddeion |
|---|---|
| Sefydlu | 754 |
| Galwedigaethol (cofrestru tir) | 54,895 |
| Rheoli | 3,510 |
| Allanol | 4,179 |
| Cyfanswm | 63,338 |

**Hyfforddiant mewnol**
Yn ystod y flwyddyn, roedd y Grŵp Addysg a Hyfforddiant wedi anfon holiadur i ddetholiad o staff sy'n prosesu gwaith achos, eu rheolwyr llinell, rheolwyr hyfforddi a'r uwch reolwyr datblygu tîm gwaith achos.

Roedd y canlyniadau'n dangos bod sawl maes a allai elwa o ddeunyddiau hyfforddi ychwanegol. Cafodd y ddau becyn cyntaf eu rhyddhau ym mis Ionawr 2008 ac maent yn cwmpasu hawddfreintiau mewn trosglwyddiadau o ran a phrydlesi gwaredol cyntaf. Bwriedir i'r pecynnau gael eu cyflwyno ar ddull ystafell ddosbarth gan hyfforddwr. Bydd rhaglen dreigl o becynnau hyfforddi yn cael ei chreu dros y misoedd i ddod.

Mae integreiddio deunyddiau hyfforddi mewnol a chanllawiau cyfarwyddyd ar-lein wedi parhau i gael ei wella.

Roedd y cyfanswm gwariant ar yr holl hyfforddiant yn cynrychioli 11.7 y cant o'r bil cyflogau.

**Iechyd a diogelwch**
Yn 2006/7 roedd y Gofrestrfa Tir wedi cynnal adolygiad cynhwysfawr o'n dulliau gweithio, gan gynnwys offer sgrin arddangos, meddalwedd pwrpasol, yr amgylchedd ac agweddau siecogymdeithasol ar ein gwaith craidd. Mae'r argymhellion o'r adroddiad adolygu wedi bod yn gonglfaen i'n gwaith iechyd a diogelwch yn ystod 2007/8.

Mae pob un o'r 52 argymhelliad wedi cael sylw ac mae 48 ohonynt wedi cael eu cwblhau trwy weithredu polisi newydd neu fel busnes arferol. Gan gefnogi'r thema hon o welliant parhaus, rydym wedi gwella ein canllawiau mewnol ar weithio gydag offer sgrin arddangos, rheoli anhwylderau braich uchaf a chanllawiau i'n datblygwyr meddalwedd. Gall effeithiolrwydd y gwaith hwn gael ei adlewyrchu yn y gostyngiad yn nifer yr anhwylderau braich uchaf a gofnodwyd a'r gostyngiad mewn materion defnyddioldeb sy'n codi o ryddhau meddalwedd newydd.

Cwblhawyd yr archwiliadau iechyd a diogelwch blynyddol yn ôl yr amserlen. Os oedd gwelliannau yn ofynnol, gwnaethpwyd argymhellion a gweithredwyd er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth a pholisi'r Gofrestrfa Tir. Mae'r broses archwilio wedi cael ei diwygio ar gyfer 2008/9 a byddwn yn symud o raglen dreigl dair blynedd i raglen dreigl dwy flynedd.

Mae adolygiad o sut mae iechyd a diogelwch yn cael ei reoli ar lefel uwch reolwyr wedi cael ei gwblhau hefyd ac o ganlyniad mae cynllun gweithredu 15 pwynt wedi cael ei gynhyrchu i'w gyflwyno yn ystod 2008/9.

Mae nifer y damweiniau a gofnodwyd wedi codi ychydig o 5.76 y flwyddyn ddiwethaf i 5.93.

# Ein cwsmeriaid

Er bod y Gofrestrfa Tir yn darparu gwasanaeth statudol ac mae ganddi fonopoli gwladol, rydym yn trin ein cwsmeriaid fel pe bai dewis ganddynt ac rydym yn parhau'n ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth rhagorol i bob un o'n cwsmeriaid. Er mwyn gwireddu ein gweledigaeth, rhaid i ni roi dewis i gwsmeriaid, gan eu galluogi i weithio gyda ni mewn ffordd sy'n gweddu i'w hanghenion unigol a'u hanghenion busnes.

Wrth i ni ddatblygu gwasanaethau masnachol newydd ar gyfer marchnad ehangach mae ein sylfaen cwsmeriaid yn ehangu. Felly, er mwyn sicrhau bod ein gwasanaethau yn bodloni ac yn rhagori ar ddisgwyliadau cwsmeriaid, rydym wedi mabwysiadu dull gweithio dan arweiniad cwsmeriaid yn hytrach na chyflenwi ar gyfer cynllunio a chyflwyno ein gwasanaeth. Rydym yn segmentu ein sylfaen cwsmeriaid er mwyn ein galluogi i wasanaethu cwsmeriaid yn well yn ôl eu hanghenion penodol a, thrwy arloesi technolegol, gwneud gwelliannau i ddulliau cyflwyno ein gwasanaethau gyda'r nod o'u gwneud yn gwbl electronig.

Mae'r Gofrestrfa Tir wedi adeiladu enw da ar gyfer ansawdd ei gwasanaethau. Ond nid oes modd cymryd yr enw da hwnnw yn ganiataol yn yr oes hon sy'n newid. Wrth i gynhyrchion newydd gael eu cynnig, cyflwyno e-drawsgludo a newidiadau i'r sylfaen cwsmeriaid, mae'n rhaid profi ansawdd gwaith y Gofrestrfa Tir dro ar ôl tro. Dyma pam bod nifer o fentrau yn cael eu gweithredu ar yr un pryd ar draws y sefydliad i danlinellu pwysigrwydd ansawdd a helpu i'w wneud yn realiti.

Yn 2006/7 comisiynwyd adolygiad ansawdd eang. O ganlyniad, mae'r Gofrestrfa Tir wedi cychwyn ar yr hyn sydd efallai ei menter ansawdd mwyaf erioed, sef y Llinell Lif Gwella Ansawdd i wella ansawdd data'r map mynegai. Bydd y Llinell Lif yn gwella ymhellach ein cronfa ddata o bolygonau mynegeio fector cywir a dibynadwy wedi'u harddangos yn erbyn y map Arolwg Ordnans cyfredol.

Mae gwaith glanhau data gwerthiannau yn hanfodol er mwyn diogelu ein henw da a chael ail archebion gan gwsmeriaid. Bydd nifer o aelodau staff sy'n prosesu gwaith data gwerthiannau ar hyn o bryd yn ymwneud â menter y Llinell Lif, a gafodd ei threialu yn Swyddfa Plymouth er mwyn profi gallu'r system. Gwnaethpwyd ystod eang o waith, yn amrywio o ystadau tai i Faes Awyr Exeter. Yn dilyn llwyddiant y treialu, ymunodd swyddfeydd Penbedw (Old Market) a Telford â'r fenter ym mis Chwefror 2008, ac erbyn diwedd 2008 dylai'r Llinell Lif fod wedi cael ei chyflwyno'n llawn.

**Gwybodaeth agored a llawn**
Mae ystod gynhwysfawr o wybodaeth ymarferol am ein gwasanaethau a'n gweithdrefnau ar gael ym mhob un o'n canolfannau gwybodaeth cwsmeriaid. Mae cyhoeddiadau a ffurflenni cofrestru tir ar gael i'w llwytho i lawr yn rhad ac am ddim o'n gwefan (www.cofrestrfatir.gov.uk), a hefyd pob un o'r ffurflenni swyddogol y mae eu hangen i gyflwyno ceisiadau cofrestru tir. Mae'r wefan hefyd yn cynnwys tudalen wedi'i neilltuo i ateb cwestiynau cyffredin.

Yn ystod 2007/8, roedd y Gofrestrfa Tir wedi derbyn 70 cais ysgrifenedig am wybodaeth o dan ddarpariaethau Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

**Hygyrchedd a hybu dewis**
Daw'r rhan fwyaf o'n cwsmeriaid o'r proffesiwn cyfreithiol neu sefydliadau ariannol, er y byddwn hefyd yn derbyn ceisiadau ac ymholiadau gan amryw o gyrff eraill ac yn uniongyrchol gan y cyhoedd. Cydnabyddwn fod ein cwsmeriaid yn cynnwys pawb sy'n cael eu heffeithio gan ein gwaith.

Gall cwsmeriaid gysylltu â ni yn bersonol, dros y ffôn, drwy'r ffacs, e-bost a'r post. Gall cwsmeriaid proffesiynol sydd â chyfrifon credyd ddefnyddio ein gwasanaethau electronig trwy'r Gofrestrfa Tir Uniongyrchol a thrwy'r Gwasanaethau Ffôn, sy'n darparu dull cyflym, cyfleus a syml o wneud cais am nifer o'n gwasanaethau. Mae Gwasanaethau Ffôn Cymru yn arbenigo mewn enwau lleoedd Cymraeg ac yn cynnig gwasanaeth Cymraeg.

Gall y cyhoedd gyrchu ein gwybodaeth yn electronig trwy ddefnyddio'r Gofrestr Tir Ar-lein. Mae'r gwasanaeth hwn yn cynnig modd i unrhyw un sydd â mynediad i'r rhyngrwyd edrych ar gopïau ac argraffu copïau o gofnodion cofrestr a thalu gyda cherdyn debyd neu gredyd. Mae'n darparu mynediad i'r gofrestr yn ogystal â'r gofrestr a'r cynllun teitl.

Mae pob canolfan gwybodaeth cwsmeriaid yn cael ei harchwilio i asesu ei hygyrchedd a mynediad i'r rhai sy'n defnyddio cadeiriau olwyn. Mae staff yn y canolfannau hyn yn cael eu hyfforddi i ddarparu gwasanaeth cwsmeriaid o safon i gwsmeriaid anabl a'r rhai sydd ag anghenion arbennig. Rydym yn cadw rhestr o aelodau staff sy'n gallu defnyddio Iaith Arwyddion Prydain gyda chwsmeriaid. Darparwn gyfleuster ffôn testun ar rif rhadffôn a chroesawn alwadau trwy Typetalk. Gwasanaethau i gwsmeriaid sy'n fyddar neu'n drwm eu clyw yw'r rhain.

Gallwn ddarparu dogfennau a chyfarwyddyd mewn amryw o fformatau gan gynnwys, ar gais, Braille, print bras a chasét sain. Mae rheolwyr gwasanaeth cwsmeriaid ym mhob un o'n swyddfeydd wedi cael pecyn gwybodaeth sy'n cynnwys canllawiau ymarferol ar anghenion cwsmeriaid anabl.

Defnyddiwn ein holiadur adborth cwsmeriaid, *Gwerthfawrogwn eich sylwadau*, i asesu'r galw am wybodaeth mewn ieithoedd heblaw'r Gymraeg a'r Saesneg. Rydym hefyd yn cadw cronfa ddata o staff sy'n gallu siarad ieithoedd eraill i helpu cwsmeriaid sydd ag anghenion iaith arbennig.

**Gwasanaeth Cymraeg**
Mae'r Gofrestrfa Tir yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a bydd yn gohebu â chi yn Gymraeg. Byddwn yn ymateb yn Gymraeg i lythyrau a dderbynnir yn Gymraeg ac yn cwrdd â'r un targedau cyflymder gwasanaeth ar gyfer gohebiaeth. Mae gohebiaeth drwy'r ffacs neu ddulliau electronig yn cael ei thrin yn yr un modd. Mae ein gwefan yn ddwyieithog, a gellir cyrchu'r safle Cymraeg drwy www.cofrestrfatir.gov.uk.

Cynigiwn wasanaeth Cymraeg dros y ffôn ac mewn rhai canolfannau gwybodaeth cwsmeriaid a gwasanaeth ffôn. Ein nod yw darparu'r un safon gwasanaeth o ansawdd uchel yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Mae pob templed cofrestr sy'n cael ei gynhyrchu yn Swyddfa Cymru yn cael ei argraffu'n ddwyieithog. Mae pob pennawd a gwybodaeth safonol ar gofrestri teitl yng Nghymru yn ymddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae cofnodion unigol yn ymddangos yn iaith y ddogfen wreiddiol y maent wedi'u seilio arni.

I gael mwy o wybodaeth am y gwasanaethau Cymraeg a ddarparwn cysylltwch â:
Cydlynydd yr Iaith Gymraeg,
Swyddfa Cymru,
Cofrestrfa Tir,
Tŷ Cwm Tawe,
Ffordd y Ffenics,
Llansamlet,
Abertawe SA7 9FQ

**Unioni pethau**
Sylweddolwn y gall camgymeriadau fod yn ddiflas, ond weithiau gall pethau mynd o'i le ac mae'n bosibl na fyddwn yn cael pethau'n iawn y tro cyntaf. Croesawn gwynion a darparwn amryw o ddulliau i'w gwneud hi'n bosibl i bobl gwyno. Mae ein taflen gwyno *Unioni pethau* yn esbonio'r drefn ac mae'n cynnwys manylion cyswllt llawn, gan ei gwneud hi'n haws i bobl gwyno yn bersonol, dros y ffôn neu drwy ysgrifennu (gan gynnwys ffacs ac e-bost). Mae ein gwefan yn cynnig modd i gwsmeriaid gwyno ar-lein ac mae hefyd yn cynnwys manylion cyswllt llawn. Hefyd mae rhif rhadffôn i gwsmeriaid sydd am ffonio Rheolwr Gwasanaeth Cwsmeriaid y Gofrestrfa Tir.

Mae cwynion yn agwedd bwysig ar adborth cwsmeriaid oherwydd gallant amlygu bylchau neu ddiffygion yn y gwasanaeth ac arwain at welliannau. Mae cwsmeriaid yn cael gwybod am y gwelliannau a wneir mewn ymateb i gwynion naill ai'n uniongyrchol neu drwy ein cylchlythyr cwsmeriaid, *Landnet*.

Yn 2007/8, derbyniwyd 3,037 o gwynion (17 y cant yn fwy nag yn 2006/7), ac o'r rhain ymatebwyd i 88 y cant o fewn ein targed o bum niwrnod, fel yn 2006/7.

Yn ystod y flwyddyn hon, cysylltwyd â'r Gofrestrfa Tir dair gwaith gan Swyddfa'r Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd. Roedd dau

o'r rhain yn ymholiadau rhagarweiniol oedd heb arwain at ymchwiliadau llawn. Ond roedd y trydydd wedi esgor ar ymchwiliad llawn. Roedd y gŵyn yn erbyn y Gofrestrfa Tir a'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol ar y cyd ac yn ymwneud â cheisiadau i gofrestru rhybuddiad a chyfyngiad. Ni chafodd y gŵyn yn erbyn y Gofrestrfa Tir ei chynnal.

**Yr Adolygydd Cwynion Annibynnol**
Mae'r Adolygydd Cwynion Annibynnol (ACA) yn cynnal ymchwiliadau amhleidiol i gwynion gan gwsmeriaid sy'n anfodlon â'r gwasanaeth a gawsant gan y Gofrestrfa Tir ac sydd heb gael eu bodloni gan ein trefn gwyno fewnol. Ym mis Mawrth 2008, roedd yr ACA Jodi Berg wedi ymddeol ar ôl 10 blynedd o wasanaeth ac fe'i holynwyd gan Elizabeth Derrington, cyn ddirprwy ACA. Mae Ms Derrington yn gyfreithiwr ac yn gyfryngwr cymwys gyda phrofiad eang ym maes datrys cwynion. Mae hefyd yn Ddyfarnwr Cwynion Annibynnol ar gyfer Ofsted yn ogystal ag ACA ar gyfer Asiantaeth Cyfiawnder Ieuenctid Gogledd Iwerddon.

Mae nifer yr achosion sy'n arwain at ymchwiliadau ffurfiol gan yr ACA yn parhau ar lefel isel ac, o'r ychydig gwynion hynny sy'n cael eu hymchwilio, dim ond dyrnaid sydd wedi cael eu cynnal.

Mae'r feirniadaeth adeiladol yn yr adroddiadau ar y cwynion hyn yn cael eu hystyried ac mae Tîm Gwerthuso ac Astudio'r ACA yn gweithredu ar hyn, tîm a sefydlwyd yn benodol i ystyried argymhellion yr ACA. Mae gwybodaeth am ei gyfarfodydd a'r camau a gymerwyd ar benderfyniadau'r ACA ar gael i holl staff y Gofrestrfa Tir ar ein mewnrwyd.

Mae manylion pellach i'w gweld yn adroddiad blynyddol yr ACA , sydd ar gael o swyddfa'r ACA.
New Premier House,
150 Southampton Row,
Llundain WC1B 5AL

Ffôn: 020 7278 6251
www.icrev.org.uk

Dim ond un ymateb ffurfiol gafodd ei roi yn ystod y flwyddyn, sef ymateb ffurfiol byr y Gofrestrfa Tir i adroddiad blynyddol yr ACA, yn cymeradwyo'r adroddiad hwnnw, a oedd yn canmol y Gofrestrfa Tir am ei hymateb rhagweithiol parhaus i gwynion.

**Y Gronfa Indemniad** (gweler y tabl ar dudalen 44)
Yn 2007/8, talwyd £9,110,218.85 ar gyfer 1,072 o geisiadau, o'i gymharu â £5,253,416.51 ar gyfer 873 o geisiadau yn 2006/7.

Gwelwyd cynnydd yn nifer y ceisiadau a'r swm a dalwyd o ganlyniad i dwyll, megis cofrestru trosglwyddiadau ac arwystlon twyllodrus. Talwyd £3,953,378.02 am 60 o geisiadau, cynnydd o £2,123,496.34 ar gyfer 24 o geisiadau yn 2006/7. Yn ystod y flwyddyn rydym wedi adolygu ein gweithdrefnau ac yn parhau i wneud hynny. Rydym wedi cyflwyno mesurau sy'n bwriadu atal twyll ym maes cofrestru.

## Hawliadau indemniad ar gyfer 2007/8

| Natur yr hawliad | Nifer yr hawliadau | Colled sylweddol | Costau | Canran y cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Stent teitlau cofrestredig | 360 | £750,244.31 | £879,272.43 | 17.89 |
| Camgymeriadau/hepgoriadau o gofnodion cofrestri | 148 | £1,795,681.27 | £326,818.24 | 23.30 |
| Camgymeriadau mewn cynlluniau amrywiol | 39 | £13,611.23 | £22,747.87 | 0.40 |
| Twyll a ffugio | 60 | £3,429,131.38 | £524,246.64 | 43.39 |
| Archwiliadau swyddogol o gynlluniau teitl | 11 | £20,000.00 | £8,579.83 | 0.31 |
| Camgymeriadau methdaliad | 1 | £0.00 | £18,628.94 | 0.20 |
| Chwiliadau swyddogol | 15 | £421,557.93 | £31,597.14 | 4.97 |
| Copïau swyddogol | 22 | £875.35 | £3,859.20 | 0.05 |
| Camgymeriadau mewn chwiliadau o'r map mynegai | 33 | £1,084.30 | £30,029.54 | 0.34 |
| Camgymeriadau mewn darnau wedi'u ffeilio | 51 | £89,651.52 | £29,294.07 | 1.31 |
| Dogfennau a gollwyd/ camgymeriadau gweinyddol | 331 | £40,805.41 | £157,113.50 | 2.17 |
| Camgymeriadau Pridiannau Tir | 1 | £450,000.00 | £65,388.75 | 5.66 |
| Cyfanswm | 1072 | £7,012,642.70 | £2,097,576.15 | 100.00 |
| Taliad gros | | | £9,110,218.85 | |
| Llai'r symiau a adenillwyd dan hawliau digolledu statudol y Gofrestrfa Tir | | | £72,535.89 | |
| Indemniad net | | | £9,037,682.96 | |

Adenillwyd £72,535.89 o dan ein hawliau digolledu statudol, o'i gymharu â £654,715.36 y flwyddyn ddiwethaf.

**Darparu cymorth hyfforddi i'n cwsmeriaid**
Y flwyddyn hon mae ein digwyddiadau hyfforddi mewn swyddfeydd lleol wedi parhau ar gyfer cwsmeriaid, gan gwmpasu'r sgiliau cofrestru craidd y mae eu hangen arnynt i weithio'n effeithiol â ni. Mae gwaith wedi cael ei wneud hefyd i baratoi ar gyfer digwyddiadau hyfforddi 2008 ar y pwnc ehangach o'r unigolyn preifat a'i gartref. Bydd hyn yn creu cyfle ar gyfer cynulleidfa ehangach o'r rhai a effeithir gan y gyfraith ac arfer cofrestru tir i elwa ar ddeunyddiau wedi'u teilwra gan ddwyn ynghyd gwahanol themâu. Hefyd mae'n rhoi cyfle iddynt siarad yn uniongyrchol â'n harbenigwyr ar faterion allweddol.

Mae gwahanol seminarau hefyd wedi delio ag anghenion mwy arbenigol y rhai sy'n ymwneud â delio â datblygu ystadau. Roedd deunyddiau wedi'u hanelu at y gynulleidfa ehangach o ddatblygwyr, eu penseiri, syrfewyr a thrawsgludwyr i geisio cael pethau'n iawn ar ddechrau'r broses creu dogfen.

Y nod yw cynnig budd i brynwyr eiddo newydd trwy'r profiad cyflymach a mwy effeithlon yn ystod y trafodiad a mwy o debygolrwydd o

geisiadau'n cael eu prosesu gan y Gofrestrfa Tir heb fod unrhyw angen am gais ar y diwedd. Mae hyn yn cyd-fynd â'r gwaith sy'n cael ei wneud mewn timau swyddfa lleol i adnabod gweithgarwch ar ddatblygu ystadau ar y cam cynharach posibl a delio ag unrhyw faterion posibl cyn bod unrhyw geisiadau i gofrestru wedi cael eu derbyn.

Mae'r Grŵp Addysg a Hyfforddiant hefyd wedi paratoi a dosbarthu llyfryn o gyflwyniadau wyneb yn wyneb ychwanegol sy'n cael eu rhedeg mewn lleoliadau ledled Cymru a Lloegr, sydd hefyd yn cael eu cynnig i gwmnïau fel seminarau mewnol. Yn wahanol i'r rhaglenni swyddfa lleol, sy'n cynnig lleoedd am ddim cyfyngedig i bob cwmni ar amser ac mewn lleoliad wedi'i drefnu ymlaen llaw, mae'r Gofrestrfa Tir yn codi tâl am y gwasanaeth hwn. Fel y dangoswyd eisoes yn ein gwaith ymchwil, ac fel mae lefelau neilltuo lle wedi profi, mae ein cwsmeriaid yn barod i dalu am hyfforddiant y Gofrestrfa Tir oherwydd eu bod yn gwerthfawrogi ein gallu i siarad am ein gweithdrefnau cyfredol a'r rhai sy'n cael eu datblygu.

Mae lefel y gweithgarwch ar y sesiynau hyfforddi hyn dan arweiniad cwsmeriaid wedi bod yn fwriadol o isel yn ystod blwyddyn gyntaf gweithredu. Bydd gwaith yn y flwyddyn i ddod yn adeiladu ar y dechrau addawol hwn i bennu lefel yr adnoddau a natur y gweithgareddau sy'n ofynnol i ateb anghenion ein cwsmeriaid yn y dyfodol.

**Y Gwasanaeth Gwybodaeth Tir Cenedlaethol**
Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth Tir Cenedlaethol (GGTC) yn wasanaeth masnachol gyda thair sianel sy'n cynnig chwiliadau ar-lein ac ymholiadau i gyfreithwyr a thrawsgludwyr trwyddedig ledled Cymru a Lloegr. Mae'r sianeli yn cystadlu yn y farchnadle ac yn gwahaniaethu eu gwasanaethau trwy becynnu a chyflwyno'r wybodaeth i weddu i'w cynulleidfa darged.

Mae chwiliadau'n cael eu hanfon yn electronig ac mae canlyniadau'n cael eu derbyn trwy foth GGTC, sy'n gweithredu fel porth ar gyfer gwybodaeth a gwasanaethau gan nifer o ddarparwyr data.

Mae'r Gofrestrfa Tir wedi cefnogi'r GGTC o'r cychwyn cyntaf ac rydym yn parhau i fod yn brif ddarparwr data, ochr yn ochr â chyrff eraill megis awdurdodau lleol a chwmnïau cyfleustodau.

Mae sianeli'r GGTC yn cynhyrchu incwm ffioedd o fwy na £630,000 bob mis i'r Gofrestrfa Tir.

**Connect Direct**
Mae Connect Direct, gwasanaeth gweddol newydd, yn darparu cysylltiadau busnes i fusnes ac mae wedi'i anelu'n fwriadol at gwmnïau chwilio eiddo, gan ddefnyddio sgema XML dros rwydwaith preifat rhithwir. Mae pum sefydliad ar wahân yn defnyddio'r gwasanaeth hwn ar hyn o bryd ac mae incwm ffioedd o fwy na £150,000 y mis eisoes yn cael ei ennill.

**Y Gwasanaeth Gwybodaeth Tir Ewropeaidd**
Mae'r Gofrestrfa Tir wedi parhau i chwarae rôl arweiniol yn natblygiad y Gwasanaeth Gwybodaeth Tir Ewropeaidd (GGTE), gwasanaeth newydd cyffrous ar gyfer Ewrop. Roeddem ymhlith y grŵp cyntaf o awdurdodau cofrestru tir i fynd yn fyw â'r gwasanaeth pan gafodd ei lansio'n swyddogol yn Nhachwedd 2006 yng nghynhadledd flynyddol Ffederasiwn Morgeisi Ewrop ym Mrwsel.

O ganlyniad, mae gwasanaethau gwybodaeth tir cenedlaethol Cymru a Lloegr, Lithwania, yr Iseldiroedd, Norwy, Sweden ac Iwerddon wedi'u cysylltu â'i gilydd ar-lein erbyn hyn, drwy borthol y GGTE. Disgwylir i 10 gwlad arall ymuno dros y flwyddyn nesaf.

Nod y GGTE yw darparu mynediad byd-eang rhwydd i wybodaeth tir ac eiddo electronig Ewropeaidd er mwyn hybu a bod yn sail i farchnad eiddo Ewropeaidd sengl.

Ein gweledigaeth gyffredin ar gyfer y dyfodol yw:
- bydd cwsmeriaid yn cael mynediad rhwydd i wybodaeth am eiddo unigol ledled Ewrop
- bydd mynediad rhwydd gan gwsmeriaid hefyd i'r holl wybodaeth gyfeirio angenrheidiol am y gwasanaethau cofrestru tir ac eiddo a ddarperir, a'r amgylchedd cyfreithiol cysylltiedig, ym mhob gwlad Ewropeaidd
- bydd holl wasanaethau cofrestru tir ac eiddo Ewropeaidd yn hygyrch drwy un porthol.

Mae'r gwasanaeth wedi cael ei sbarduno gan yr angen i chwalu'r rhwystrau i farchnad Ewropeaidd sengl ar gyfer benthyca morgeisi, sydd ar hyn o bryd yn digwydd bron yn gyfan gwbl o fewn ffiniau cenedlaethol.

Y brif farchnad ar gyfer y GGTE yw sefydliadau megis banciau, trawsgludwyr, gwerthwyr tai, datblygwyr eiddo, awdurdodau treth a'r heddlu. Bydd defnyddwyr yn mewngofnodi yn ôl yr arfer i'w darparwr gwybodaeth cofrestru tir cenedlaethol presennol er mwyn cyrchu porthol GGTE.

Mae'r cyfleuster hwn yn agor marchnad newydd ar gyfer gwybodaeth tir, oherwydd bydd cwsmeriaid y gwasanaethau cysylltiedig yn gallu cyrchu gwybodaeth tir o wasanaethau tebyg mewn gwledydd eraill.

**Y Grŵp Marchnata a Gwerthu**
Mae'r Grŵp Marchnata a Gwerthu wedi'i leoli ym Mhenbedw, Coventry, Croydon a Llundain. Amcanion y grŵp yw:
- hysbysu cwsmeriaid am eu hawliau a'u cyfrifoldebau a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ein gwasanaethau cyhoeddus a pholisïau
- meithrin perthynas â'n cwsmeriaid a cheisio mwy o fewnwelediad
- hybu gwasanaethau presennol
- adnabod cyfleoedd cynhyrchion a gwasanaeth newydd, gwerth ychwanegol
- datblygu cyfleoedd i fynd i'r farchnad
- annog cwsmeriaid i ddefnyddio cynhyrchion a gwasanaethau newydd.

## Alison Hollett, Swyddfa Penbedw (Old Market)

Mae bod yn rhan o'r tîm gwerthu "mor wahanol i'r gwaith bob dydd", meddai'r cyn weithiwr achos Alison Hollett.

Ymunodd Alison â'r Gofrestrfa Tir saith mlynedd yn ôl ar ôl gweithio yn y Gwasanaeth Cyflogaeth fel ymgynghorydd cleientiaid.

"Rwy'n berson sy'n mwynhau gweithio gyda phobl - rwy'n hoffi mynd allan a siarad â nhw," dywedodd Alison, a gafodd ei hysgogi i wneud cais am y swydd gwerthu ar ôl cael adborth gan ei chanolfan asesu Arweinwyr y Dyfodol. "Mae'n newid rôl llwyr i mi."

Roedd Alison wedi'i synnu ond yn falch i ganfod nad oedd disgwyl iddi 'actio' o gwbl gyda chleientiaid.

"Y prif beth sy'n cael ei gyfleu yn ystod yr hyfforddiant yw bod yn naturiol," meddai. "Mae pobl yn prynu oddi wrth bobl, os gallwch eu cael i ymddiried ynddoch. Mae'n eitha' calonogol gwybod nad oes rhaid i chi fabwysiadu rhyw bersona arall.

"Mae rheoli cyfrifon yn ymwneud â meithrin perthynas ond ar ddiwedd y dydd mae'n rhaid i chi werthu'r cynnyrch felly mae'n ymwneud â chynhyrchu busnes hefyd. Rhaid cael y cydbwysedd iawn. Nid ceisio gwerthu rhywbeth yn gyflym yw'r nod."

Mae'r Grŵp Marchnata a Gwerthu yn cydweithio â chwsmeriaid i sicrhau bod ein cynhyrchion a'n gwasanaethau yn cael eu datblygu, eu mireinio a'u lleoli i fodloni a rhagori ar ddisgwyliadau. Drwy feithrin perthynas tymor hir â chwsmeriaid a gwerthuso gweithgareddau, mae'r grŵp yn cael mewnwelediad gwerthfawr i gwsmeriaid ac eglurdeb am ein gwasanaethau.

Roedd cynlluniau'r Gofrestrfa Tir at y dyfodol wedi nodi'r angen i benodi rheolwyr cyfrifon i fod yn gyfrifol am berthynas y Gofrestrfa Tir â'i chwsmeriaid. Mae'r tîm gwerthu masnachol yn canolbwyntio ar werthiannau cynnyrch a gwasanaeth newydd ac mae'r timau eraill yn gyfrifol am wasanaethau statudol a chyflwyno e-drawsgludo.

Mae rheolwyr cyfrifon yn rheoli ac yn datblygu perthynas y Gofrestrfa Tir â thrawsgludwyr, rhoddwyr benthyg a chwsmeriaid eraill, gan ddarparu prif bwynt cyswllt. Ceisiant adeiladu perthynas gref a pharhaol â'n cwsmeriaid er mwyn creu ymwybyddiaeth ac awydd am gynhyrchion a gwasanaethau e-drawsgludo.

Mae'r incwm gros o werthiannau gwasanaeth cynnyrch gwerth ychwanegol wedi cynyddu o £1.8 miliwn yn y 12 mis i fis Mawrth 2007 i £3.2 miliwn yn yr un cyfnod i fis Mawrth 2008. Mae hyn wedi deillio o gynnydd cyson mewn gwasanaethau data (sy'n cynnwys data prisiau eiddo a pholygon) a thwf sylweddol mewn gwasanaethau ymgynghori ac electronig. Mae'r gwasanaethau hyn yn dadansoddi data i roi sicrwydd i gwsmeriaid o gywirdeb eu data eu hunain neu'n eu galluogi i wneud penderfyniadau mwy gwybodus.

Mae gwasanaethau ychwanegol fel Gwarchod Eiddo, Cyfateb Data a Gwarantu Arwystlon yn cael eu defnyddio gan gwsmeriaid megis gwerthwyr tai, cwmnïau adfer dyledion a rhoddwyr benthyg. Mae cyfres newydd o wasanaethau i drawsgludwyr wedi cael eu lansio hefyd i'w helpu i reoli a lleihau'r costau sy'n gysylltiedig â pharatoi ceisiadau cofrestru.

Mae datblygu cynhyrchion a gwasanaethau gwerth ychwanegol newydd yn cynnig budd i'n cwsmeriaid. Maent yn derbyn gwasanaethau sy'n ychwanegu gwerth at eu busnes ac maent yn bwriadu ateb eu hanghenion. Mae gan y Gofrestrfa Tir, trwy ei statws cronfa fasnachu, fwy o ryddid i gyllido buddsoddiad yn y dyfodol neu wella ansawdd ar draws pob un o'n gwasanaethau.

**E-drawsgludo**

Hyd nes bod gwasanaethau e-drawsgludo yn orfodol, bydd angen i'n rheolwyr cyfrif gyfleu manteision e-drawsgludo ac annog trawsgludwyr i ddefnyddio e-wasanaethau. Bydd angen cymorth pellach ar gwsmeriaid wrth iddynt newid o'r prosesau traddodiadol ar bapur i'r systemau electronig newydd.

Ein nod yw sicrhau bod cwsmeriaid yn gallu gwneud y gwasanaethau newydd yn rhan arferol o'u busnes cyn gynted â phosibl ac am y gost a'r cymhlethdod lleiaf posibl i'w hunain ac i'r Gofrestrfa Tir.

# Ein dyfodol

Fel rhan o'n hymgyrch i wneud trafodion eiddo yn haws i bawb, rydym wedi cynyddu mynediad electronig i wasanaethau a darparu gwasanaethau i bob un o'n cwsmeriaid. Mae hyn yn cynnwys ein gwasanaeth Cofrestrfa Tir Uniongyrchol i gwsmeriaid busnes a'r Gofrestr Tir Ar-lein, sy'n cynnig modd i'r cyhoedd weld cofrestri a chynlluniau teitl unigol trwy'r rhyngrwyd. Mae cyfanswm y ceisiadau sy'n cael eu prosesu trwy'r Gofrestrfa Tir Uniongyrchol, ein gwasanaeth electronig prysuraf o bell ffordd, yn ymdrin â mwy na 1.8 miliwn o geisiadau'r mis yn gyson. Mae'r Gofrestr Tir Ar-lein yn parhau i fod yn fwy poblogaidd gyda bron 100,000 o geisiadau am lawrlwythiadau bob mis.

Mae'r Gofrestrfa Tir wedi gwneud cynnydd mawr gyda'r gwaith o ddatblygu'r hyn a gredwn fydd y system trawsgludo electronig mwyaf pellgyrhaeddol yn y byd. Roedd Deddf Cofrestru Tir 2002 wedi troedio'r ffordd ar gyfer trawsgludo electronig yng Nghymru a Lloegr. Mae'r rhaglen waith i gyflwyno hyn yn cael ei harwain gan y Gofrestrfa Tir ac yn ceisio defnyddio datblygiadau mewn technoleg drwy greu system sy'n lleihau'r oedi a'r pryder a brofir yn aml yn y broses prynu cartref. Mae e-drawsgludo yn golygu trawsffurfio'r system trawsgludo ar bapur gyfredol yn system electronig, gan ddefnyddio dogfennau, ceisiadau a llofnodion electronig, ac mae'n rhan annatod o Raglen Trawsffurfio Busnes y Gofrestrfa Tir.

Ym mis Medi 2007 cyhoeddwyd fersiwn diwygiedig o'n Glasbrint sefydliadol i gynnwys y penderfyniadau allweddol a wnaed ers iddo gael ei gyhoeddi gyntaf yn 2006. Mae'r ddogfen yn esbonio sut y bydd y Gofrestrfa Tir yn cyflwyno ystod estynedig o wasanaethau i'w hystod gynyddol o gwsmeriaid dros y degawd nesaf. Mae'r fersiwn newydd hwn yn atgyfnerthu'r neges ynghylch sut y byddwn yn gweithredu fel y sefydliad y credwn y mae angen i ni fod ac mae'n disgrifio model busnes newydd ar gyfer y Gofrestrfa Tir sy'n:
— cynnwys cofrestr fwy cynhwysfawr
— darparu ar gyfer e-drawsgludo ar gyfer deliadau â'r cyfan a'r rhan
— parhau i ddarparu gwasanaethau cofrestru a gwybodaeth traddodiadol
— darparu ystod newydd o wasanaethau anstatudol (masnachol)
— parhau i gynnig gwasanaethau cymorth cwsmeriaid rhagorol.

Roedd Bwrdd y Gofrestrfa Tir wedi penderfynu ym mis Rhagfyr 2007 i ganolbwyntio adnoddau ar ryddhadau, arwystlon a throsglwyddiadau electronig - gan felly awtomeiddio ein busnes craidd o gofrestru tir fel y flaenoriaeth yn y rhaglen e-drawsgludo. Cafodd y penderfyniad ei ddylanwadu gan adborth gwerthfawr gan ein cwsmeriaid yn dilyn prototeip o'r Cadwyn Matrics, a barodd am chwe mis. Gan fod Trosglwyddo Cronfeydd Electronig (TCE) yn dibynnu ar y Gadwyn Matrics mae gwaith pellach ar hyn wedi'i ohirio hefyd.

Mae'r Gofrestrfa Tir yn parhau'n ymrwymedig i'r Gadwyn Matrics a TCE, ond mae technoleg newydd yn golygu nad oes unrhyw warant y byddwn yn elwa o'r gwaith datblygu a wnaed eisoes.

O ganlyniad nid yw'n bosibl cyfateb gwariant datblygu â chynhyrchu incwm yn y dyfodol. Y cam cywir i'w gymryd yw dileu gwariant

datblygu sydd wedi codi ar y Gadwyn Matrics  a TCE yn unol ag adran 29 y Datganiad o Arferion Cyfrifyddu Safonol - *Cyfrifyddu ar gyfer ymchwil a datblygu*, a'i godi i'r cyfrif incwm a gwariant yn 2007/8.

Bydd y Rhaglen Trawsffurfio Busnes yn arolygu ac yn gyrru'r gwaith o wireddu ein Glasbrint ar gyfer y dyfodol.  Dros y ddwy i dair blynedd nesaf, bwriedir i'r rhaglen gyflwyno arwystlon electronig (morgeisi), sef y ffocws ar gyfer 2008, a throsglwyddiadau electronig yn ystod 2009; polisïau newydd ac arferion gweithredu i gefnogi'r model busnes newydd ynghyd â mesurau perfformiad newydd; y porthol, hynny yw, un wefan ar gyfer cyrchu pob un o'r e-wasanaethau; a model newydd ar gyfer ein gwasanaethau cymorth mewnol, yn arbennig AD rhanbarthol a swyddogaeth Systemau Gwybodaeth wedi'i gweddnewid.

Yn ystod mis Chwefror 2008, roedd y Gofrestrfa Tir wedi cwblhau'r seremoni llofnodi allwedd e-ddiogelwch, gan droedio'r ffordd i lofnodion electronig gael eu defnyddio trwy'r broses trawsgludo a thu hwnt.

# Cyfrifon

# Tystysgrif ac Adroddiad Rheolwr ac Archwiliwr Cyffredinol y Senedd

Tystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol y Gofrestrfa Tir am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2008 o dan Ddeddf Cronfeydd Masnachu'r Llywodraeth 1973. Mae'r rhain yn cynnwys y cyfrif incwm a gwariant, y fantolen, y datganiad llif arian a'r datganiad o gyfanswm enillion a cholledion cydnabyddedig a'r nodiadau cysylltiedig. Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi cael eu paratoi o dan y polisïau cyfrifyddu a nodwyd ynddynt. Hefyd rwyf wedi archwilio'r wybodaeth yn yr adroddiad tâl a ddisgrifir yn yr adroddiad hwnnw fel adroddiad sydd wedi'i archwilio.

**Cyfrifoldebau priodol y Gofrestrfa Tir, Prif Weithredwr/Swyddog Cyfrifyddu ac Archwiliwr**

Mae'r Gofrestrfa Tir a'r Prif Weithredwr fel y Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynyddol, sy'n cynnwys yr adroddiad tâl, a'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Cronfeydd Masnachu'r Llywodraeth 1973 a chyfarwyddiadau'r Trysorlys a wnaed o dan y Ddeddf honno ac am sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol. Mae'r cyfrifoldebau hyn wedi'u nodi yn y datganiad o gyfrifoldebau'r gronfa fasnachu a'r Prif Weithredwr/Swyddog Cyfrifyddu.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r adroddiad tâl sydd i'w archwilio yn unol â gofynion cyfreithiol a rheoleiddio perthnasol, ac yn unol â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU ac Iwerddon).

Adroddaf fy marn i chi ar y datganiadau ariannol ac a ydynt yn rhoi darlun gwir a theg ac a yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r adroddiad tâl sydd i'w harchwilio wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf Cronfeydd Masnachu'r Llywodraeth 1973 a chyfarwyddiadau'r Trysorlys a wnaed o dan y Ddeddf honno. Adroddaf i chi a yw, yn fy marn i, yr wybodaeth sy'n cynnwys y rhagair gan y Prif Weithredwr, sylwadau'r rheolwyr, yr adroddiad tâl a'r atodiadau, sydd wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol, yn cyfateb â'r datganiadau ariannol. Adroddaf hefyd a yw'r gwariant a'r incwm, ym mhob agwedd berthnasol, wedi cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac a yw'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Hefyd, adroddaf i chi os nad yw'r Gofrestrfa Tir wedi cadw cofnodion cyfrifyddu priodol, os nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad, neu os yw'r wybodaeth a bennwyd gan y Trysorlys ynghylch tâl a thrafodion eraill heb ei datgelu.

Adolygaf a yw'r datganiad ar reolaeth fewnol yn adlewyrchu cydymffurfiaeth y Gofrestrfa Tir â chanllawiau'r Trysorlys, ac adroddaf os nad yw'n gwneud hynny. Nid yw'n ofynnol i mi ystyried a yw'r datganiad hwn yn cwmpasu'r holl risgiau a rheolaethau, na ffurfio barn ynghylch effeithiolrwydd gweithdrefnau llywodraethu corfforaethol y Gofrestrfa Tir na'i gweithdrefnau risg a rheolaeth.

Darllenaf yr wybodaeth arall sydd wedi'i chynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol, gan ystyried a yw'n gyson â'r datganiadau ariannol a archwiliwyd. Ystyriaf y goblygiadau i'm hadroddiad os wyf yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau amlwg neu anghysondebau perthnasol â'r datganiadau ariannol. Nid yw fy nghyfrifoldebau yn ymestyn i unrhyw wybodaeth arall.

**Sail y farn archwiliad**
Gweinyddwyd fy archwiliad yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU ac Iwerddon) a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae fy archwiliad yn cynnwys ystyried, ar sail prawf, dystiolaeth sy'n berthnasol i symiau, datgeliadau a rheoleidd-dra trafodion ariannol sydd wedi'u cynnwys yn y datganiadau ariannol a'r rhan o'r adroddiad tâl sydd i'w harchwilio. Mae hefyd yn cynnwys asesu'r prif amcangyfrifon a barnau a wnaed gan y Gofrestrfa Tir a'r Prif Weithredwr/Swyddog Cyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol, ac ystyried a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau'r Gofrestrfa Tir, yn cael eu dilyn yn gyson a'u datgelu'n ddigonol.

Cynlluniais a chyflawnais fy archwiliad er mwyn cael yr holl wybodaeth ac esboniadau yr oedd eu hangen, yn fy marn i, i roi tystiolaeth ddigonol er mwyn gallu rhoi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol a'r rhan o'r adroddiad tâl sydd i'w harchwilio yn rhydd o unrhyw gamddatganiad perthnasol, boed drwy gamgymeriad neu drwy dwyll, ac ym mhob agwedd berthnasol fod y gwariant a'r incwm wedi cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Wrth lunio fy marn, yr wyf hefyd wedi gwerthuso a yw'r wybodaeth a gyflwynir yn y datganiadau ariannol a'r rhan o'r adroddiad tâl sydd i'w harchwilio yn ddigonol yn gyffredinol.

**Barn**
Yn fy marn i:
— mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg, yn unol â Deddf Cronfeydd Masnachu'r Llywodraeth 1973 a'r cyfarwyddiadau a wnaed o dan y Ddeddf gan y Trysorlys, o gyflwr busnes y Gofrestrfa Tir ar 31 Mawrth 2008 a'i gwarged am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny
— mae'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r adroddiad tâl sydd i'w harchwilio wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf Cronfeydd Masnachu'r Llywodraeth 1973 a chyfarwyddiadau'r Trysorlys a wnaed o dan y Ddeddf honno
— mae'r wybodaeth a roddwyd o fewn yr Adroddiad Blynyddol, sy'n cynnwys y rhagair gan y Prif Weithredwr, sylwadau'r rheolwyr, yr adroddiad tâl a'r atodiadau, yn cyfateb â'r datganiadau ariannol.

**Barn archwiliad ar reoleidd-dra**
Yn fy marn i, ym mhob agwedd berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm wedi cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

**Adroddiad**
Nid oes unrhyw sylwadau gennyf i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

T J Burr
Rheolwr ac Archwiliwr Cyffredinol
Swyddfa Archwilio Genedlaethol
151 Buckingham Palace Road
Victoria
Llundain
SWIW 9SS
30 Mehefin 2008

# Datganiad o gyfrifoldebau'r gronfa fasnachu a'r Swyddog Cyfrifyddu

O dan Adran 4(6) o Ddeddf Cronfeydd Masnachu'r Llywodraeth 1973, mae'r Trysorlys wedi cyfarwyddo'r Gofrestrfa Tir i baratoi datganiad o gyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol ar ffurf ac ar sail a bennir yn y Cyfarwyddyd Cyfrifon y cyfeirir ato yn nodyn 1.1 ar dudalen 70. Mae'r cyfrifon yn cael eu paratoi ar sail croniadau a rhaid iddynt roi darlun gwir a theg o gyflwr busnes y Gofrestrfa Tir a'i hincwm a'i gwariant, enillion a cholledion cydnabyddedig, a llifoedd arian am y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth ac yn arbennig:

- dilyn y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan y Trysorlys, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a dilyn polisïau cyfrifyddu addas yn gyson
- llunio barnau ac amcangyfrifon sy'n rhesymol
- datgan a yw safonau cyfrifyddu cymwys fel a bennwyd yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth wedi cael eu dilyn, a datgelu ac esbonio unrhyw wyriadau perthnasol yn y datganiadau ariannol
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol.

Mae'r Trysorlys wedi penodi Prif Weithredwr y Gofrestrfa Tir fel y Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer y gronfa fasnachu. Mae cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys cyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra arian cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn atebol amdano, am gadw cofnodion priodol ac am ddiogelu asedau'r Gofrestrfa Tir, i'w gweld yn y *Memorandwm Swyddogion Cyfrifyddu* sy'n cael ei baratoi gan y Trysorlys a'i gyhoeddi yn *Managing Public Money*.

# Datganiad ar reolaeth fewnol 2007/8

**1 Maes cyfrifoldeb**

Fel y Swyddog Cyfrifyddu, yr wyf yn gyfrifol am gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n gymorth i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion y Gofrestrfa Tir, a bennwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder a'r Arglwydd Ganghellor, ac ar yr un pryd ddiogelu'r cronfeydd cyhoeddus a'r asedau adrannol yr wyf i'n bersonol yn gyfrifol amdanynt, yn unol â'r cyfrifoldebau a roddwyd i mi yn *"Managing Public Money"*.

Yr wyf yn adrodd am berfformiad y Gofrestrfa Tir ac unrhyw faterion sydd i'w hystyried yn y dyfodol i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder a'r Arglwydd Ganghellor bob chwe mis. Mae pob adroddiad ysgrifenedig yn cael ei ddilyn gan gyfarfod rhyngof i, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder a'r Arglwydd Ganghellor, swyddogion o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ac, os bydd ymrwymiadau eraill yn caniatáu, yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol sy'n gyfrifol am waith y Gofrestrfa Tir o ddydd i ddydd.

Mae'r broses monitro perfformiad yn cynnwys asesiad o unrhyw bryder ynghylch gallu i gyflawni amcanion strategol y Gofrestrfa Tir fel y manylir yn ei chynllun busnes blynyddol. Os yw unrhyw fater a allai newid yn sylweddol asesiad risg y Gofrestrfa Tir o gyflawni unrhyw un o'i hamcanion strategol yn dod i'r amlwg rhwng yr adroddiadau dwyflynyddol hyn, byddai cyflwyniad yn cael ei wneud i'r Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol yn y lle cyntaf.

**2 Pwrpas y system rheolaeth fewnol**

Pwrpas y system rheolaeth fewnol yw rheoli risg i lefel resymol yn hytrach na dileu pob risg o fethu â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion; felly gall ddarparu sicrwydd rhesymol yn unig ac nid sicrwydd llwyr o effeithiolrwydd. Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus sy'n ceisio adnabod a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion adrannol, gwerthuso a yw'r risgiau hynny yn debygol o gael eu gwireddu a'r effaith y byddent yn ei chael os cânt eu gwireddu, a'u rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn economaidd. Mae'r system rheolaeth fewnol wedi bod yn weithredol yn y Gofrestrfa Tir ers y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2002 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a chyfrifon yma, ac mae'n unol â chyfarwyddyd y Trysorlys.

**3 Gallu i drin risg**

Fel y Swyddog Cyfrifyddu, cydnabyddaf fy mod yn bennaf gyfrifol am reoli risgiau yn effeithiol trwy'r Gofrestrfa Tir. Fodd bynnag, fel cyfrifoldeb rheolaeth, rwy'n dirprwyo'n ffurfiol y cyfrifoldeb am reolaeth fewnol a digonolrwydd trefniadau sicrwydd, ar gyfer llywodraethu corfforaethol cyfan, i Gyfarwyddwyr unigol y Gofrestrfa Tir; ac maent yn cyflwyno'n flynyddol ddatganiad i mi sy'n cadarnhau bod system effeithiol o reolaeth fewnol ar gyfer rheoli risg mewn lle ac yn gweithio o fewn eu maes cyfrifoldeb.

Mae risgiau strategol arwyddocaol i'r sefydliad yn cael eu hystyried

gan Fwrdd y Gofrestrfa Tir, sy'n cynnwys dau gyfarwyddwr anweithredol. Fel hyrwyddwr risg y Bwrdd, mae'r Cyfarwyddwr Cyllid yn cadeirio'r Bwrdd Risg Busnes, sy'n sicrhau bod risgiau busnes allweddol yn cael eu hadnabod a'u rheoli.

Mae polisi rheoli risg y Gofrestrfa Tir yn cael ei adolygu'n achlysurol a'i ddiweddaru. Mae nodiadau canllaw rheoli risg yn ategu'r polisi ac ar gael i bob aelod staff yn electronig ar fewnrwyd y Gofrestrfa Tir.

Yn dilyn cyhoeddi ein Glasbrint, yn ystod Mehefin 2007, roedd y Bwrdd wedi ystyried y trefniadau llywodraethu ar gyfer pob un o'i mentrau newid a daeth i'r casgliad y dylai'r Gofrestrfa Tir gyfuno ei strwythurau rhaglen amrywiol. O ganlyniad, mae strwythur llywodraethu newydd wedi cael ei gyflwyno, ac erbyn hyn mae pob prosiect yn cael ei resymoli o dan ddwy raglen newydd; y Rhaglen Trawsffurfio Busnes, sy'n arolygu ac yn gyrru'r gwaith o wireddu ein Glasbrint ar gyfer y dyfodol, a'r Rhaglen Effeithiolrwydd Busnes, sy'n gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd ein model busnes cyfredol. Yn ogystal, yn dilyn adolygiad o reolaeth risg i raglenni mewn gweithdy a fynychwyd gan uwch reolwyr, mae fframwaith syml ond tynn a thryloyw ar gyfer rheoli risg wedi cael ei gyflwyno.

Mae'r Gofrestrfa Tir yn adolygu ei gweithdrefnau i fynd i'r afael â thwyll yn gyson, a gydnabyddir gan y Bwrdd Gweithredol fel un o brif flaenoriaethau'r sefydliad. Ym mis Gorffennaf 2007, cymeradwyodd y Bwrdd strategaeth wrth-dwyll gynhwysfawr, wedi'i hargymell gan Uned Twyll Cofrestru'r Gofrestrfa Tir, ac mae gweithredu'r strategaeth yn gyfrifoldeb y Bwrdd Indemniad. Hefyd, mae'r Gofrestrfa Tir yn cydweithio â'r heddlu a sefydliadau eraill i fireinio ei strategaeth dwyll a datblygu ei harbenigedd yn y maes hwn. At hynny, mae'n adolygu'n barhaus y rheolaeth diogelwch a'r cyfyngiadau mynediad sydd mewn lle i atal trosglwyddo teitlau tir yn dwyllodrus ac atal y gofrestr ar-lein rhag cael ei chamddefnyddio a'i chyrchu'n anghyfreithlon. Ar 5 Tachwedd 2007, roedd y Gofrestrfa Tir wedi tynnu'n ôl mynediad i ddogfennau sydd ar gael yn electronig trwy'r Gofrestrfa Tir Ar-lein fel cam cadarnhaol at helpu lleddfu'r risg o gamarfer.

O ganlyniad i Ddeddf Dynladdiad Corfforaethol a Lladd Corfforaethol 2007, a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2008, mae'r Comisiwn Iechyd a Diogelwch ar y cyd â Sefydliad y Cyfarwyddwyr wedi cynhyrchu canllaw ar weithrediadau arweinwyr i gynorthwyo cyfarwyddwyr a byrddau i ddeall eu cyfrifoldebau. Er bod y Gofrestrfa Tir yn gweithredu system rheoli ar gyfer iechyd a diogelwch ar hyn o bryd sy'n bodloni'n sylweddol y safonau a hybir gan y canllaw hwn, roedd dadansoddiad bwlch wedi tynnu sylw at nifer o feysydd lle y gellid gwneud gwelliannau, ac mae camau wedi cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r rhain o dan arweinyddiaeth ein Cyfarwyddwr AD.

Yn dilyn cyhoeddi canllaw Swyddfa'r Cabinet ym mis Chwefror 2008 ar weithdrefnau trin data mewn llywodraeth, roedd y Gofrestrfa Tir wedi cynnal adolygiad trylwyr o'i rheolaethau mewnol ar gyfer rheoli risg i wybodaeth, a chymryd camau i sicrhau ei bod yn cydymffurfio'n llawn â'r mesurau lleiaf penodol i ddiogelu gwybodaeth bersonol. Fel Uwch

Berchennog Risg Gwybodaeth y Gofrestrfa Tir, mae'r Cyfarwyddwr Systemau Gwybodaeth yn rhoi cyngor ysgrifenedig i mi yn rhinwedd fy swydd fel swyddog cyfrifyddu ar ddigonolrwydd rheolaethau mewnol sy'n ymwneud â risg i wybodaeth, gan gynnwys cadarnhau ein hardystiad fel sefydliad sy'n cydymffurfio ag ISO 27001. Gallaf gadarnhau'r canlynol:

— Mae polisi risg gwybodaeth gan y Gofrestrfa Tir, a gwmpasir gan ein polisi Rheolaeth Diogelwch, Diogelwch TG a pholisïau ategol eraill.
— Mae risgiau i gyfrinachedd, unplygrwydd ac argaeledd gwybodaeth yn y gadwyn gyflwyno yn cael eu hasesu'n gyson a'u hadrodd yn fisol trwy ein Bwrdd Rheolaeth SG a bob tri mis trwy ein Bwrdd Risg Busnes.
— Mae effeithiolrwydd rheoli'r risgiau hyn yn cael eu hasesu'n gyson gan ein swyddogaeth Archwilio Mewnol ac yn cael ei adrodd i'n Pwyllgor Archwilio.
— Mae ein systemau Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu wedi cael eu hachredu gan ymgynghorydd Cynllun Ymgynghorwyr Rhestredig (CLAS)[1] y Grŵp Diogelwch Electroneg Cyfathrebu. (CESG)[2].
— Mae ein hasedau gwybodaeth wedi adnabod perchnogion ac asesiadau risg.
— Mae ein systemau rheoli rheolaethau mynediad yn darparu mynediad seiliedig ar rôl i wybodaeth. Bydd unigolion yn cael rolau sy'n briodol i angen busnes.
— Mae adrodd am ddigwyddiadau risg gwybodaeth yn unol â pholisi'r Llywodraeth wedi'i gynnwys o fewn ein polisïau a chyfarwyddiadau penodol o fewn Gweithdrefnau Gweithredu Diogelwch systemau perthnasol.
— Rheolir digwyddiadau diogelwch gan ein staff SG medrus a'u monitro gan ein Pwyllgor Diogelwch TG, sy'n adrodd i'n Bwrdd Risg Busnes.
— Mae data personol wedi cael eu hadnabod a'u cofnodi gyda'n Swyddfa Diogelu Data.
— Mae data personol yn cael eu dal mewn ystafelloedd gweinydd diogel o fewn adeiladau diogel, heb fod unrhyw ofyniad am fynediad o bell. Mae'r gallu i dreiddio diogelwch yn cael ei brofi gan arbenigwyr annibynnol.

**4 Y fframwaith risg a rheolaeth**

Mae cyfarwyddwyr ac uwch reolwyr eraill y Gofrestrfa Tir yn arwain rheolaeth risg yn eu meysydd. Yn arbennig, maent yn gyfrifol am roi mewn lle system rheolaeth ar gyfer adnabod yn systematig, asesu a rheoli'r risgiau i gyflwyno eu gwaith a'u targedau allweddol. Mae risgiau'n cael eu hadnabod a'u gwerthuso yng nghyd-destun eu heffaith bosibl ar gyflawni amcanion ac yn cael eu rheoli ar y lefel y mae gan staff yr awdurdod, y cyfrifoldeb a'r adnoddau i weithredu. Mae'n ofynnol i staff a rheolwyr adnabod risgiau newydd neu gynyddol a chyfleoedd fel rhan o'u proses adrodd am berfformiad arferol.

[1] Mae CLAS yn bartneriaeth sy'n cysylltu gwybodaeth Sicrwydd Gwybodaeth unigryw y CESG gydag arbenigedd ac adnoddau'r sector preifat.
[2] CESG yw braich Sicrwydd Gwybodaeth (SG) GCHQ a dyma Awdurdod Technegol Cenedlaethol y Llywodraeth ar gyfer sicrwydd gwybodaeth gan alluogi rhannu gwybodaeth yn ddiogel a gyda sicrwydd, sy'n helpu ei gwsmeriaid i gyflawni eu nodau.

Mae rheoli risg yn rhan annatod o raglen a rheolaeth prosiectau'r Gofrestrfa Tir, ac mae'r cyfrifoldeb amdano wedi'i freinio mewn Uwch Berchnogion sy'n Gyfrifol. Rheolir rhaglenni a phrosiectau yn unol â chanllawiau Swyddfa Masnach y Llywodraeth ac fe'u hadolygir o dan broses Porth y llywodraeth.

Mae risgiau'n cael eu hadolygu, mae effeithiolrwydd mesurau rheoli risg a'u heffaith ar risg gweddilliol yn cael ei fonitro, ac mae newidiadau'n cael eu hadnabod a'u gwerthuso trwy gydol y flwyddyn fel rhan o weithgarwch rheoli arferol. Mae perchnogion risg yn cynnwys adroddiadau ar ymdrin â risg gweithredol fel rhan o'u hadroddiadau stiwardiaeth ehangach. Mae Bwrdd y Gofrestrfa Tir yn dyrannu'r gwaith o reoli risgiau strategol i gyfarwyddwyr enwebedig sy'n adrodd yn ôl fel y bo'n briodol trwy gydol y flwyddyn.

Er bod archwaeth risg y Gofrestrfa Tir yn amrywio yn ôl y pwysigrwydd y risgiau a'u hamseriad, bydd yr holl risgiau sydd ag effaith fawr ar ei pherfformiad; stiwardiaeth o'i chofrestr, cronfeydd cyhoeddus a'r amgylchedd; neu ei henw da neu enw da'r llywodraeth yn gyffredinol yn cael sylw rheolaeth canolbwyntiedig, cost wedi'i chyfiawnhau, a lle y bo'n briodol bydd camau pellach yn cael eu cymryd trwy gadwyn o reolaeth i'r Weinidogaeth Cyfiawnder a Gweinidogion.

Rwy'n cynnal cyfarfodydd ddwywaith y flwyddyn â Gweinidogion lle mae risgiau gweithredol yn cael eu trafod. Derbyniant adroddiadau ar risgiau i gyflawni dangosyddion perfformiad allweddol, targedau ac amcanion strategol trwy adroddiadau ddwywaith y flwyddyn.

Rwy'n ymwybodol iawn bod risgiau i randdeiliaid cyhoeddus yn codi o sawl agwedd ar ddatblygu a gweithredu trawsgludo electronig. Wrth ddatblygu mentrau newid newydd, mae'r Gofrestrfa Tir yn cynnwys y cyhoedd mewn rheolaeth risg trwy'r broses ymgynghori arferol. Bydd fy aelodau staff uwch a minnau yn cwrdd â grwpiau o randdeiliaid ac yn ystyried eu barn ar risgiau i'w buddiannau yn y cyfarfodydd hyn. Mae'r risgiau i gamddefnyddio ein cofrestr ar-lein a'i chyrchu'n anghyfreithlon yn cael eu rheoli trwy ddatblygu strategaeth wrth-dwyll yn seiliedig ar farnau nifer o'n rhanddeiliaid.

**5 Adolygu effeithiolrwydd**

Fel y Swyddog Cyfrifyddu, yr wyf yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Mae fy adolygiad o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol yn cael ei lywio gan waith yr archwilwyr mewnol a'r rheolwyr gweithredol o fewn y Gofrestrfa Tir sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth fewnol, a sylwadau'r archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac adroddiadau eraill. Y flwyddyn hon mae Datganiad Sicrwydd gan bob Cyfarwyddwr y Gofrestrfa Tir, yn datgan bod system effeithiol o reolaeth fewnol ar gyfer rheoli risg mewn lle ac yn gweithio, hefyd wedi llywio fy adolygiad.

Yn ogystal, mae rhaglen dreigl o adroddiadau sicrwydd sy'n cwmpasu diogelwch systemau corfforol a gwybodaeth, iechyd a diogelwch, ynni a'r amgylchedd, amrywiaeth a pharhad busnes yn llywio fy adolygiad.

Mae Bwrdd y Gofrestrfa Tir, y Pwyllgor Archwilio a'r Bwrdd Risg Busnes wedi fy hysbysu am oblygiadau canlyniad fy adolygiad o effeithiolrwydd y system o reolaeth fewnol. Mae mesurau i fynd i'r afael â gwendidau a sicrhau gwelliant parhaus i'r system mewn lle.

Mae fy Mhennaeth Archwilio Mewnol yn darparu adroddiadau rheolaidd ar y materion risg a rheolaeth allweddol, i safonau wedi'u diffinio yn y llawlyfr *Archwilio Mewnol y Llywodraeth*, ac yn rhoi barn annibynnol flynyddol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd system y Gofrestrfa Tir o reolaeth fewnol ynghyd ag argymhellion ar gyfer gwella. Mae adroddiadau Archwilio Mewnol Unigol yn cael eu dosbarthu i Fwrdd y Gofrestrfa Tir a'r Pwyllgor Archwilio.

Barn Pennaeth Archwilio Mewnol am y flwyddyn 2007/8 yw bod effeithiolrwydd system rheolaeth fewnol y Gofrestrfa Tir yn foddhaol. Yn ei farn ef, nid oes unrhyw wendidau arwyddocaol sydd wedi'u cynnwys o fewn cwmpas y materion y dylid eu hadrodd yn y Datganiad ar Reolaeth Fewnol. Mae'n cefnogi mentrau arfaethedig i gryfhau ein trefniadau rheoli risg ac mae'n adrodd bod camau i unioni pryderon eraill sydd wedi'u hadnabod gan archwilio mewnol yn mynd rhagddynt.

At ei gilydd, yr wyf yn fodlon ag effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol yn y Gofrestrfa Tir.

Peter Collis
Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr

# Adroddiad tâl

**Polisi tâl i uwch weision sifil**

Mae tâl uwch weision sifil yn cael ei bennu gan y Prif Weinidog yn dilyn cyngor annibynnol gan Gorff Adolygu Cyflogau Uwch. Wrth lunio ei argymhellion, mae'r Corff Adolygu yn ystyried y canlynol:

— yr angen i recriwtio, cadw a chymell pobl sy'n meddu ar y gallu a'r cymwysterau addas i gyflawni eu cyfrifoldebau gwahanol
— amrywiadau rhanbarthol/lleol mewn marchnadoedd llafur a'u heffaith ar recriwtio a chadw staff
— polisïau'r Llywodraeth ar gyfer gwella gwasanaethau cyhoeddus gan gynnwys y gofyniad i adrannau gyrraedd y targedau allbwn ar gyfer darparu gwasanaethau adrannol
— y cronfeydd sydd ar gael i adrannau fel y pennwyd yn nherfynau gwariant adrannol y Llywodraeth
— targed chwyddiant y Llywodraeth.

Mae'r corff adolygu yn ystyried y dystiolaeth a dderbynnir am ystyriaethau economaidd ehangach ac a yw ei argymhellion yn fforddiadwy.

Mae mwy o wybodaeth am waith y corff adolygu i'w gweld yn www.ome.uk.com.

Mae dau Bwyllgor Tâl Uwch Wasanaeth Sifil (UWS), sy'n gweithredu ar awdurdod Bwrdd y Gofrestrfa Tir, yn ystyried yr argymhellion tâl a ddarperir gan y rheolwyr llinell, ac yn penderfynu sut y caiff bonysau eu dosbarthu yn yr adolygiad tâl blynyddol ar gyfer staff y Gofrestrfa Tir yn yr UWS, yn unol â'r cyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Cabinet.

Mae'r tâl sylfaenol a'r bonysau yn dibynnu ar berfformiad, sy'n cael ei asesu trwy system arfarnu flynyddol i uwch weision sifil, ac mae mwy o fanylion i'w gweld yn www.civilservice.gov.uk

Yn ystod y flwyddyn, aelodau'r Pwyllgor Tâl oedd yn delio â band tâl 1 UWS oedd: Mike Cutt (Cadeirydd), Ted Beardsall, Andy Howarth a Joe Timothy ac ar gyfer y pwyllgor tâl yn delio â band tâl 2 UWS: Mike Cutt (Cadeirydd) a David Rigney.

**Polisi tâl i weision sifil eraill**

Mae tâl staff y Gofrestrfa Tir nad ydynt ar raddau UWS yn cael ei bennu o dan delerau'r Cytundeb Tâl, a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 1995. O dan y cytundeb hwn, mae tâl yn cael ei bennu bob blwyddyn yn dilyn trafodaethau ac ymgynghori rhwng y Gofrestrfa Tir a'r undebau, ac mae'n amodol ar gymeradwyaeth y Trysorlys.

Yn 2007/8, i berfformwyr boddhaol a fu ar y radd am flwyddyn, roedd y codiad cyflog yn cynnwys dilyniant gwarantedig o un cam i fyny'r band tâl ac adbrisio'r band tâl. I berfformwyr boddhaol gyda llai nag un flwyddyn o wasanaeth ar y radd roedd y codiad cyflog yn cynnwys adbrisio tâl. Hefyd, roedd bonws anghyfunol cysylltiedig â pherfformiad i bob aelod staff oedd yn derbyn y marciau arfarnu uchaf.

**Contractau gwasanaeth**
Mae penodiadau Gwasanaeth Sifil yn cael eu gwneud yn unol â Chod Recriwtio Comisiynwyr y Gwasanaeth Sifil, sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i benodi ar sail teilyngdod a chystadleuaeth deg ac agored.

Mae pob un o'r cyfarwyddwyr a gwmpesir gan yr adroddiad hwn yn cael ei benodi am gyfnod penagored nes eu bod yn cyrraedd oedran ymddeol arferol sef 60 oed. Byddai terfynu'r contract yn gynnar, heblaw ar sail camymddwyn, yn golygu bod yr unigolyn yn cael ei ddigolledu fel y pennir yng Nghynllun Digolledu'r Gwasanaeth Sifil.

I gael mwy o wybodaeth am waith Comisiynwyr y Gwasanaeth Sifil, ewch i www.civilservicecommissioners.gov.uk

**Hawliau cyflog a phensiwn**

| | Cyflog, gan gynnwys tâl perfformiad | | Cynnydd real mewn pensiwn a chyfandaliad yn 60 oed | | Cyfanswm cronedig ar 31 Mawrth 2008 | | Gwerth trosglwyddo arian parod cyfatebol (GTAPC) ar 31 Mawrth | | Cynnydd real mewn GTAPC ar ôl addasu ar gyfer chwyddiant a newidiadau mewn ffactorau buddsoddi |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Pensiwn | Cyfandaliad | Pensiwn | Cyfandaliad | | | |
| | 2008 £'000 | 2007 £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | 2007 £'000 | 2008 £'000 | £'000 |
| **Bwrdd y Gofrestrfa Tir** | | | | | | | | | |
| Peter Collis<br>Prif Gofrestrydd Tir<br>a Phrif Weithredwr | 155-160 | 150-155 | 0-2.5 | 5-7.5 | 55-60 | 175-180 | 1,067 | 1,261 | 41 |
| Ted Beardsall<br>Dirprwy Brif Weithredwr a<br>Chyfarwyddwr Datblygu Busnes | 110-115 | 125-130 | 0-2.5 | 0-2.5 | 60-65 | 180-185 | 1,411 | 1,503 | 16 |
| Andy Howarth<br>Cyfarwyddwr Gweithrediadau | 125-130 | 120-125 | 0-2.5 | 2.5-5 | 55-60 | 165-170 | 1,218 | 1,407 | 33 |
| Joe Timothy<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau<br>Cyfreithiol | 125-130 | 120-125 | 0-2.5 | 2.5-5 | 40-45 | 125-130 | 799 | 931 | 19 |
| Linda Daniels<br>(tan 31 Rhagfyr 2007)<br>Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol<br>Cyflog blynyddol cyfwerth | 70-75<br>(85-90) | 95-100 | - | - | 35-40 | 115-120 | 917 | 895 | - |
| Malcolm Dawson<br>(o 7 Ionawr 2008)<br>Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol<br>Cyflog blynyddol cyfwerth | 20-25<br>(85-90) | - | 0-2.5 | 0-2.5 | 25-30 | 80-85 | 437 | 458 | 6 |
| Heather Foster<br>Cyfarwyddwr Cyllid | 100-105 | 90-95 | 0-2.5 | 0-2.5 | 25-30 | 85-90 | 522 | 612 | 13 |
| John Wright<br>Cyfarwyddwr Systemau<br>Gwybodaeth | 100-105 | 90-95 | 0-2.5 | 0-2.5 | 0-5 | – | 30 | 58 | 18 |
| Annette Davies-Govett<br>(o 31 Mawrth 2008)<br>Cyfarwyddwr Masnachol<br>Cyflog blynyddol cyfwerth | 0-5<br>(90-95) | – | – | – | – | – | – | – | – |
| Mike Cutt<br>Cyfarwyddwr Anweithredol | 15–20 | 15–20 | – | – | – | – | – | – | – |
| David Rigney<br>Cyfarwyddwr Anweithredol | 15–20 | 15–20 | – | – | – | – | – | – | – |

Mae'r holl gyfarwyddwyr gweithredol yn eistedd ar y Bwrdd Gweithredol

[1] Oherwydd bod rhai ffactorau yn anghywir yng nghyfrifydd GTAPC y flwyddyn ddiwethaf gall fod ychydig o wahaniaeth rhwng cyfnod terfynol y GTAPC ar gyfer 2006/7 a dechrau'r cyfnod GTAPC ar gyfer 2007/8.

Mae 'cyflog' yn cynnwys cyflog gros, tâl perfformiad neu fonysau, goramser, lwfans Llundain, lwfansau recriwtio a chadw ac unrhyw lwfansau eraill i'r graddau eu bod yn ddarostyngedig i drethiant y DU. Ni dderbyniodd y cyfarwyddwyr unrhyw fuddiannau o fath arall yn ystod y flwyddyn. Mae'r tabl ar dudalen 62 yn seiliedig ar daliadau a wnaed gan y Gofrestrfa Tir ac felly wedi'u cofnodi yn y cyfrifon hyn.

**Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil**
Darperir buddion pensiwn trwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 1 Hydref 2002, gall gweision sifil ymuno ag un o bedwar cynllun budd diffiniedig 'cyflog terfynol' (clasurol, premiwm a chlasurol a mwy); neu gynllun 'gyrfa gyfan' (nuvos). Nid yw'r trefniadau statudol wedi'u cyllido ac mae cost buddion yn cael ei thalu gydag arian a ddyfarnwyd gan y Senedd bob blwyddyn. Mae pensiynau sy'n daladwy o dan gynlluniau clasurol, premiwm, clasurol a mwy a nuvos yn cael eu cynyddu bob blwyddyn yn unol â newidiadau yn y Mynegai Prisiau Adwerthu (MPA). Gall y rhai sy'n ymuno ar ôl 1 Hydref 2002 ymuno â'r cynllun budd diffiniedig priodol neu bensiwn rhanddeiliaid 'pwrcasu arian' o ansawdd da gyda chyfraniad sylweddol gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth).

Mae cyfraniadau gweithwyr wedi'u gosod ar gyfradd o 1.5 y cant o enillion pensiynadwy ar gyfer cynllun clasurol a 3.5 y cant ar gyfer cynlluniau premiwm a chlasurol a mwy. Bydd buddion yn y cynllun clasurol yn cronni ar gyfradd o 1/80fed o'r cyflog pensiynadwy ar gyfer bob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, mae cyfandaliad sy'n gyfwerth â thair blynedd o bensiwn yn daladwy pan fydd gweithwyr yn ymddeol. Ar gyfer cynllun premiwm, bydd buddion yn cronni ar gyfradd o 1/60fed o'r enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer bob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i'r cynllun clasurol, nid oes unrhyw gyfandaliad awtomatig (ond gall aelodau ildio (cymudo) peth o'u pensiwn i ddarparu cyfandaliad). Mae'r cynllun clasurol a mwy yn amrywiad o'r cynllun premiwm, ond gyda buddion ar gyfer gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 wedi'u cyfrifo'n fras yn yr un ffordd â'r cynllun clasurol. Mewn cynllun nuvos mae aelod yn adeiladu pensiwn yn seiliedig ar ei enillion pensiynadwy yn y flwyddyn cynllun honno ac mae'r pensiwn cronedig yn cael ei uwchraddio yn unol â MPA. Ym mhob achos gall aelodau ddewis ildio (cymudo) pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a osodwyd gan Ddeddf Cyllid 2004.

Ar gyfer 2007/8, talodd y Gofrestrfa Tir gyfraniadau cyflogwr o £36.4 miliwn (2006/7: £35.6 miliwn) ar un o bedair cyfradd yn yr amrediad 17.1 y cant i 25.5 y cant (2006/7: 17.1 y cant i 25.5 y cant) o dâl pensiynadwy, yn seiliedig ar fandiau cyflog. Mae actiwari'r cynllun yn adolygu cyfraniadau cyflogwr bob pedair blynedd yn dilyn prisiad cynllun llawn. O 2008/9 bydd bandiau cyflog yn cael eu hadolygu ond bydd y cyfraddau'n parhau yr un fath. (Bydd y cyfraddau yn newid o Ebrill 2009). Mae'r cyfraddau cyfraniad wedi'u gosod i gwrdd â chost buddion sy'n cronni yn ystod 2007/8 sydd i'w talu pan fydd aelod yn ymddeol, a'r buddion a dalwyd yn ystod y cyfnod hwn i bensiynwyr presennol.

Mae'r cyfrif pensiwn partneriaeth yn gynllun pensiwn rhanddeiliaid. Mae'r Gofrestrfa Tir yn gwneud cyfraniad sylfaenol rhwng 3 y cant a 12.5 y cant (yn dibynnu ar oedran yr aelod) i un o dri chynnyrch

pensiwn rhanddeiliaid cymeradwy. Ar gyfer 2007/8 y cyfraniad oedd £52,420 (2006/7: £49,819). Nid oes rhaid i'r gweithiwr gyfrannu ond os yw'n cyfrannu bydd y cyflogwr yn cyfateb hyn hyd at derfyn o 3 y cant o'r cyflog pensiynadwy (yn ychwanegol at gyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae'r Gofrestrfa Tir hefyd yn cyfrannu 0.8 y cant pellach o gyflog pensiynadwy, sef £3,955 yn 2007/8 (2006/7: £3,903) i dalu cost yswiriant buddion risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth mewn gwasanaeth ac ymddeol ar sail afiechyd).

Y pensiwn cronedig a ddyfynnir yw'r pensiwn y mae hawl gan yr aelod ei dderbyn pan fydd yn cyrraedd oedran pensiwn, neu'n union pan fydd yn peidio â bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os yw eisoes yn oedran pensiwn neu'n hŷn na hyn. Yr oedran pensiwn yw 60 ar gyfer aelodau cynllun clasurol, premiwm a chlasurol a mwy a 65 i aelodau cynllun nuvos.

Roedd un deg saith unigolyn wedi ymddeol yn gynnar yn ystod y flwyddyn ar sail afiechyd. Cyfanswm y rhwymedigaethau pensiwn cronedig ychwanegol yn y flwyddyn oedd £18,939.

I gael manylion pellach am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ewch i'r wefan www.civilservice-pensions.gov.uk

**Gwerthoedd trosglwyddo arian parod cyfatebol**

Gwerth trosglwyddo arian parod cyfatebol (GTAPC) yw gwerth cyfalafol wedi'i asesu'n actiwaraidd y buddion cynllun pensiwn sydd wedi cronni gan aelod ar adeg arbennig. Y buddion a brisir yw buddion cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn gŵr/gwraig amodol sy'n daladwy o'r cynllun. Mae GTAPC yn daliad sy'n cael ei wneud gan gynllun neu drefniant pensiwn i ddiogelu buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion sydd wedi cronni yn ei gynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn cyfeirio at y buddion y mae'r unigolyn wedi cronni o ganlyniad i'w haelodaeth gyfan o'r cynllun pensiwn, nid dim ond ei wasanaeth mewn swydd uwch y mae dadleniad yn gymwys iddi. Mae'r ffigurau GTAPC, ac o 2003/4 y manylion pensiwn eraill, yn cynnwys gwerth unrhyw fudd pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r unigolyn wedi'i drosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ac mae CS Vote wedi derbyn taliad trosglwyddo sy'n gymesur â'r rhwymedigaethau pensiwn ychwanegol sy'n cael eu cymryd. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fudd pensiwn ychwanegol sydd wedi cronni i'r aelod o ganlyniad iddo brynu blynyddoedd ychwanegol o wasanaeth pensiwn yn y cynllun. Cyfrifir GTAPC o fewn y canllawiau a'r fframwaith a bennir gan yr Institute and Faculty of Actuaries ac nid ydynt yn ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu bosibl i fuddion sy'n deillio o Dreth Lwfans am Oes, a all fod yn daladwy pan fydd buddion pensiwn yn cael eu tynnu.

**Cynnydd real mewn GTAPC**

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn GTAPC a gyllidir gan y cyflogwr. Mae'n ystyried y cynnydd yn y pensiwn cronedig oherwydd chwyddiant a'r cyfraniadau a dalwyd gan y gweithiwr (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio'r farchnad gyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

# Cyfrif incwm a gwariant am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2008

| | Nodiadau | 2008<br>£'000 | 2007<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| Incwm ffioedd - gweithrediadau parhaus | 2 | 482,944 | 474,525 |
| Cost y gwasanaeth | 2, 8 | (390,565) | (358,139) |
| Gwarged gros | | 92,379 | 116,386 |
| Costau gweinyddol | 2 | (20,790) | (20,069) |
| **Gwarged gweithredu** | 3 | 71,589 | 96,317 |
| (Colled)/elw ar werthu asedau sefydlog | | (36) | 89 |
| Llog i'w dderbyn | | 18,896 | 11,604 |
| Llog i'w dalu a thaliadau tebyg | 5 | (32) | (32) |
| **Gwarged am y flwyddyn ariannol** | | 90,417 | 107,978 |
| Difidend i'w dalu | 6 | (19,709) | (16,548) |
| **Gwarged a gadwyd am y flwyddyn ariannol** | 21 | 70,708 | 91,430 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 70 i 85 yn rhan annatod o'r cyfrifon hyn.

# Datganiad o gyfanswm enillion a cholledion cydnabyddedig am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2008

| | Nodiadau | 2008 £'000 | 2007 £'000 |
|---|---|---|---|
| Gwarged am y flwyddyn ariannol | | 90,417 | 107,978 |
| (Diffyg)/gwarged heb ei realeiddio wrth ailbrisio ar Grant Wrth Gefn y Llywodraeth | 19 | (713) | 242 |
| Gwarged heb ei realeiddio ar ailbrisio | 20 | 7,582 | 10,683 |
| Trosglwyddiad i enillion a gedwir | 21 | 0 | (6,687) |
| **Cyfanswm enillion a cholledion cydnabyddedig am y flwyddyn ariannol** | | 97,286 | 112,216 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 70 i 85 yn rhan annatod o'r cyfrifon hyn.

# Cysoni symudiadau yng nghronfeydd y llywodraeth am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2008

| | Nodiadau | 2008<br>£'000 | 2007<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| Gwarged am y flwyddyn ariannol | | 90,417 | 107,978 |
| Difidend i'w dalu | 6 | (19,709) | (16,548) |
Rydym yn arddangos ein prif dargedau gwasanaeth, a manylion am ein perfformiad yn erbyn y targedau hyn, yn y ganolfan gwybodaeth cwsmeriaid ym mhob swyddfa. Hefyd rydym yn eu cyhoeddi ar ein gwefan, mewn cylchlythyron cwsmeriaid ac yn y ddogfen hon

**Ein safonau gwasanaeth**
**Cywirdeb**
Ceisiwn ddelio â phob cais heb wneud unrhyw gamgymeriadau. Os ydym yn gwneud camgymeriad byddwn yn ceisio ei gywiro cyn gynted â phosibl. Fodd bynnag, mae gwarant teitl y wladwriaeth yn golygu y gallwn, mewn amgylchiadau priodol, dalu iawndal am y camgymeriad yn hytrach na newid y gofrestr. Byddwn yn ystyried pob cais ar ei deilyngdod ei hun.

**Cyflymder gwasanaeth**
Ceisiwn ddelio â phob chwiliad a chais am gopi swyddogol cyn pen tri diwrnod gwaith.

Ceisiwn ddelio â phob cais i gofrestru cyn pen pum wythnos. Os na allwn wneud hyn byddwn yn ysgrifennu atoch i esbonio'r rheswm am yr oedi a'r hyn yr ydym yn ei wneud i'w ddatrys.

**Gohebiaeth**
Ceisiwn ymateb i ohebiaeth cyn pen pum niwrnod gwaith. Mae hyn yn gymwys i lythyrau, ffacsys ac e-byst. Os na allwn wneud hyn byddwn yn ysgrifennu i esbonio pam ac yn dweud wrthych pryd y gallwch ddisgwyl ymateb.

Nid yw'r safon hon yn gymwys i geisiadau am wybodaeth o dan y Ddeddf Diogelu Data, pan fyddwn yn ymateb i geisiadau cyn pen 40 diwrnod, neu Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth pan fyddwn yn ymateb cyn pen 20 diwrnod gwaith

**Galwyr personol**
Ceisiwn weld ymwelwyr sydd ag apwyntiad yn syth ac ymwelwyr sydd heb apwyntiad cyn pen 10 munud o'r amser y maent yn cyrraedd. Gallwch ymweld â ni rhwng 8.30am a 6pm Llun - Gwener, heblaw gwyliau cyhoeddus. Fodd bynnag, gofynnir i gwsmeriaid wneud apwyntiad, gan roi o leiaf 24 awr o rybudd, os hoffent ymweld rhwng 5pm a 6pm.

**Ymholiadau ffôn**
Byddwn yn ateb galwadau ffôn yn gyflym ac yn gwrtais. Ceisiwn ateb 80 y cant o alwadau i ymholiadau cyffredinol cyn pen 20 eiliad a phob galwad cyn pen 30 eiliad. Ceisiwn ateb eich cwestiwn yn syth. Fodd bynnag, os na allwn wneud hyn, byddwn yn cysylltu â chi cyn pen pum niwrnod gwaith gydag ymateb, neu'n dweud wrthych pryd y gallwch ddisgwyl ymateb.

**Arolygon tir**
Weithiau bydd angen i ni arolygu tir cyn y gallwn gwblhau cais i gofrestru neu ddelio â thir. Os felly, byddwn yn dweud wrth y sawl a anfonodd y cais yn ogystal â pherchennog neu feddiannwr yr eiddo. Mae prawf adnabod gan bob un o'n harolygwyr tir.

**Beth sy'n digwydd pan fydda i'n cysylltu â chi?**
Mae canolfan gwybodaeth cwsmeriaid ym mhob un o'n swyddfeydd, gan gynnwys ein Prif Swyddfa, ac mae'n darparu gwasanaeth ffôn ymholiadau cyffredinol. Fodd bynnag, o 1 Ebrill 2008 ni fydd gwasanaeth ffôn ymholiadau cyffredinol yn cael ei ddarparu mwyach yn y Brif Swyddfa.

Mae Swyddfa Cymru hefyd yn cynnig gwasanaeth Cymraeg.

Mae ein staff yn ymrwymedig i ateb eich anghenion a byddant yn:
- rhoi eu henw i chi
- eich cynorthwyo ac yn eich trin mewn ffordd gwrtais a phroffesiynol
- rhoi cyngor ar sut i gwblhau ein ffurflenni naill ai'n bersonol neu drwy roi taflen wybodaeth i chi
- trefnu i chi drafod unrhyw broblemau gyda'r rheolwr gwasanaeth cwsmeriaid lleol
- gwneud trefniadau ar gyfer cofrestriadau brys neu gymhleth.

Ni allwn roi cyngor cyfreithiol i chi. Os oes angen cyngor cyfreithiol arnoch, dylech gysylltu â chyfreithiwr neu gysylltu â'ch Canolfan Cynghori lleol.

Os ydych am wneud cais neu ymholiad yn bersonol, gallwch ymweld ag unrhyw ganolfan gwybodaeth cwsmeriaid. Ein horiau agor yw 8.30am tan 6pm Llun – Gwener heblaw gwyliau cyhoeddus. Gallwch alw heibio unrhyw bryd yn ystod ein horiau agor heb wneud apwyntiad, oni bai eich bod eisiau galw rhwng 5pm a 6pm pan fydd angen i chi wneud apwyntiad gan roi o leiaf 24 awr o rybudd.

Mae mynediad i gadeiriau olwyn ym mhob un o'n swyddfeydd ac mae ein staff yn cael hyfforddiant mewn cyfathrebu â phobl sydd â nam ar y clyw.

Rhowch wybod i ni os hoffech:
- gael cymorth i ddeall yr wybodaeth a gewch gennym
- cael yr wybodaeth mewn iaith neu fformat gwahanol, megis ar gasét sain neu mewn print bras
- bod yng nghwmni ymgynghorwr, ffrind neu aelod o'ch teulu pan fyddwch yn delio â ni.

Gwnawn ein gorau i helpu.

**Cwsmeriaid sydd â nam ar y clyw**
Gall defnyddwyr Ffôn Testun a Minicom gysylltu â ni ar y rhif rhadffôn 0800 015 3552. Neu, gallwch ymweld â'n tudalen gwasanaeth cwsmeriaid ar ein gwefan yn: www.landregistry.gov.uk/customerservice

**Beth os oes cwyn gen i?**
Gwerthfawrogwn y gall camgymeriadau fod yn ddiflas, ond weithiau bydd pethau'n mynd o'i le. Gallwch gwyno yn bersonol, dros y ffôn neu drwy lythyr (gan gynnwys ffacs, e-bost a thrwy ein gwefan). Rhowch wybod i ni os ydych eisiau cael cymorth i gwyno.

Mae ein staff i gyd yn dilyn trefn safonol, felly gallwch fod yn sicr y byddwn yn cynnal ymchwiliad teg a llawn i'ch cwyn.

Byddwn yn cydnabod eich cwyn ar y diwrnod y caiff ei derbyn ac yn ceisio rhoi ymateb llawn i chi cyn pen pum niwrnod gwaith. Os na allwn wneud hyn, byddwn yn ysgrifennu atoch i esbonio'r rheswm am yr oedi a'r hyn rydym yn ei wneud i'w ddatrys.

**Os ydych chi eisiau cwyno**
Os nad ydych yn fodlon â'n gwasanaeth, neu os teimlwch ein bod ni wedi gwneud camgymeriad, rhowch wybod i'r staff yn y swyddfa berthnasol a byddant yn gwneud eu gorau i unioni pethau.

**Rheolwyr gwasanaeth cwsmeriaid**
Os nad ydych yn hapus o hyd, y rheolwr gwasanaeth cwsmeriaid lleol yw'r person gorau i'ch helpu chi. Os nad ydych yn siŵr pa swyddfa y mae ei hangen arnoch, gallwch gysylltu â'r rheolwr gwasanaeth cwsmeriaid yn unrhyw swyddfa leol.

**Rheolwr Gwasanaeth Cwsmeriaid y Gofrestrfa Tir**
Rydym yn gobeithio datrys cwynion ar lefel swyddfa leol. Fodd bynnag, os nad ydych yn fodlon â'r ymateb a gewch, neu'r ffordd y cafodd eich cwyn ei thrin, gallwch gysylltu â Rheolwr Gwasanaeth Cwsmeriaid y Gofrestrfa Tir yn:
Cofrestrfa Tir, Prif Swyddfa
Lincoln's Inn Fields
Llundain WC2A 3PH
Ffôn: 0800 015 8002
Ffacs: 020 7166 4362
E-bost: customer.service@ landregistry.gsi.gov.uk

Cewch fwy o wybodaeth ar ein gwefan yn: www.cofrestrfatir.gov.uk

Sylwch os nad ydych yn hapus â phenderfyniad y mae cofrestrydd tir wedi'i wneud ynglŷn â chofrestru tir, nid oes modd adolygu'r penderfyniad o fewn y drefn gwyno. Mae penderfyniad cofrestrydd tir yn derfynol a gellir ei adolygu drwy achos barnwrol yn unig.

**Yr Adolygydd Cwynion Annibynnol (ACA)**
Os ydych wedi cysylltu â Rheolwr Gwasanaeth Cwsmeriaid y Gofrestrfa Tir ac nid ydych yn fodlon o hyd â'n hymateb, gallwch gysylltu â'r ACA yn:
New Premier House (Second Floor)
150 Southampton Row
Llundain WC1B 5AL
Ffôn: 020 7278 6251
Ffacs: 020 7278 9675
E-bost: enquiries@icr.gsi.gov.uk

Fel arfer bydd yr ACA yn ymchwilio i gwynion sydd wedi mynd trwy ein trefn gwyno fewnol yn unig. Dylech gysylltu â'r ACA cyn pen chwe mis ar ôl i ni gwblhau ein hymchwiliad i'ch cwyn. Cewch fwy o wybodaeth a chyfarwyddyd ar wefan yr ACA yn www.icrev.demon.co.uk

**Dewisiadau eraill**
- Gallwch ofyn i'ch Aelod Seneddol (AS) gysylltu â ni ar eich rhan.
- Os nad ydych yn fodlon â chanlyniad eich cwyn, neu'r ffordd y cafodd ei thrin, gallwch ofyn i AS gyfeirio eich cwyn at yr Ombwdsman Seneddol a Gwasanaeth Iechyd. Bydd yr Ombwdsman yn derbyn achos a gyfeiriwyd gan unrhyw AS ond dylech siarad â'ch AS eich hun yn gyntaf.

Am wybodaeth bellach ynglŷn â'r Ombwdsman, cysylltwch â'r:
Ombwdsman Seneddol a Gwasanaeth Iechyd
Millbank Tower
Millbank
Llundain SW1P 4QP
Llinell gymorth: 0845 015 4033
Ffacs: 020 7217 4160
E-bost: phso.enquiries@ ombudsman.org.uk

Gwefan yr Ombwdsman Seneddol yw:
www.ombudsman.org.uk

# Atodiad 3
# Dangosyddion perfformiad allweddol a thargedau ar gyfer 2008/9

| | Targed 2007/8 | Targed 2008/9 |
|---|---|---|
| **Gwasanaeth cwsmeriaid** | | |
| ***Cyflymder*** | | |
| Canran y ceisiadau copi swyddogol a chwiliad swyddogol a broseswyd cyn pen dau ddiwrnod gwaith | 98 | 98 |
| Canran yr holl gofrestriadau a broseswyd cyn pen 18 diwrnod gwaith | 80 | 80 |
| ***Cywirdeb*** | | |
| Canran y cofrestriadau a broseswyd heb unrhyw gamgymeriadau | 98.5 | 98.5 |
| ***Bodlonrwydd cyffredinol***[1] | | |
| Canran y cwsmeriaid sy'n graddio gwasanaeth cyffredinol y Gofrestrfa Tir yn ardderchog, da iawn neu dda | Yn well na 95 | Yn well na 95 |
| **Ariannol** | | |
| Canran enillion ar gyfalaf cyfartalog a ddefnyddiwyd | 3.5 | 3.5 |
| **Effeithlonrwydd** | | |
| Cost yr uned mewn termau arian parod[2] (termau real)[3] | £30.21 (£20.61) | £30.32 (£20.07) |
| **Meysydd datblygu strategol** | | |
| ***Gwasanaeth cwsmeriaid*** | | |
| Sefydlu canolfan gyswllt cwsmeriaid i gefnogi defnyddwyr y porthol ac e drawsgludo | — | |
| ***Cofrestru tir*** | | |
| Trwy gofrestru gwirfoddol, ychwanegu 325,000 hectar arall o dir i gyfanswm arwynebedd tir rhydd-ddaliad cofrestredig yng Nghymru a Lloegr[4] | — | |
| ***Darparu gwasanaeth electronig*** | | |
| Cyflwyno prototeip o'r gwasanaeth cofrestru e-arwystlon (yr e-weithred gyntaf - arwystlon electronig mewn ffurf safonol) | — | |
| ***Datblygiad busnes arall*** | | |
| Cael cyfraniad wedi'i ennill o werthiannau Gwasanaethau Masnachol, ar ôl ystyried costau uniongyrchol a chostau datblygu cynnyrch, o 8 y cant o'r incwm | — | |

[1] Mae ffigur 2007/8 yn deillio o'r cyfartaledd o'r data a gasglwyd o ddau arolwg bodlonrwydd cwsmeriaid seiliedig ar gyfweliad ffôn yn ystod y flwyddyn.
[2] Yn seiliedig ar y datchwyddwr CDG a gyhoeddwyd gan y Trysorlys ar 28 Mawrth 2008 (blwyddyn sylfaen 1992/3).
[3] Cost yr uned mewn termau real yn y flwyddyn sylfaen 1992/3 oedd £30.65.
[4] Yn y blynyddoedd blaenorol rydym wedi gosod targed i gofrestru hectarau ychwanegol o dir am y tro cyntaf yn seiliedig ar yr holl geisiadau cofrestriadau cyntaf rhydd-ddaliad, yn wirfoddol ac yn orfodol. Mae ein hamcan ar gyfer 2008/9 yn seiliedig ar ystentiau teitl cofrestriadau gwirfoddol.

# Atodiad 4
# Dangosyddion perfformiad allweddol a thargedau perfformiad busnes ehangach wedi'u hesbonio

| Targed perfformiad allweddol | Esboniad |
|---|---|
| **Gwasanaeth cwsmeriaid** | |
| **Cyflymder** | |
| Canran y ceisiadau copi swyddogol a chwiliad swyddogol a broseswyd cyn pen dau ddiwrnod gwaith | Mae copïau swyddogol a chwiliadau swyddogol o'r Gofrestr Tir yn geisiadau sy'n sensitif i amser a gyflwynir ar ddechrau'r broses drawsgludo. Fe'u mesurir trwy 'gipluniau' misol cyfartalog. |
| Canran yr holl gofrestriadau a broseswyd cyn pen 18 diwrnod gwaith | Diffinnir cofrestriadau fel pob cais safonol i gofrestru a dderbynnir, gan gynnwys y rhai sy'n wynebu oedi dilynol oherwydd cyflwyno cais anghyflawn/anghywir. Fe'u mesurir trwy 'gipluniau' misol cyfartalog. |
| **Cywirdeb** | |
| Canran y cofrestriadau a broseswyd heb unrhyw gamgymeriadau | Mesurir hyn trwy gofnodi parhaus bob mis y camgymeriadau a ddychwelir gan gwsmeriaid i'w cywiro, fel canran o'r holl gofrestriadau a broseswyd. |
| **Bodlonrwydd cyffredinol** | |
| Canran y cwsmeriaid sy'n graddio gwasanaeth cyffredinol y Gofrestrfa Tir yn ardderchog, da iawn neu dda | Mae'r mesuriad yn gyfartaledd o'r ymateb a gafwyd o ddau arolwg ffôn yn ystod y flwyddyn. |
| **Ariannol** | |
| Canran enillion ar gyfalaf cyfartalog a ddefnyddiwyd | Y gwarged gweithredu am y flwyddyn fel y dangosir yn y cyfrif incwm a gwariant (ar ôl ystyried yr elw neu'r golled ar waredu asedau cyfalaf) wedi'i fynegi fel canran o'r asedau net cyfartalog am y flwyddyn gyfredol a'r flwyddyn flaenorol. Mae'n daladwy fel difidend i'r Gronfa Gyfunol hyd at 3.5 y cant. |
| **Effeithlonrwydd** | |
| Cost yr uned | Mae uned yn fesuriad cymharol o gost berthynol yr ymdrech sy'n ofynnol i brosesu unrhyw gategori o gais a ymdrinnir gan y Gofrestrfa Tir. Mae cais a gyflwynir yn erbyn y cyfan o deitl cofrestredig (deliad) yn cael ei osod ar werth uned o 1. Mae pob categori cais arall yn cael ei fesur yn erbyn y safon hon a'i bwyso yn unol â hynny. O 1 Ebrill 2008 bydd cais a gyflwynir yn erbyn y cyfan o deitl cofrestredig (deliad) yn cael ei osod ar werth uned o 0.60 y trafodiad. |

| Categori gwaith | Pwysiad yr uned |
|---|---|
| Cofrestriad cyntaf | 3.30 |
| Prydles waredol gyntaf | 5.30 |
| Trosglwyddiad o ran | 4.90 |
| Deliad â'r cyfan[1] | 1 |
| Diweddariadau swmpgofrestr | |
| Hysbysiad o adneuon | 0.6 |
| Chwiliad swyddogol o'r cyfan | 0.10 |
| Ceisiadau ar-lein (deliadau) | 0.10 |
| Chwiliad swyddogol o ran | 0.41 |
| Copïau swyddogol | 0.25 |
| Chwiliad swyddogol o'r map mynegai | 0.25 |
| Gohebiaeth | 0.75 |
| Gweld y gofrestr | 0.25 |
| Gweld y cynllun teitl | 0.25 |
| Gweld dogfen | 0.75 |
| Ymholiadau ffôn | 0.15 |
| Galwadau canolfan gwasanaeth ffôn | 0.15 |

[1] O 1 Ebrill 2008 bydd cais a gyflwynir yn erbyn y cyfan o deitl cofrestredig (deliad) yn cael ei osod ar werth uned o 0.60 y trafodiad.

Cost yr uned (termau real ac arian parod)

At ddibenion rheoli, mae'r garreg filltir cost yr uned (CYU) termau real blynyddol yn cael ei throsi i sail arian parod trwy ddefnyddio datchwyddwyr Cynnyrch Domestig Gros (CDG) cyfredol a gyhoeddir gan y Trysorlys.

CYU arian parod yw cyfanswm y costau gweithredu, ar sail croniadau (ac eithrio cost hawliadau indemniad cymeradwy, cydradd-ddaliad, e-drawsgludo a chostau fectoreiddio'r map mynegai) wedi'i rannu â'r unedau gwaith a broseswyd.

Bydd monitro cyson yn digwydd yn erbyn y garreg filltir CYU 'termau real' blynyddol trwy rannu CYU mewn termau arian parod â'r datchwyddwr CDG.

**Meysydd datblygu strategol**

**Gwasanaeth cwsmeriaid**

Darparu ateb isadeiledd e-ddiogelwch cynaliadwy a chyfatebol, gan ddarparu mynediad seiliedig ar rôl, swyddogaeth rheoli hunaniaeth ac e-lofnodion yn y dyfodol, ar gyfer sylfaen cwsmeriaid allanol a busnes y Gofrestrfa Tir (2007/8)

Mae hyn yn ofynnol er mwyn galluogi datblygu Porthol y Gofrestrfa Tir ymhellach a datblygu gwasanaethau e-drawsgludo newydd.

Sefydlu canolfan gyswllt cwsmeriaid i gefnogi defnyddwyr y porthol ac e-drawsgludo (2008/9)

Darparu cymorth i gwsmeriaid sy'n gwneud cais i ddefnyddio gwasanaethau electronig newydd ac sy'n cyflwyno eu ceisiadau eu hunain yn electronig.

**Cofrestru tir**

Ychwanegu 550,000 hectar arall o dir i gyfanswm arwynebedd tir rhydd-ddaliad cofrestredig yng Nghymru a Lloegr (2007/8)

Trwy gofrestru gwirfoddol, ychwanegu 325,000 hectar arall o dir i gyfanswm arwynebedd tir rhydd-ddaliad cofrestredig yng Nghymru a Lloegr (2008/9)

Mae hon yn garreg filltir flynyddol tuag at gofrestr tir gynhwysfawr. Fe'u mynegir ar ffurf arwynebedd yn hytrach na chanran oherwydd gall fod yn fwy mesuradwy yn weledol na tharged canran ac mae'n cynnig modd gosod targedau mwy tryloyw ar gyfer pob swyddfa. Yn y blynyddoedd blaenorol mae'r Gofrestrfa Tir wedi gosod targed i gofrestru hectarau ychwanegol o dir am y tro cyntaf yn seiliedig ar yr holl geisiadau cofrestriad cyntaf rhydd-ddaliad, yn wirfoddol ac yn orfodol. Fodd bynnag, mae ei hamcan ar gyfer 2008/9 yn seiliedig ar geisiadau gwirfoddol yn unig.

**Darparu gwasanaeth electronig**

Cwblhau adolygiad o'r ymatebion i'r papur ymgynghori ar y Rheolau Cofrestru Tir (Mynediad Rhwydwaith) a'r Gorchymyn Cofrestru Tir (Cyfathrebu Electronig) ac adrodd i weinidogion (2007/8)

Bydd yn cynnig modd i'r Gofrestrfa Tir fframio'r ddeddfwriaeth eilaidd sy'n ofynnol ar gyfer datblygu e-drawsgludo.

Cyflwyno prototeip o wasanaeth cofrestru e-arwystl (yr e-weithred gyntaf - arwystlon electronig mewn ffurf safonol (2008/9)

Cyflwyno un o brif nodweddion trawsgludo electronig, sef y weithred electronig gyntaf, wedi'i llofnodi'n electronig. Mae'r cynnyrch wedi'i anelu at y farchnad ail-forgeisio ac ail forgais.

**Busnes arall**

Symud gwefan gorfforaethol y Gofrestrfa Tir i'r porthol newydd a sefydlu porthol ar gyfer defnyddio un neu ragor o'r segmentau cwsmeriaid canlynol: dinasyddion, trawsgludwyr, rhoddwyr benthyg, gwerthwyr tai (2007/8)

Mae hwn yn gam tuag at greu gwefan sengl i'r Gofrestrfa Tir (y porthol) y bydd holl wasanaethau'r Gofrestrfa Tir yn cael eu cyrchu drwyddi yn y pen draw.

Cael cyfraniad wedi'i ennill o werthiannau gwasanaethau masnachol, ar ôl ystyried costau uniongyrchol a chostau datblygu cynnyrch, o 8 y cant o'r incwm. (2008/9)

Mae'r DPA hwn wedi cael ei osod yn unol â chanllaw'r Trysorlys ar gyfer gwasanaethau masnachol, sy'n gorchymyn bod rhaid i unrhyw wariant datblygu gael ei gwmpasu gan y cyfraniad a enillwyd gan werthiannau gwasanaethau masnachol ar ôl ystyried costau uniongyrchol. Felly, mae'r targed DPA hwn ar gyfer cyfraniad o 8 y cant (llai costau datblygu cynnyrch a chostau uniongyrchol) ar incwm gwerthiannau o wasanaethau masnachol.

| Perfformiad busnes ehangach | Esboniad |
|---|---|
| **Gwasanaeth cwsmeriaid** | |
| **Cyflymder** | |
| Canran y cwsmeriaid sy'n graddio cyflymder gwasanaeth ceisiadau am gopi swyddogol a chwiliad swyddogol yn ardderchog, da iawn neu dda | Mae'r mesuriad yn gyfartaledd o'r ymatebion a gafwyd o ddau arolwg ffôn yn ystod y flwyddyn. |
| Canran y cwsmeriaid sy'n graddio cyflymder gwasanaeth cofrestriadau yn ardderchog, da iawn neu dda | Mae'r mesuriad yn gyfartaledd o'r ymatebion a gafwyd o ddau arolwg ffôn yn ystod y flwyddyn. |
| Nifer y diwrnodau ar gyfartaledd a gymerir i brosesu:<br>— cofrestriadau cyntaf<br>— prydlesi gwaredol cyntaf<br>— trosglwyddiadau o ran<br>— deliadau â'r cyfan<br>— copïau swyddogol<br>— chwiliadau swyddogol | Cofnodir ceisiadau yn electronig pan gânt eu derbyn a phan gânt eu cwblhau. Os yw cais yn cael ei gyflwyno'n anghywir, mae nifer y diwrnodau gwaith sy'n mynd heibio cyn datrys y mater yn cael ei gynnwys yn yr amser prosesu a gofnodir.<br><br>Cofrestriadau cyntaf, sy'n gofyn am archwiliad llawn o'r teitl, a phrydlesi gwaredol cyntaf, sy'n cymryd hwyaf i'w prosesu yn y Gofrestrfa Tir. Gall trosglwyddiadau o ran fod yn gymhleth iawn, gan gynnwys ystyriaeth fanwl o hawddfreintiau. Erbyn hyn mae bron pob copi swyddogol a chwiliad swyddogol yn cael ei brosesu'n electronig. |
| Canran yr ohebiaeth gyffredinol (llythyrau, ffacsys ac e-byst) a gafodd ymateb cyn pen pum niwrnod gwaith | Nid yw'n cynnwys gohebiaeth ag Aelodau Seneddol, gohebiaeth sy'n ymwneud â cheisiadau swyddogol cyfredol, gwaith achos cymhleth a dadleuol, neu achosion lle y cyfeirir at y Ddeddf Diogelu Data 1998 neu Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. |
| **Cywirdeb** | |
| Canran y cwsmeriaid sy'n graddio cywirdeb ac ansawdd cofrestriadau yn ardderchog, da iawn neu dda | Mae'r mesuriad yn gyfartaledd o'r ymatebion a gafwyd o ddau arolwg ffôn yn ystod y flwyddyn. |
| **Bodlonrwydd cyffredinol** | |
| Canran y cwsmeriaid sy'n graddio'r gwasanaeth cyffredinol a gafwyd gan y Gofrestrfa Tir yn ardderchog, da iawn neu dda | Mae'r mesuriad yn gyfartaledd o'r ymatebion a gafwyd o ddau arolwg ffôn yn ystod y flwyddyn. |
| **Pobl** | |
| Nifer cyfartalog y diwrnodau hyfforddi y pen | Mae'r mesuriad yn gyfartaledd o'r cofnodi misol parhaus gan hyfforddwyr rheoli lleol. |
| Nifer cyfartalog y diwrnodau absenoldeb salwch y pen | Mae'r mesuriad yn gyfartaledd o nifer y diwrnodau absenoldeb salwch a gymerwyd gan holl staff y Gofrestrfa Tir yn ystod y flwyddyn. Fe'i cyfrifir trwy ddefnyddio'r data a gofnodwyd ar gronfa ddata Adnoddau Dynol. |

**Strategol**

| | |
|---|---|
| Nifer y teitlau cofrestredig (miliynau) | Mae'r ffigur hwn yn cynrychioli maint cyfredol y Gofrestr Tir ar gyfer Cymru a Lloegr. Amcangyfrifwn fod Cofrestr Tir gyflawn yn cynnwys tua 23 miliwn o deitlau. |
| Canran (arwynebedd) y tir rhydd-ddaliad yng Nghymru a Lloegr sydd wedi'i gofrestru | Mae proses wedi cael ei datblygu bellach a fydd yn cynnig modd cofnodi mesur tir cofrestredig yng Nghymru a Lloegr. |
| Nifer y cofrestriadau:<br>— cofrestriadau cyntaf<br>— rhyddhadau<br>— morgeisi<br>— trosglwyddiadau o werth<br>— prydlesi | Mae'r rhain yn elfennau allweddol yn y broses cofrestru tir. |

# Atodiad 5
# Datganiad recriwtio

Mae'r wybodaeth ganlynol yn disgrifio gwaith y Gofrestrfa Tir ym maes recriwtio yn ystod 2007/8.

Mae gweithgarwch recriwtio'r Gofrestrfa Tir wedi canolbwyntio ar feysydd twf allweddol yn y sefydliad, megis Gwasanaethau Masnachol. Mae hyn wedi arwain at gyfleoedd i staff ddatblygu sgiliau gwahanol, ochr yn ochr â'u gwybodaeth a'u harbenigedd mewn gweithrediadau'r Gofrestrfa Tir. Mae staff newydd wedi cynnig sgiliau a gwybodaeth benodol i'r sefydliad ym maes marchnata a gwerthiannau.

Yn ystod 2007/8 mae dau apwyntiad wedi cael eu gwneud i swyddi Bwrdd Gweithredol: Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Chyfarwyddwr Masnachol.

Mae'r prosesau recriwtio wedi cael eu hailddiffinio a'u gwella. Cyflwynwyd polisi recriwtio diwygiedig ym mis Rhagfyr 2007. Mae gweithdrefnau cysylltiedig hefyd wedi cael eu diweddaru, megis recriwtio mewnol arweinwyr tîm dosbarthol, ac mae ymarferion wedi mynd rhagddynt yn y mwyafrif o swyddfeydd lleol ar eu cyfer.

Mae gweithdrefnau recriwtio'r Gofrestrfa Tir yn cael eu cynnal ar sail cystadleuaeth deg ac agored, yn unol â'r Cod Recriwtio Comisiynwyr y Gwasanaeth Sifil, ac maent yn cael eu monitro'n fewnol.

Gwnaethpwyd y penodiadau recriwtio allanol canlynol yn ystod 2007/8:

| **Gradd** | **Nifer a benodwyd** |
|---|---|
| Uwch Was Sifil | 2 |
| Uwch Weinyddydd Cofrestru | 2 |
| Uwch Swyddog Gweithredol Cofrestru | 1 |
| Swyddog Gweithredol Cofrestru 1 | 4 |
| Swyddog Gweithredol Cofrestru 2 | 44 |
| Swyddog Cofrestru | 2 |
| Cynorthwy-ydd Cofrestru | 0 |
| **Cyfanswm** | **55** |

Mae ymrwymiad parhaus y Gofrestrfa Tir at amrywiaeth a chyfle cyfartal yn cael ei adlewyrchu yn ei gweithdrefnau recriwtio, sy'n cael eu monitro a'u gwerthuso'n gyson. Mae'r ystadegau canlynol yn ymwneud â'r staff a ddangosir yn y tabl uchod.

| Graddfa | Gwryw | Benyw | Lleiafrifoedd ethnig | Anabl |
|---|---|---|---|---|
| Uwch Was Sifil | 1 | 1 | 0 | 0 |
| Uwch Weinyddydd Cofrestru | 1 | 1 | 0 | 0 |
| Uwch Swyddog Gweithredol Cofrestru | 1 | 0 | 0 | 0 |
| Swyddog Gweithredol Cofrestru 1 | 2 | 2 | 0 | 0 |
| Swyddog Gweithredol Cofrestru 2 | 30 | 14 | 4 | 0 |
| Swyddog Cofrestru | 1 | 1 | 1 | 0 |
| **Cyfanswm** | **36** | **19** | **5**[1] | **0** |

[1] Sylwer: Nid oedd pob gweithiwr wedi datgan ei dras ethnig neu ei statws anabledd.

Gwnaethpwyd saith penodiad o dan yr eithriadau i'r egwyddorion recriwtio a ganiateir gan Gomisiynwyr y Gwasanaeth Sifil.

# Atodiad 6
# Manylion cyswllt swyddfeydd y Gofrestrfa Tir

**Prif Swyddfa**
Lincoln's Inn Fields
Llundain WC2A 3PH
Ffôn: 020 7917 8888

**Swyddfa Cymru**
Tŷ Cwm Tawe
Ffordd y Ffenics
Llansamlet
Abertawe SA7 9FQ
Ffôn: 01792 355000

**Swyddfa Abertawe**
Tŷ Bryn Glas
Y Stryd Fawr
Abertawe SA1 1PW
Ffôn: 01792 458877

**Swyddfa Caerefrog (is-swyddfa)**
James House
James Street
Caerefrog YO10 3YZ
Ffôn: 01904 450000

**Swyddfa Caerhirfryn**
Wrea Brook Court
Lytham Road
Warton
Swydd Gaerhirfryn PR4 1TE
Ffôn: 01772 836700

**Swyddfa Caerloyw**
Twyver House
Bruton Way
Caerloyw GL1 1DQ
Ffôn: 01452 511111

**Swyddfa Caerlŷr**
Westbridge Place
Caerlŷr LE3 5DR
Ffôn: 0116 265 4000

**Swyddfa Coventry**
Leigh Court
Torrington Avenue
Tile Hill
Coventry CV4 9XZ
Ffôn: 024 7686 0860

**Swyddfa Croydon**
Trafalgar House
1 Bedford Park
Croydon CR0 2AQ
Ffôn: 020 8781 9103

**Swyddfa Durham (Boldon)**
Boldon House
Wheatlands Way
Pity Me
Durham DH1 5GJ
Ffôn: 0191 301 2345

**Swyddfa Durham (Southfield)**
Southfield House
Southfield Way
Durham DH1 5TR
Ffôn: 0191 301 3500

**Swyddfa Harrow (is-swyddfa)**
Lyon House
Lyon Road
Harrow
Middlesex HA1 2EU
Ffôn: 020 8235 1181

**Swyddfa Kingston upon Hull**
Earle House
Colonial Street
Hull HU2 8JN
Ffôn: 01482 223244

**Swyddfa Lytham**
Birkenhead House
East Beach
Lytham St Annes
Swydd Gaerhirfryn FY8 5AB
Ffôn: 01253 849849

**Swyddfa Nottingham (Dwyrain)**
Robins Wood Road
Nottingham NG8 3RQ
Ffôn: 0115 906 5353

**Swyddfa Nottingham (Gorllewin)**
Chalfont Drive
Nottingham NG8 3RN
Ffôn: 0115 935 1166

**Swyddfa Penbedw (Old Market)**
Old Market House
Hamilton Street
Penbedw
Glannau Mersey CH41 5FL
Ffôn: 0151 473 1110

**Swyddfa Penbedw (Rosebrae)**
Rosebrae Court
Woodside Ferry Approach
Penbedw
Glannau Mersey CH41 6DU
Ffôn: 0151 472 6666

**Swyddfa Peterborough**
Touthill Close
City Road
Peterborough PE1 1XN
Ffôn: 01733 288288

**Swyddfa Plymouth**
Plumer House
Tailyour Road
Crownhill
Plymouth PL6 5HY
Ffôn: 01752 636000

**Swyddfa Portsmouth**
St Andrew's Court
St Michael's Road
Portsmouth
Hampshire PO1 2JH
Ffôn: 023 9276 8888

**Swyddfa Stevenage**
Brickdale House
Swingate
Stevenage
Hertfordshire SG1 1XG
Ffôn: 01438 788889

**Swyddfa Telford**
Parkside Court
Hall Park Way
Telford TF3 4LR
Ffôn: 01952 290355

**Swyddfa Tunbridge Wells**
Forest Court
Forest Road
Hawkenbury
Tunbridge Wells
Caint TN2 5AQ
Ffôn: 01892 510015

**Swyddfa Weymouth**
Melcombe Court 1
Cumberland Drive
Weymouth
Dorset DT4 9TT
Ffôn: 01305 363636

**Adrannau Pridiannau Tir a Chredydau Amaethyddol**
Plumer House
Tailyour Road
Crownhill
Plymouth PL6 5HY
Ffôn: 01752 636666

**Cofrestrfa Tir Systemau Gwybodaeth**
Seaton Court
2 William Prance Road
Plymouth PL6 5WS
Ffôn: 01752 640000

**Cofrestrfa Tir Gwasanaethau Ffôn**
Mae Gwasanaethau Ffôn y Gofrestrfa Tir yn ddewis arall cyflym a chyfleus i geisiadau trwy'r post, ond mae ar gael i gwsmeriaid sydd â chyfrif credyd y Gofrestrfa Tir yn unig.

Trwy ffonio **0870 908 8063*** gall cwsmeriaid wneud cais am amrywiaeth o chwiliadau a chopïau swyddogol y Gofrestrfa Tir a Phridiannau Tir.

Mae gwasanaeth ffôn Cymraeg ar gael ar **0870 908 8069**.

Cewch wybodaeth bellach gan y rheolwr gwasanaeth cwsmeriaid yn unrhyw swyddfa'r Gofrestrfa Tir.

* Sylwer gall galwadau gael eu recordio.

# Atodiad 7
# Rhestr termau

**Arweinwyr y Dyfodol**
Rhaglen y Gofrestrfa Tir i adnabod a datblygu staff sydd â'r potensial a'r ymrwymiad i ddyrchafu i lefelau uwch reolwyr. Lansiwyd y cynllun yn Ebrill 2005 i gymryd lle'r cyn gynllun datblygu carlam FOCUS.

**Arwystlai (neu forgeisai)**
Y sawl sy'n benthyg arian a warentir trwy arwystl neu forgais.

**Arwystlwr (neu forgeiswr)**
Perchennog eiddo sy'n benthyg arian ar forgais ac sy'n arwystlo'r eiddo fel gwarant am y benthyciad.

**Blaenoriaeth amser real**
Mae blaenoriaeth amser real yn gweld newid i reolau'r Gofrestrfa Tir ynghylch blaenoriaethau chwiliadau swyddogol a cheisiadau ôl-gwblhau. Mae'n estyn yr amser yn ystod y diwrnod gwaith sydd ar gael i ymarferyddion gyflwyno'r ceisiadau hyn trwy roi blaenoriaeth iddynt o'r adeg y cânt eu cofnodi ar y rhestr ddydd (gweler uchod).

**Cadwyn Matrics**
Hysbysfwrdd electronig, sydd ar gael ar-lein, a ddefnyddir gan drawsgludwyr, sy'n dangos y camau allweddol sydd wedi cael eu cyrraedd ym mhob achos o werthu neu brynu eiddo o fewn cadwyni'r trafodiad sy'n gyffredin yng Nghymru a Lloegr. Hefyd, mae'n darparu elfen o reolaeth a chydlyniad mewn camau allweddol yn y broses ac yn rhoi cyfle i bob parti ddangos parodrwydd i symud ymlaen i gyfnewid.

**Cais**
Unrhyw gais i ddefnyddio gwasanaethau amrywiol y Gofrestrfa Tir. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau cyn-gwblhau ac ôl-gwblhau (gweler isod).

**Cais cyn-gwblhau**
Cais sy'n ceisio gwybodaeth neu flaenoriaeth ar gyfer trafodiad cyn cwblhau'r gwerthiant neu'r morgais. Gall ceisiadau, sy'n cynnwys chwiliadau o'r map mynegai, chwiliadau swyddogol o ran a'r cyfan a chopïau swyddogol, gael eu cyflwyno yn bersonol, trwy'r post, ffacs, dros y ffôn a thrwy'r Gofrestrfa Tir Uniongyrchol.

**Cais ôl-gwblhau**
Cais i gofrestru a gyflwynwyd ar ôl cwblhau'r gwerthiant neu'r morgais.

**Cofrestr Tir Ar-lein**
Mynediad cyhoeddus trwy'r we i wybodaeth y Gofrestrfa Tir a thalu gyda cherdyn credyd.

**Cofrestrfa Tir Uniongyrchol**
Gwasanaeth ar-lein i ddeiliaid cyfrif credyd y Gofrestrfa Tir, gan gynnig mynediad electronig cyflym iddynt i amrywiaeth o wybodaeth y Gofrestrfa Tir.

**Cofrestriad cyntaf**
Cofrestru teitl i dir anghofrestredig.

**Copi swyddogol**
Copi swyddogol o weithredoedd a dogfennau yn y Gofrestrfa Tir, gan gynnwys y gofrestr a chynllun teitl.

**Cyflenwr Categori 1**
Cyflenwr nwyddau neu wasanaethau i'r Gofrestrfa Tir lle y byddai colli neu fethu â darparu unrhyw un o'r meini prawf neu effaith gyfunedig sawl maen prawf yn atal y sefydliad rhag cwrdd â'i DPA neu fesurau perfformiad ehangach y llywodraeth.

**Cyfradd damweiniau**
Ystadegyn cydnabyddedig a ddefnyddir gan Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ac Ystadegau Cenedlaethol ar gyfer cofnodi damweiniau.

**Cynllun 10 Pwynt**
Mae Cynllun 10 Pwynt y Gofrestrfa Tir yn amlinellu ein hymrwymiad at 10 maes allweddol sy'n ceisio sicrhau newid diwylliannol eang a dwfn ar draws y Gwasanaeth Sifil. Datblygwyd y cynllun yn dilyn adolygiad o gydraddoldeb ac amrywiaeth mewn cyflogaeth yn y Gwasanaeth Sifil gan y Prif Ymgynghorydd Amrywiaeth i'r Gwasanaeth Sifil. Nod y cynllun yw gwella cyflwyno gwasanaethau i bawb yn y gymdeithas trwy sicrhau gweithlu Gwasanaeth Sifil amrywiol ar bob lefel, gan gynnwys ein lefel uchaf.

**Cynllun teitl**
Cynllun sy'n cael ei baratoi ar gyfer teitlau unigol yn dangos stent y teitl cofrestredig.

**Chwiliad o'r map mynegai**
Chwiliad o fapiau mynegai cyhoeddus y Gofrestrfa Tir i bennu a yw eiddo wedi'i gofrestru neu beidio ac, os ydyw, ei rif teitl.

**Chwiliad swyddogol o ran**
Chwiliad o ran o deitl cofrestredig sydd hefyd yn sicrhau blaenoriaeth.

**Chwiliad swyddogol o'r cyfan**
Chwiliad o'r cyfan o deitl cofrestredig sydd hefyd yn sicrhau blaenoriaeth ar gyfer y trafodion sy'n aros.

**Deliad**
Cais sy'n effeithio ar deitl cofrestredig (heblaw gwasanaeth cyn-gwblhau), sydd fel arfer yn golygu deliad â'r teitl cyfan.

**Diweddaru'r gofrestr yn electronig**
System a fydd yn prosesu'n awtomatig geisiadau a gyflwynir yn electronig i newid y gofrestr.

**E-arwystlon**
Yn yr un ffordd ag y mae modd dileu morgais yn awtomatig o'r gofrestr trwy gyfrwng e-ryddhau, gall morgais gael ei ychwanegu'n awtomatig at y gofrestr pan fydd cyfrif newydd yn cael ei ychwanegu at gyfrifiadur rhoddwr benthyg.

**E-gyflwyno**
System electronig y gall defnyddwyr y Gofrestrfa Tir ei defnyddio i gyflwyno rhai mathau o geisiadau i newid y gofrestr.

**E-ryddhau**
Dull a ddefnyddir i ganslo cofnodion morgais gan forgeisai trwy gyfrwng trafodiad o beiriant i beiriant heb fod angen i staff y Gofrestrfa Tir ymyrryd.

**Glasbrint Sefydliadol**
Dogfen sy'n rhoi ein barn gyfredol am ddyfodol y Gofrestrfa Tir. Mae'n cynnwys nifer o newidiadau i'r Gofrestrfa Tir a fydd yn effeithio ar y staff a gyflogir a ble y maent yn gweithio, yn ogystal â chwsmeriaid y Gofrestrfa Tir a sut y cânt eu gwasanaethu.

**Gwaith achos teitl newydd**
Ceisiadau sy'n gofyn am gyhoeddi rhif teitl newydd - cofrestriadau cyntaf, prydlesi gwaredol cyntaf a throsglwyddiadau o ran.

**Gweithiwr achos**
Aelod staff penodedig sy'n ystyried cais a gyflwynwyd o dan Ddeddf Cofrestru Tir 2002 a Rheolau Cofrestru Tir 2003, ac sy'n gweithredu yn unol â hynny.

**Gweithrediadau cyfunedig**
Staff aml-fedrus sy'n prosesu gwaith achos teitl newydd o'r adeg y caiff ei dderbyn hyd at ei ddosbarthu mewn un gweithrediad.

**Map mynegai fector**
Mae polygonau wedi cael eu creu ar gyfer pob cofrestriad sy'n bodoli ar fap mynegai papur Cymru a Lloegr (mwy nag 17 miliwn). Mae'r polygonau wedi'u cysylltu â'r Gronfa Ddata Disgrifiad Eiddo Gyfrifiadurol a Mynegai Daearyddol Eiddo'r Gofrestrfa Tir, gan felly creu map mynegai fector y gall pob defnyddiwr system fapio'r Gofrestrfa Tir a chwsmeriaid allanol ei ddefnyddio trwy'r Gofrestrfa Tir Uniongyrchol a'r Gwasanaeth Gwybodaeth Tir Cenedlaethol. Cwblhawyd y prosiect o drosi'r map mynegai yn Chwefror 2004.

**Polygon**
Mae polygon yn ffigur amlochrog sy'n cael ei greu yn electronig ac mae'n cynrychioli stent cofrestredig teitl arbennig ar y map mynegai fector.

**Porth**
Isadeiledd gwefan sengl i alluogi darparu gwasanaethau ar-lein integredig i gwsmeriaid y Gofrestrfa Tir.

**Prydles waredol gyntaf**
Cofrestriad cyntaf o ystad les-ddaliad a grëwyd o deitl cofrestredig.

**Rhestr ddydd**
Mynegai o bob cais sy'n aros i'w

brosesu yn y Gofrestrfa Tir. Mae'n rheoleiddio'r blaenoriaethau rhwng ceisiadau sy'n effeithio ar yr un rhif teitl.

**Teitl**
Tystiolaeth o hawl unigolyn i eiddo.

**Tir digofrestredig**
Tir lle nad yw'r tir wedi'i gofrestru eto yn y Gofrestrfa Tir. Gellir dosbarthu buddion yn y tir digofrestredig fel buddion cyfreithiol, buddion teulu, buddion masnachol a buddion gweddilliol.

**Tranche**
Mae'r Gofrestrfa Tir wedi mabwysiadu ymagwedd tranche ar gyfer cyflwyno e-drawsgludo. Mae tranche yn gorff o waith o fewn y rhaglen e-drawsgludo sy'n darparu budd busnes diffiniedig clir (cyfres o wasanaethau busnes) i'r Gofrestrfa Tir a'n cwsmeriaid.

**Trosglwyddiad o ran**
Trosglwyddiad neu arwystl o ran o deitl cofrestredig.

**Tystysgrif electronig**
Dogfen swyddogol a ddelir mewn fformat electronig. Mae Deddf Cyfathrebu Electronig 2000 yn darparu isadeiledd cyfreithiol ar gyfer e-fusnes. Nid yw'r Ddeddf yn mynd mor bell â diwygio neu ddisodli deddfwriaeth bresennol sy'n gofyn am lofnodion â llaw, ond mae Adran 8 yn rhoi'r grym i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder a'r Arglwydd Ganghellor newid deddfwriaeth trwy offeryn statudol, i awdurdodi neu hwyluso cyfathrebu electronig a storio dogfennau, yn lle ffurfiau eraill o gyfathrebu neu storio.

**Uned**
Mesuriad cymharol o gost berthynol yr ymdrech sy'n ofynnol i brosesu unrhyw gategori o waith sy'n cael ei drin gan y Gofrestrfa Tir.

**Uned busnes**
Mae pob un o'r 24 swyddfa leol, y Grŵp Systemau Gwybodaeth a'r Adran Pridiannau Tir (y ddau wedi'u lleoli yn Plymouth) a Phrif Swyddfa'r Gofrestrfa Tir yn Llundain yn gweithredu fel unedau busnes annibynnol ar wahân. Mae un cyfrifoldeb gan bob un dros aros o fewn cyllidebau staff a chyllidebau heb fod yn gyllidebau staff a ddyrennir yn ganolog.

**Ymdriniaeth sengl**
Staff aml-fedrus yn prosesu ceisiadau ar-lein, mewn un gweithrediad.

# Atodiad 8
# Strwythur llywodraethu corfforaethol y Gofrestrfa Tir 2007/8

**Pwyllgorau Tâl 1 a 2**
Cadeirydd: Anweithredol

## Bwrdd y Gofrestrfa Tir
Prif Weithredwr
Dirprwy Brif Weithredwr
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol
Cyfarwyddwr AD
Cyfarwyddwr Gweithrediadau
Cyfarwyddwr Cyllid
Cyfarwyddwr SG
Cyfarwyddwr Masnachol
2 Anweithredol

**Pwyllgor Archwilio**
Cadeirydd: Anweithredol

**Bwrdd Risg Busnes**
Cadeirydd: Cyfarwyddwr Cyllid

**Bwrdd Polisi a Strategaeth Trawsffurfio Busnes**
Cadeirydd: Cyfarwyddwr SG

**Bwrdd Rhaglen Trawsffurfio Busnes**
Cadeirydd: Cyfarwyddwr SG

## Bwrdd Gweithredol
Prif Weithredwr
Dirprwy Brif Weithredwr
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol
Cyfarwyddwr AD
Cyfarwyddwr Gweithrediadau
Cyfarwyddwr Cyllid
Cyfarwyddwr SG
Cyfarwyddwr Masnachol

**Bwrdd Rhaglen Effeithiolrwydd Busnes**
Cadeirydd: Cyfarwyddwr Gweithrediadau

**Bwrdd Cyllideb a Chynllunio**
Cadeirydd: Prif Weithredwr

**Bwrdd Datblygu Busnes**
Cadeirydd: Dirprwy Brif Weithredwr

**Bwrdd Materion Technegol**
Cadeirydd: Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol

**Bwrdd Indemniad**
Cadeirydd: Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol

**Bwrdd Rheoli Asedau Eiddo**
Cadeirydd: Cyfarwyddwr AD

**Grŵp Cydlynu Rhaglenni**
Cadeirydd: Cyfarwyddwr Cyllid

## Diben cyffredinol pob prif fwrdd

**Bwrdd y Gofrestrfa Tir**
Mae'n cynorthwyo'r Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr yn ei brif gyfrifoldeb a'i atebolrwydd dros lywodraethu a pherfformiad da y Gofrestrfa Tir.

**Bwrdd Gweithredol**
Mae'n cyflwyno'r cynllun busnes blynyddol ac yn gyfrifol am reoli'r Gofrestrfa Tir o ddydd i ddydd.

## Diben cyffredinol pob is-fwrdd

**Pwyllgorau Tâl**
Maent yn gweinyddu adolygiadau tâl blynyddol yr Uwch Wasanaeth Sifil.

**Pwyllgor Archwilio**
Mae'n darparu sicrwydd i'r Bwrdd bod gweithgareddau'r Gofrestrfa Tir yn cael eu cyflawni yn unol â safonau atebolrwydd cyhoeddus priodol.

**Bwrdd Risg Busnes**
Mae'n sicrhau bod prif risgiau busnes yn cael eu nodi a'u rheoli.

**Bwrdd Polisi a Strategaeth Trawsffurfio Busnes**
Mae'n cyfeirio cyfansoddiad a strategaeth lefel uchel y rhaglen; ac yn datblygu ac yn datrys materion polisi sy'n ymwneud â model busnes y Gofrestrfa Tir yn y dyfodol.

**Bwrdd Rhaglen Trawsffurfio Busnes**
Mae'n arolygu, monitro a rheoli ar lefel uchel cynnydd y Rhaglen Trawsffurfio Busnes.

**Bwrdd Rhaglen Effeithiolrwydd Busnes**
Mae'n arolygu ac yn gyrru prosiectau i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd model busnes cyfredol y Gofrestrfa Tir.

**Bwrdd Datblygu Busnes**
Mae'n datblygu gwasanaethau anstatudol (ac eithrio e-fusnes a'r Uned Ryngwladol), gan arolygu datblygiad y gwasanaethau newydd hyn a, phan fyddant yn gweithredu, yn trosglwyddo'r cyfrifoldeb i reolwyr gweithredol.

**Bwrdd Cyllideb a Chynllunio**
Mae'n pennu'r gyllideb flynyddol, yn cytuno ar y broses ar gyfer amrywiadau canol-blwyddyn yn y gyllideb ac yn sicrhau bod prosesau cyllidebu a chynllunio yn gweithio'n dda gyda'i gilydd.

**Bwrdd Materion Technegol**
Mae'n ystyried materion manwl/cymhleth sy'n gofyn am egluro cyfarwyddyd ymarfer presennol.

**Bwrdd Indemniad**
Mae'n adolygu tueddiadau mewn gwallau a cheisiadau indemniad.

**Bwrdd Rheoli Asedau Eiddo**
Mae'n darparu sicrwydd bod caffael eiddo, gwaredu, buddsoddi a phenderfyniadau defnydd yn cyd-fynd â strategaeth ac amcanion busnes y Gofrestrfa Tir.

**Grŵp Cydlynu Rhaglenni**
Mae'n trafod pryderon a materion rhwng rhaglenni Trawsffurfio Busnes ac Effeithiolrwydd Busnes y Gofrestrfa Tir megis strwythurau staffio, cytuno ar leoliad prosiectau newydd, dileu gorgyffwrdd, cyfnewid syniadau a mynd i'r afael â thensiynau adnoddau.

Argraffwyd yn y DU ar gyfer y Llyfrfa
Cyfyngedig ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi
ID5847521 07/08